ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cadw dysgwyr yn ddiogel

## Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 283/2022
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2022
Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 275/2021

# Cadw dysgwyr yn ddiogel

**Cynulleidfa**
Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad addysg neu asiantaeth gysylltiedig y byddai o fudd iddynt ddeall y broses a'r disgwyliadau o ran diogelu mewn ysgolion, a'r system ehangach.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar drefniadau ar gyfer diogelu plant o dan Ddeddf Addysg 2002. Mae'r canllawiau yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithdrefnau a'r dyletswyddau diogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Camau i'w cymryd**
Dylai'r cyflogwyr a'r lleoliadau addysgol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc gymryd y camau gweithredu angenrheidiol a amlinellir yn y canllawiau hyn. Mae rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer cyflogwyr a sefydliadau addysgol yn y meysydd hyn a thynnir sylw atynt yn y canllawiau.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: keepinglearnerssafe@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel

**Dogfennau cysylltiedig**
Mae'r canllawiau hyn yn disodli:
*Cadw Dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002.*
Dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru: rhif 275/2021.

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44749 ISBN digidol 978 1 80391 862 4

# Cynnwys


**Rhagair** **3**
Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn? 3
Beth yw diogelu? 4
**Statws a chynnwys y canllawiau hyn** **6**
**1. Y fframwaith ar gyfer diogelu yng Nghymru** **7**
Gweithdrefnau Diogelu Cymru 9
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 9
Deddf Cydraddoldeb 2010 9
Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 10
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 11
Dull gweithredu hawliau plant 12
Arolygiadau 13
**2. Rolau a chyfrifoldebau diogelu yn y system addysg** **14**
Swyddog arweiniol dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu mewn addysg 14
Y llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu 18
Hyfforddiant diogelu 22
**3. Ymateb i bryderon bod plentyn yn wynebu risg** **25**
Gwybodaeth ofynnol i staff mewn lleoliadau addysg 26
Arwyddion y dylai staff lleoliad addysg fod yn wyliadwrus ohonynt 26
Ymateb priodol gan staff lleoliad addysg sydd â phryderon ynglŷn â diogelu 27
Ceisio cyngor ar bryderon 27
**4. Cyfrifoldebau penodol gwahanol leoliadau addysg** **36**
Cyfrifoldebau colegau 36
Cyfrifoldebau ysgolion annibynnol 36
Cyfrifoldebau ysgolion annibynnol sy’n cynnig darpariaeth breswyl 37
Cyfrifoldebau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion am addysg a ddarperir y tu allan i leoliad ysgol a gynhelir 38
Cyfrifoldebau darparwyr dysgu seiliedig ar waith 39
Cyfrifoldebau ysgolion bro, darparwyr gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a darparwyr dysgu y tu allan i oriau ysgol 39
Cyfrifoldebau lleoliadau nas cynhelir a ariennir 40
Cyfrifoldebau lleoliadau gwaith ieuenctid 40
**5. Cyfrifoldebau diogelu dan amgylchiadau penodol** **41**
Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan 41
Achosion o gam-drin ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion 42
Delweddau o gam-drin plant a’r rhyngrwyd 43
Plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal 43
Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches 44
Bwlio 44

Troseddau casineb 44
Cynnwys a chynorthwyo disgyblion 45
Plant sy'n colli addysg 45
Plant sy'n derbyn gofal 45
Ymweliadau cyfnewid tramor 45
Dysgu yn yr awyr agored a gwibdeithiau 46
Cyswllt corfforol â disgyblion, gan gynnwys ataliaeth 46
Camddefnyddio sylweddau 47
Hunanladdiad a hunan-niwed 48
**6. Cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd, trais rhywiol ac arferion diwylliannol niweidiol 49**
Dulliau rhagweithiol 49
Operation Encompass 50
Ymateb i bryderon 50
Anffurfio organau cenhedlu benywod 51
Priodas dan orfod 51
**7. Cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein 53**
Cadw’n ddiogel ar-lein ar Hwb 53
Diwrnod Defnyddio’r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 53
Gwersi ffrydio byw 54
Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo’r we 54
Ymateb i achosion o rannu delweddau noeth neu hanner noeth 54
Heriau niweidiol feirol ar-lein a storïau celwyddog 55
Cymorth i lywodraethwyr 55
Cymorth a chefnogaeth 56
Canllawiau pellach 57
**8. Cydlyniant cymunedol 58**
Atal radicaleiddio 58
**9. Arferion mwy diogel wrth recriwtio staff 60**
Asiantaethau cyflenwi 61
Yr hyn y dylai staff ysgol neu goleg ei wneud os bydd ganddynt bryderon am arferion diogelu yn yr ysgol neu'r coleg 62
Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) 62
**Atodiad 1: Polisi diogelu enghreifftiol 64**
**Atodiad 2: Rhestr termau 68**
**Atodiad 3: Adnodd archwilio trefniadau diogelu 71**

# Rhagair

Yn y canllawiau hyn, defnyddir y termau **rhaid**, **dylai** ac **arfer effeithiol**. Defnyddir y gair **rhaid** pan fydd dyletswydd statudol i fodloni'r gofyniad. Defnyddir y gair **dylai** pan ddylid dilyn y cyngor a nodir oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Defnyddir y term **arfer effeithiol** lle yr ystyrir y dylai'r lleoliad addysg ddilyn y cyngor, ond nad yw'n ofynnol gwneud hynny.

## Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn?

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir), ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig a sefydliadau addysg bellach ddarllen y canllawiau statudol hyn a'u dilyn o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (y cyfeirir ati fel 'Deddf 2002' o hyn ymlaen); ac mae'n rhaid i ysgolion annibynnol eu darllen a'u dilyn o dan adran 157 o Ddeddf 2002. **Dylai'r** lleoliadau addysg uchod sicrhau bod pob aelod o staff yn y lleoliadau hynny yn deall y canllawiau hyn, a sicrhau bod systemau ar waith er mwyn helpu staff i ddeall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau fel y'u nodir yn y canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi arfer effeithiol ar gyfer lleoliadau addysg ehangach ac asiantaethau cysylltiedig, yn arbennig y rheini a gaiff eu harolygu gan Estyn. Argymhellir eu bod yn berthnasol i wasanaethau ieuenctid, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, perchnogion darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, arweinwyr partneriaethau addysg gychwynnol i athrawon (AGA); byrddau diogelu plant; sefydliadau addysg uwch; Gyrfa Cymru a lleoliadau nas cynhelir yn sector y blynyddoedd cynnar.

Diben y canllawiau hyn yw helpu pob lleoliad addysg i sicrhau bod ganddo systemau diogelu effeithiol ar waith. Maent yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol, corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir (mae cyfeiriadau at ysgolion yn y ddogfen hefyd yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion hefyd), sefydliadau addysg bellach (a elwir yn golegau yn y canllawiau hyn o hyn ymlaen) a pherchnogion ysgolion annibynnol, i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau i ddiogelu a hybu llesiant plant yng Nghymru.

Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i asiantaethau sy'n cyflenwi staff i'r sector addysg, contractwyr sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg sy'n gyfrifol am blant a phobl ifanc o dan 18 oed, yn ogystal â darparwyr eraill sy'n cynnig addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc o dan 18 oed. Yn ogystal, mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i Bartneriaethau AGA y mae'n ofynnol iddynt sicrhau y caiff pob athro dan hyfforddiant gyfnodau penodedig o brofiad mewn ysgolion er mwyn ymgymryd â hyfforddiant o dan arweiniad ysgolion. [1]

[1] llyw.cymru/rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-meini-prawf-achredu

## Beth yw diogelu?

Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac addysgu pobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir diogelu a hybu llesiant pob plentyn sy'n mynychu lleoliad addysg fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- atal unrhyw beth sy'n amharu ar iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny dan amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- gweithredu er mwyn galluogi pob plentyn i gyflawni'r deilliannau gorau.

At ddibenion y canllawiau hyn:

- mae “plant” yn cynnwys unrhyw un o dan 18 oed. Yn ôl diffiniad adran 175 o Ddeddf 2002 ac adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cyfeirir ati fel “Deddf 2014” o hyn ymlaen), ystyr plentyn yw person o dan 18 oed. Mae hynny’n golygu bod y dyletswyddau diogelu a nodir yn y canllawiau hyn yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Rydym yn cydnabod na fydd pobl ifanc yn eu harddegau o bosib yn hoffi cael eu galw’n blant, a bydd yn well ganddynt y term person ifanc. Nid yw’r defnydd o’r term ‘plentyn’ yn y canllawiau hyn yn golygu y dylai pawb sy’n gweithio mewn lleoliad addysg ddefnyddio’r term yn ymarferol
- diffinnir llesiant yn unol ag adran 2 o Ddeddf 2014 ac mae'n cynnwys “lles” (welfare) fel y dehonglir y gair hwnnw at ddiben Deddf Plant 1989.

Mae gan bawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg a ddaw i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd, rôl i'w chwarae o ran diogelu plant, p'un a gânt eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu fel arall. Maent yn rhan o'r system ddiogelu ehangach ar gyfer plant ac maent mewn sefyllfa i nodi pryderon yn gynnar a rhoi cymorth i blant er mwyn atal materion rhag gwaethygu. Dylent weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i hybu llesiant plant a'u diogelu rhag niwed.

Mae pawb sy'n gweithio ym maes addysg yn gyfrifol am gadw plant yn ddiogel drwy wneud y canlynol:

- creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant
- nodi pryderon ynghylch llesiant plant a chymryd camau i ymateb iddynt, lle y bo’n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- meithrin dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant drwy'r cwricwlwm.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen systemau penodol er mwyn:

- atal pobl anaddas[2] rhag gweithio gyda phlant
- hybu ymarfer diogel a herio ymarfer gwael ac anniogel
- nodi achosion sy'n peri pryder am lesiant plentyn, a dechrau neu gymryd camau priodol i'w gadw'n ddiogel
- cyfrannu at waith partneriaeth a chyfathrebu effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd
- hybu ac amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc.

[2] Mae Adran 113BA o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn nodi gwybodaeth am addasrwydd mewn perthynas â phlant

## Statws a chynnwys y canllawiau hyn

Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer eu pwerau yn unol ag adran 175 o Ddeddf 2002. Yn unol ag adran 175 o Ddeddf 2002, rhaid i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach roi sylw i'r canllawiau hyn er mwyn cyflawni eu dyletswyddau, a dylent arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant. Mae'r gofyniad i 'roi sylw i' yn golygu bod yn rhaid ystyried y canllawiau, a chyfiawnhau unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrthynt.

Yn unol ag adran 157 o Ddeddf 2002, rhaid i berchnogion ysgolion annibynnol roi sylw i'r canllawiau hyn er mwyn cyrraedd y safonau a osodir mewn rheoliadau ac arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.

Mae'r ddogfen hon:

- yn rhoi canllawiau ar effaith y ddyletswydd i wneud trefniadau i ddiogelu a hybu llesiant plant a gyflwynwyd gan adran 175 o Ddeddf 2002
- yn nodi rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, perchnogion ysgolion annibynnol, penaethiaid, a staff â chyfrifoldeb dynodedig am ddiogelu wrth wneud trefniadau i helpu'r rhai yn y lleoliadau addysg i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- yn rhoi cyngor ar arfer effeithiol i leoliadau eraill
- yn ategu cyfrolau 1, 2 a 5 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:* Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl a gyhoeddwyd yn unol â Rhan 7 o Ddeddf 2014. Mae'r gyfres hon o ganllawiau yn nodi disgwyliadau clir ynglŷn â'r ffordd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr gydweithio â'i gilydd i ddiogelu plant. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru[3] yn nodi'r canllawiau ymarfer manwl ar gyfer gweithio gyda'n gilydd ac mae'r canllawiau hyn yn gydnaws â'r Gweithdrefnau.

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhagnodi gweithdrefnau manwl. Yn hytrach, maent yn anelu at ddynodi'r canlyniadau y mae angen i sefydliadau eu sicrhau er mwyn galluogi staff i gyflawni'r amcan o gadw plant yn ddiogel rhag niwed, yn ogystal â'r hyn y mae angen ei wneud, neu ei roi ar waith, i wireddu hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau blaenorol, sef *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* 2015 (rhif dogfen: 158/2015).

[3] Cyhoeddwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ym mis Tachwedd 2019 ac maent yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan www.diogelu.cymru/

# 1. Y fframwaith ar gyfer diogelu yng Nghymru

**1.1** Mae dyletswyddau statudol ar bob ysgol a choleg i weithredu mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu llesiant plant[4], ac yn achos rhai colegau, oedolion. Nodir y cyfrifoldebau cyfreithiol yn y canlynol:

- y ddyletswydd gofal o dan gyfraith gyffredin[5]
- y ddyletswydd i hysbysu[6]
- y ddyletswydd sy'n deillio o'r contract cyflogaeth.

**1.2** Mae angen i'r trefniadau sydd ar waith gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion i gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol hyn sicrhau'r canlynol:

- y rhoddir mesurau rhesymol ar waith i leihau risgiau o niwed i lesiant plant cymaint â phosibl[7];
- y cymerir camau priodol i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â llesiant plentyn neu blant, gan weithio'n unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt, a hynny mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill.

**1.3** Wrth benderfynu pa drefniadau y mae'n **rhaid** eu gwneud i gyflawni eu dyletswyddau, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu roi sylw i ganllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y canllawiau a roddir yn y ddogfen hon.

**1.4** **Rhaid** i berchnogion ysgolion annibynnol gydymffurfio â'r canllawiau hyn er mwyn cyrraedd y safonau llesiant, iechyd a diogelwch a ragnodir mewn rheoliadau yn unol ag adran 157 o Ddeddf 2002.

**1.5** Lle mae gofynion statudol, rhaid bod gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion, ysgolion a cholegau bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n bodloni'r gofynion hyn, a rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

**1.6** Mae **Atodiad 1** o'r canllawiau hyn yn darparu polisi diogelu enghreifftiol er mwyn helpu lleoliadau addysg i roi eu trefniadau diogelu ar waith. Nid yw'n statudol ond ystyrir bod llunio polisi o'r fath yn **arfer effeithiol**.

---

[4] Dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a cholegau yn unol ag adran 175 o Ddeddf 2002 ac mae'n gymwys i berchnogion ysgolion annibynnol yn rhinwedd Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 (gweler www.legislation.gov.uk/wsi/2003/3234/schedules/made/welsh) a wnaed yn unol ag adran 157 o Ddeddf 2002 (gweler www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/section/157).

[5] Cyfraith a ddatblygir drwy benderfyniadau'r Llys yw'r 'gyfraith gyffredin', yn hytrach na chyfraith a bennwyd gan y Senedd a'i thraethu mewn statud.

[6] Adran 128 ac Adran 130 o Ddeddf 2014 (gweler www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh)

[7] Diffinnir llesiant yn unol ag adran 2 o Ddeddf 2014 ac mae'n cynnwys "lles" (welfare) fel y dehonglir y gair at ddiben Deddf Plant 1989.

**1.7** Mae angen i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion hefyd allu dangos eu bod wedi ystyried a oes gan blant, gan gynnwys plant unigol, yn eu hardal, unrhyw anghenion penodol o ran diogelu, yn ychwanegol at y rhai a gwmpesir gan y canllawiau. Os felly, rhaid iddynt sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny.

**1.8** Os methir â gwneud trefniadau fel sy'n ofynnol gan adran 175 neu lynu wrth reoliadau a wnaed o dan adran 157 o Ddeddf 2002, neu roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, gall hynny fod yn sail i Weinidogion Cymru gymryd camau yn erbyn awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, neu berchnogion ysgolion annibynnol.

**1.9** Yr awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu berchennog ysgol annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau hyn ar waith. Ni fydd unigolion yn uniongyrchol atebol, ac eithrio lle mae perchennog ysgol annibynnol yn digwydd bod yn unigolyn.

**1.10** Mae penaethiaid, prifathrawon ac aelodau eraill o staff yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu'r perchennog. Mater i’r cyflogwr o dan weithdrefnau disgyblu yw gorfodi unigolion i gydymffurfio â’r trefniadau hynny.

**1.11** **Rhaid** i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael un pwynt cyswllt er mwyn i bobl sy'n gweithio gyda phlant allu codi pryderon am blentyn sy'n wynebu risg. **Dylai** pawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg fod yn gyfarwydd â'r manylion cyswllt perthnasol yn yr awdurdod lleol a manylion y person diogelu dynodedig (DSP) yn eu lleoliad addysg ar gyfer codi pryder o'r fath. **Rhaid** i bob ysgol neu goleg sicrhau bod polisi diogelu ar waith sy'n nodi manylion cyswllt pwynt cyswllt cyntaf yr awdurdod lleol yn glir. Dylai'r polisi hwn fod ar gael yn hawdd i bob aelod o staff. Mae hyn yn **arfer effeithiol** i bob lleoliad addysg.

**1.12** Mae Deddf 2014 yn darparu ar gyfer sefydlu byrddau diogelu plant (y Bwrdd). **Rhaid** i bob un o bartneriaid bwrdd diogelu plant[8] gael eu cynrychioli gan gynrychiolydd ar lefel ddigon uchel i sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn effeithiol. Rhaid i swyddogaethau'r cyfarwyddwr addysg gael eu hadlewyrchu ar y Bwrdd. Yn absenoldeb y cyfarwyddwr perthnasol, caiff swyddog arall sy'n atebol i'r cyfarwyddwr ac sydd ar lefel ddigon uchel i gynrychioli'r awdurdod fod yn bresennol yn ei le. **Rhaid** i'r cynrychiolydd gymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i ysgolion.

**1.13** Mae'n ofynnol i ysgolion a cholegau gydweithio a rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol.[9] Mae gan Fyrddau Diogelu y pŵer i wneud cais am wybodaeth benodedig[10] gan berson neu gorff cymwys ar yr amod mai diben y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf. Bydd gan bob Bwrdd is-grŵp i arwain adolygiadau ymarfer amlasiantaethol o ddigwyddiad arwyddocaol lle y gwyddys neu yr amheuir bod

[8] Fel y nodir yn adran 134 (2) o Ddeddf 2014
[9] Adran 164 o Ddeddf 2014.
[10] Adran 137 o Ddeddf 2014

y plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Lle bynnag y bo angen, bydd cynrychiolydd addysg mewn adolygiadau o'r fath. Bydd y cynrychiolydd hwn yn gyfrifol am gydgysylltu â'r ysgol lle y bo angen gwybodaeth ychwanegol.

**1.14** Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014:* Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl yn cynnig cyfres o ganllawiau er mwyn helpu ymarferwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â Rhan 7 o Ddeddf 2014[11].

## Gweithdrefnau Diogelu Cymru

**1.15** Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru[12] yn helpu unigolion ac asiantaethau ledled Cymru i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw plant ac oedolion yn ddiogel. Maent yn cefnogi dull cyson o weithredu mewn perthynas ag ymarfer a gweithdrefnau diogelu ledled Cymru.

**1.16** Maent yn eiddo i'r byrddau diogelu yng Nghymru ac maent yn cynnig fframwaith sy'n adlewyrchu trefniadau gweithredol o ddydd i ddydd a ategir gan y fframwaith deddfwriaethol a nodir yn Neddf 2014 a'r canllawiau cysylltiedig. Maent yn rhan annatod o'r gwaith o ddiogelu a hybu llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

**1.17** Datblygwyd Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant o dan amgylchiadau diogelu penodol i'w defnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a cheir dolenni atynt yn adran 5.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**1.18** Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dylai ysgolion a cholegau gynnal pwyslais ar atal, o ran ymyrryd yn gynnar, gyda'r bwriad o leihau'r risgiau sy'n wynebu plant a'r anawsterau dilynol yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae dod i gysylltiad â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod[13] yn gysylltiedig ag iechyd a deilliannau llesiant gwaeth. Mae nodi, ymyrryd a gweithredu'n gynnar i liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gydol oes, yn hollbwysig.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

**1.19** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu a pherchnogion i sicrhau bod y lleoliad addysg yn bodloni gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb. Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd, dylai corff llywodraethu neu berchennog wneud y canlynol:

---

[11] llyw.cymru/canllawiau-diogelu
[12]. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
[13] Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynnwys cam-drin plant (megis cam-drin corfforol, rhywiol a geiriol) a phrofiadau ehangach o gamweithrediad y cartref (megis tyfu i fyny mewn cartref y mae cam-drin domestig, rhieni'n gwahanu, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu ymddygiad troseddol yn effeithio arno).

- sicrhau bod y lleoliad addysg yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw ei gyflogeion yn gweithredu nac yn ymddwyn mewn ffordd wahaniaethol anghyfreithlon
- cefnogi ac arwain y lleoliad addysg i roi sylw dyledus i gydraddoldeb yn ei holl weithgarwch
- sicrhau bod y lleoliad addysg yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb.

**1.20** Rhaid i ysgolion a cholegau gyflawni dyletswyddau cyffredinol yn unol â'r Ddeddf. Ceir hefyd ddarpariaethau penodol i ysgolion yn Rhan 6 a Rhan 7 o'r Ddeddf sy'n gwahardd ysgolion rhag gwahaniaethu yn erbyn y canlynol, aflonyddu arnynt neu eu herlid:

- darpar ddysgwyr (mewn perthynas â threfniadau derbyn)
- dysgwyr yn y lleoliad addysg (gan gynnwys y rhai sy'n absennol neu sydd wedi cael eu gwahardd dros dro)
- cyn-ddysgwyr (os oes cydberthynas barhaus am eu bod wedi bod yn ddysgwr yn yr ysgol).

**1.21** Mae rhwymedigaethau ar awdurdodau lleol yng Nghymru o dan y darpariaethau ar gyfer ysgolion lle mai nhw yw'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol, er enghraifft. Mae rhwymedigaethau hefyd ar awdurdodau lleol fel darparwyr gwasanaethau a chyrff sy'n ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus.

**1.22** Mae'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi llunio'r dogfennau 'What equality law means for you as an education provider: schools' a 'What equality law means for you as an education provider: further and higher education' sy'n cynnig cyngor ar y cyfrifoldebau penodol yn unol â'r Ddeddf.

## Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

**1.23** Mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol) (Cymru) 2020 yn diddymu amddiffyniad cosb resymol. Mae pob cosb gorfforol i blant yn anghyfreithlon yng Nghymru (o 21 Mawrth 2022), gan gynnwys gan rieni, gofalwyr ac unrhyw un sy'n gweithredu in loco parentis mewn unrhyw leoliad yng Nghymru.

**1.24** Nod gyffredinol Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Rhesymol) (Cymru) 2020 yw helpu i warchod hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol gan rieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithredu in loco parentis yng Nghymru, gan gynnwys ymwelwyr â Chymru. O wneud hynny, bydd gan blant yng Nghymru yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad ag oedolion.

**1.25** Bwriad y ddeddfwriaeth ynghyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth (gweler 'Stopio cosbi corfforol yng Nghymru') a chymorth i rieni a gofalwyr i fabwysiadu dulliau magu plant cadarnhaol (gweler 'Magu Plant. Rhowch amser iddo') yw sicrhau llai fyth o ddefnydd a goddefgarwch o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r ymchwil yn awgrymu y gallai unrhyw fath o gosbi corfforol fod yn niweidiol i blant.

**1.26** Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod bod unrhyw gosb gorfforol i blant, dim ots pa mor fach, yn torri hawliau dynol plant o dan Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) (yr hawl i amddiffyniad rhag pob ffurf ar drais) ac wedi galw am ddiddymu hynny.

**1.27** Dylech barhau i gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru a'u Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan os ydych chi'n delio ag achosion cosbi corfforol. Mae Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan mewn perthynas â'r newid hwn yn y gyfraith yn darparu rhagor o wybodaeth – gweler adran 5.

Mae gwybodaeth gyffredinol am stopio cosbi corfforol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn 'Stopio cosbi corfforol yng Nghymru'.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**1.28** Cytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant o dan 18 oed yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae CCUHP yn cynnwys 54 o erthyglau. Mae Erthyglau 1–42 yn nodi'r hawliau a ddylai fod gan bob plentyn. Mae a wnelo Erthyglau 43–54 â sut y dylai oedolion a llywodraethau gydweithio er mwyn sicrhau y gall pob plentyn arddel ei hawliau. Yn 1991, fe'i dilyswyd gan Lywodraeth y DU, a gytunodd yn ffurfiol i sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU yr holl hawliau a restrir yn CCUHP.

**1.29** Mae gan CCUHP 54 o erthyglau sy'n edrych ar bob agwedd o fywyd plentyn, gan nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Ceir crynodeb o'r CCUHP o dan y ddolen Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn.

**1.30** Ymhlith y prif erthyglau mae'r rhai sy'n nodi bod gan bob plentyn yr hawl:

- erthygl 12 – i'w lais gael ei glywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno
- erthygl 19 – i gael ei amddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod
- erthygl 28 – i gael addysg
- erthygl 29 – i gael addysg sydd wedi'i chyfeirio at ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd corfforol a meddyliol y plentyn
- erthygl 33 – i gael ei amddiffyn rhag cyffuriau peryglus
- erthygl 34 – i gael ei gadw'n ddiogel rhag cam-drin rhywiol
- erthygl 36 – i gael ei gadw'n ddiogel rhag niwed i'w ddatblygiad.

**1.31** Yn 2011, Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gorffori CCUHP mewn cyfraith ddomestig, drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae Adran 1 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau i roi ystyriaeth briodol i ofynion:

- rhan 1 o'r CCUHP
- erthyglau 1 i 7 o'r Protocol Dewisol i'r CCUHP ar gyfranogiad plant mewn gwrthdaro arfog, heblaw erthygl 6(2)

- erthyglau 1 i 10 o’r Protocol Dewisol i’r CCUHP ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant (Saesneg yn unig).

**1.32** Lluniwyd gwefan Hawliau Plant Llywodraeth Cymru er mwyn helpu ymarferwyr, llunwyr polisïau a phob rhanddeiliad i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut mae gweld pethau o safbwynt hawliau plant yn eu gwaith. Mae'r wefan yn cynnwys cyfres o adnoddau gan gynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

## Dull gweithredu hawliau plant

**1.33** Mae datblygu dealltwriaeth plant o'u hawliau, fel nodir yn adran 4 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn fesur ataliol pwysig er mwyn diogelu lles plant a phobl ifanc. Mae galluogi plant i brofi eu hawl i fynegi eu barn wrth i oedolion wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Erthygl 12 o CCUHP) yn ddull diogelu allweddol.

**1.34** Gall creu cyfleoedd i blant ddysgu am eu hawliau hefyd alluogi plant a phobl ifanc i wneud datgeliadau uniongyrchol am eu profiadau.

**1.35** Gall lleoliadau addysg ddatblygu dull gweithredu hawliau plant gan ddefnyddio canllawiau Comisiynydd Plant Cymru i leoliadau addysg, *Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant i addysg yng Nghymru*.

**1.36** Mae'r dull ymarferol hwn ar gyfer gweithio gyda phlant, sy'n seiliedig ar CCUHP, yn cynnwys pum egwyddor:

- **gwreiddio hawliau plant** – sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd cynllunio a darparu
- **cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal
- **grymuso plant** – gwella galluoedd plant fel unigolion fel eu bod yn medru manteisio'n well ar eu hawliau
- **cyfranogiad** – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn
- **atebolrwydd** – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a gweithredoedd sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ceir amrywiaeth o adnoddau pellach er mwyn dysgu am hawliau ar Hwb.

**1.37** Mae'r Comisiynydd Plant hefyd wedi cynhyrchu pecyn o adnoddau gan gynnwys adnoddau hygyrch i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, ac adnoddau dysgu proffesiynol i athrawon.

**1.38** Bwriad gwefan Hawliau Plant Llywodraeth Cymru yw helpu ymarferwyr, llunwyr polisïau a phob rhanddeiliad i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut mae gweld pethau o safbwynt hawliau plant yn eu gwaith. Mae'r wefan yn cynnwys cyfres o adnoddau gan gynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

## Arolygiadau

**1.39** Caiff arfer diogelu ym mhob ysgol, coleg, darparwr dysgu seiliedig ar waith, ysgol meithrin a lleoliad nas cynhelir, partneriaeth AGA ac awdurdod lleol ei arolygu gan Estyn ac, mewn rhai achosion, gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Ym mhob lleoliad addysg, y gallu i ddiogelu a hybu llesiant plant yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol fydd yn llywio dyfarniad yr arolygiaeth am berfformiad cyffredinol y lleoliad addysg. Bydd perfformiad yn y maes hwn yn cael ei asesu ar sail bodolaeth gweithdrefnau yn ogystal â'u heffeithiolrwydd wrth ddiogelu plant rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a dioddef mathau eraill o niwed.

**1.40** Mae gan bob arolygydd gyfrifoldeb hefyd i roi gwybod am unrhyw ddatgeliadau neu bryderon diogelu sydd ganddo wrth ymweld â lleoliad addysg.

**1.41** Estyn sy'n arolygu pob ysgol annibynnol yng Nghymru. Pan fydd gan ysgol annibynnol lety preswyl neu pan fydd yn gysylltiedig â chartref plant, bydd Estyn ac AGC yn ei harolygu. Bydd Estyn yn cynnal arolygiad o'r ysgol a'i hagweddau addysg ac yn cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar y graddau y llwyddwyd i gyrraedd y Safonau Ysgol Annibynnol, gan gynnwys agweddau diogelu.

**1.42** Estyn sy'n arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant cyn oed ysgol mewn ysgolion meithrin a gynhelir, a chaiff lleoliadau nas cynhelir a ariennir eu harolygu ar y cyd gan Estyn ac AGC.

**1.43** Cyn arolygu ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, bydd Estyn yn ceisio barn athrawon, staff cymorth, llywodraethwyr, pwyllgorau rheoli, cyflogwyr, dysgwyr, rhieni a gofalwyr drwy holiaduron cyn arolygu.

**1.44** Fel **arfer effeithiol**, disgwylir y bydd y person diogelu dynodedig yn sicrhau y caiff arfer diogelu'r darparwr ei archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae darparwyr yng Nghymru yn defnyddio llawer o adnoddau archwilio defnyddiol. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell yr adnodd yn Atodiad 3 fel adnodd cynhwysfawr, a dylid ei gwblhau'n rheolaidd. Mae'r adnodd yn helpu lleoliadau addysg i adolygu eu trefniadau diogelu a nodi cryfderau a gwendidau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â'r canllawiau hyn. Datblygwyd yr adnodd gyda mewnbwn gan Estyn a phan gaiff ei ddefnyddio'n effeithiol, mae'n bodloni'r gofynion a ddisgwylir gan Estyn yn ystod arolygiad. .

# 2. Rolau a chyfrifoldebau diogelu yn y system addysg

**2.1** Mae rôl addysg wrth ddiogelu plant yn effeithiol yn hanfodol gan fod lleoliadau addysg yn dod i gysylltiad mynych â phlant a theuluoedd ac mae'n bosibl mai'r gweithwyr proffesiynol hyn fydd yr unig weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'u bywydau. Mae lleoliadau addysg yn aml yn creu cysylltiad rhwng plentyn ac oedolyn y gall ymddiried ynddo a bydd y staff yn dod i adnabod y plentyn a'r teulu yn ogystal â'i gymuned ehangach. Mae cyfrifoldebau a chyfleoedd yn gysylltiedig â hyn a dylid cynnwys trefniadau diogelu fel rhan o ddiwylliant lleoliad addysg er mwyn gallu rhoi camau ymyrryd ac atal cynnar ar waith, lleihau risgiau a lleihau effaith trawma. Nid ymwneud â hybu un fenter a wna'r dull gweithredu ysgol gyfan (lleoliad cyfan) tuag at lesiant, nac ymyriad penodol dros un arall, gan nad oes unrhyw 'fwled arian' a bydd angen i bob ysgol ystyried sut y mae'n diwallu ei hanghenion yn unol â'i hamgylchiadau unigryw ei hun. Mae atgyfnerthu'r pethau bychain sy'n meithrin y cydberthnasau cadarnhaol sydd, yn anad dim, yn gwneud gwahaniaeth ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn a chymuned, wrth wraidd y fframwaith. Nid dim ond cydberthnasau rhwng dysgwyr a staff, ond hefyd gydberthnasau sy'n croesi ffiniau cymunedol, ffiniau statudol a ffiniau'r trydydd sector, er mwyn sicrhau y gall y system gyfan, gan weithio o amgylch yr ysgol neu'r lleoliad addysg fel canolbwynt y gymuned, greu ethos sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi llesiant emosiynol a meddyliol. Mae angen i'r system addysg gyfan gefnogi'r dull gweithredu hwn, a bydd pob rôl a chyfrifoldeb yn yr adran hon yn cyfrannu at ei lwyddiant.

## Swyddog arweiniol dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu mewn addysg

**2.2** **Rhaid** i awdurdodau lleol sicrhau bod uwch-swyddog priodol yn eu hadran addysg yn cael ei ddynodi fel yr unigolyn â chyfrifoldeb arweiniol am gyflawni eu dyletswyddau diogelu ym maes addysg. Dylai'r amrywiaeth o gyfrifoldebau a briodolir i swydd y swyddog dynodedig fod yn gyson â'r angen i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith ym mhob un o swyddogaethau addysg yr awdurdod.

**2.3** Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau strategol, cymorth a gweithredol.

### Cyfrifoldebau strategol

**2.4** Ar y lefel hon **dylai'r** awdurdod lleol sicrhau:

- ei fod yn dyrannu adnoddau er mwyn cefnogi gwaith y bwrdd diogelu plant (y Bwrdd) rhanbarthol
- bod ei uwch-swyddogion, gan gynnwys swyddogion addysg, yn cynrychioli'r awdurdod ar y Bwrdd a bod yr awdurdod yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gwasanaethau cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion plant
- ei fod yn cydweithio ag asiantaethau eraill i roi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac i gefnogi'r trefniadau hynny

- ei fod yn meithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol ac yn sicrhau cyfathrebu effeithiol â gwasanaethau eraill yn yr awdurdod lleol
- bod adnoddau'n cael eu dyrannu er mwyn galluogi'r awdurdod lleol ac ysgolion a gynhelir i gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu plant yn foddhaol
- cydgysylltu effeithiol â'r awdurdodau esgobaethol priodol mewn perthynas â threfniadau ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sylfaen yn ei ardal
- bod cydymffurfiaeth ysgolion a gynhelir â'r canllawiau yn cael ei monitro, yn benodol mewn perthynas â gwiriadau cyflogaeth (gan gynnwys staff dros dro a staff asiantaeth), bodolaeth a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau priodol a hyfforddiant staff, gan gynnwys yr uwch-berson â chyfrifoldeb diogelu dynodedig mewn ysgolion a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r unigolyn hwnnw
- ei fod yn dwyn diffygion i sylw corff llywodraethu'r ysgol ac yn rhoi cyngor ar y camau sydd eu hangen i'w hunioni
- bod problemau rhyngasiantaethol yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu nodi
- ei fod yn cymryd rhan lawn mewn adolygiadau ymarfer plant yn unol â Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant ac yn adolygu a diwygio gweithdrefnau a hyfforddiant yn unol â chanfyddiadau'r adolygiadau hynny, ac yn lledaenu gwybodaeth am ganfyddiadau perthnasol i'r bobl sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant yn yr awdurdod ac mewn ysgolion a gynhelir.

**Cyfrifoldebau cymorth**

**2.5** Ar y lefel hon **dylai'r** awdurdod lleol wneud y canlynol:

- sicrhau bod hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff sy'n gweithio mewn lleoliad addysg yn yr awdurdod, ac ar gyfer staff a fydd yn gweithio gyda phlant mewn ysgolion a gynhelir, yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran amddiffyn plant yn effeithiol, gan gynnwys ymateb i ddatgeliadau o gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed mewn ffordd briodol a sensitif. **Dylai'r** awdurdod lleol hefyd sicrhau bod hyfforddiant gloywi addas yn cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau staff yn gyfredol. Hefyd, dylai llywodraethwyr ysgolion a gynhelir gael hyfforddiant priodol ar eu cyfrifoldebau diogelu ac wrth ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff ysgol
- sicrhau bod hyfforddiant pellach ar weithio rhyngasiantaethol, sydd naill ai'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd neu'n cyrraedd y safonau a bennir gan y Bwrdd, i ddiogelu plant ar gael ar gyfer pob aelod o staff a benodir i fod yn gyfrifol am ddiogelu. Dylai hyfforddiant gloywi addas fod ar gael hefyd sy'n cyrraedd y safonau a bennir gan y Bwrdd
- cadw cofnod o'r holl bersonau diogelu dynodedig a llywodraethwyr dynodedig ar gyfer diogelu yn yr ysgolion yn ei ardal, yn ogystal â'r hyfforddiant a gafwyd a'r dyddiadau y cynhaliwyd yr hyfforddiant
- goruchwylio'r trefniadau ar gyfer goruchwylio personau diogelu dynodedig yn yr awdurdod er mwyn sicrhau na chaiff y rôl effaith andwyol ar eu llesiant ac

y cânt gyfle i fyfyrio ar eu hymarfer

- darparu polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol i ysgolion a gynhelir ar bob agwedd ar amddiffyn plant, gan gynnwys recriwtio, a gweithdrefnau i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr. Rhaid i'r polisïau a'r gweithdrefnau fod yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru (yn benodol y polisi enghreifftiol a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn [Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol](): *Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu*, cylchlythyr 002/2020 a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ar gyfer gweithio rhyngasiantaethol, fel y bo'n briodol). Ceir polisi diogelu enghreifftiol yn Atodiad 1
- rhoi cyngor, arweiniad a chymorth mewn perthynas ag ymdrin ag achosion unigol i ysgolion a gynhelir a phersonau diogelu dynodedig yn y sefydliadau hynny. Lle bo angen, dylai'r awdurdod weithredu ar eu rhan er mwyn datrys unrhyw anawsterau ag asiantaethau partner y Bwrdd, neu gael cymorth priodol gan yr asiantaethau hynny
- cydgysylltu ag ysgolion a gynhelir, asiantaethau a cholegau er mwyn sicrhau y gwneir atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/Cyngor y Gweithlu Addysg
- sicrhau bod trefniadau ar waith i helpu staff yn yr awdurdod ac mewn ysgolion a gynhelir sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig am ddiogelu. Dylai'r trefniadau hyn annog a meithrin dealltwriaeth a pherthynas waith dda rhyngddynt hwy, gweithwyr cymdeithasol plant, a staff mewn asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu plant, er mwyn datblygu gwaith effeithiol mewn partneriaeth.

**Cyfrifoldebau gweithredol**

**2.6** Ar y lefel hon **dylai'r** awdurdod lleol wneud y canlynol:

- rhoi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a sicrhau bod pob gwiriad priodol yn cael ei gynnal ar gyfer aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- diogelu a hybu llesiant plant nad oes lle mewn ysgol wedi'i neilltuo iddynt, neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysg mewn unedau cyfeirio disgyblion, drwy ddarpariaeth amgen neu drwy'r gwasanaeth tiwtoriaid cartref
- ceisio meithrin cydberthnasau effeithiol ag addysgwyr yn y cartref sy'n diogelu buddiannau addysgol a llesiant plant. Bydd gwneud hynny yn sicrhau y gall rhieni/gofalwyr gael gafael ar unrhyw gymorth sydd ar gael ac yn galluogi awdurdodau i ddeall darpariaeth addysgol y rhieni/gofalwyr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler *Addysg ddewisol yn y cartref – Canllawiau anstatudol ar gyfer awdurdodau lleol*.
- gwneud trefniadau ar gyfer goruchwylio honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff yn yr awdurdod neu mewn ysgolion neu golegau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, *Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol: canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu* (002/2020), sy'n cynnwys polisi enghreifftiol

- gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau partner ar y Bwrdd i sicrhau yr ymdrinnir â honiadau'n gyflym, yn deg ac yn gyson, a bod achosion yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i DBS a Chyngor y Gweithlu Addysg
- sicrhau bod staff yr awdurdod sy'n gweithio gyda phlant (gan gynnwys unrhyw staff sy'n ymgymryd â swyddogaethau ar ran yr awdurdod) yn cael hyfforddiant sy'n eu paratoi i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu plant yn effeithiol.

**Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu/perchnogion**

**2.7** Mae cyrff llywodraethu yn atebol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hybu llesiant plant yn unol â'r canllawiau hyn, ac am fonitro cydymffurfiaeth â nhw.

**2.8** **Rhaid** i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, cyrff llywodraethu (corfforaethau) colegau, a pherchnogion ysgolion annibynnol sicrhau bod eu priod sefydliadau:

- wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith (gan gynnwys rhai ar gyfer amddiffyn plant) sydd:

    – yn gyson â chanllawiau'r awdurdod lleol, gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol a'r safonau gofynnol cenedlaethol
    – yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol/coleg (e.e. llety preswyl, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol ac ati)
    – yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn
    – ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais
    – wedi'u darparu mewn fformat sy'n addas i ddealltwriaeth plant, yn enwedig lle mae ysgolion a cholegau'n darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

- yn rhoi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod pob gwiriad priodol yn cael ei gynnal ar gyfer aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau DBS perthnasol
- yn sicrhau bod y pennaeth/prifathro a phob aelod parhaol arall o'r staff a phob gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda phlant yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddaru'n gyson ar ffurf hyfforddiant gloywi
- yn rhoi arweiniad clir ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau i staff dros dro a gwirfoddolwyr sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau byrdymor ac a fydd yn gweithio gyda phlant
- yn sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas ag unrhyw drefniadau amddiffyn plant y tynnwyd ei sylw atynt, a hynny'n ddi-oed.

**Dylent** sicrhau hefyd bod y person diogelu dynodedig, y llywodraethwr dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn cael hyfforddiant ar weithio rhyngasiantaethol a ddarperir gan y Bwrdd Diogelu Plant, neu'n unol â safonau y cytunodd y Bwrdd arnynt, yn ogystal â hyfforddiant gloywi i gadw ei wybodaeth a'i sgiliau'n gyfredol, yn ychwanegol at hyfforddiant sylfaenol ar

ddiogelu.

## Y llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu

**2.9** **Dylai** ysgolion a cholegau nodi llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu er mwyn:

- bod yn gyfrifol am **bob** mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant
- sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn cynnal adolygiad blynyddol o bolisïau a gweithdrefnau diogelu sy'n cynnwys ystyried y ffordd y cafodd ei gyfrifoldebau eu cyflawni
- sicrhau bod y corff llywodraethu yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol neu'r coleg bob blwyddyn

O ran honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn y pennaeth, mae cadeirydd y llywodraethwyr yn gyfrifol am gysylltu â'r awdurdodau statudol a sicrhau bod prosesau perthnasol yn cael eu cynnal a'u cwblhau, yn unol â Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (009/2014) a Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol 002/2020).

**2.10** Er bod gan gyrff llywodraethu rôl i'w chwarae drwy arfer eu swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt honiadau amddiffyn plant yn erbyn aelod o staff, ni fydd ganddynt rôl i'w chwarae wrth ystyried achosion penodol yr ymchwilir iddynt gan ddefnyddio trefniadau a nodir yn Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

**2.11** **Dylai** pob aelod o gyrff llywodraethu gael hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu ac amddiffyn plant yn ystod y tymor cyntaf ar ôl iddynt ddechrau yn ei rôl. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau a deall eu cyfrifoldebau diogelu ehangach. Dylai aelodau o'r corff llywodraethu gwblhau'r *Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* o leiaf. Mae'r rhain yn helpu pob aelod o staff mewn lleoliadau addysg i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y'u nodir yn y canllawiau hyn. Mae pum modiwl ar wahân ar gael ar Hwb.

### Cyfrifoldebau penaethiaid/prifathrawon/arweinydd y lleoliad addysg

**2.12** **Dylai** penaethiaid a phrifathrawon pob ysgol a choleg feithrin diwylliant meithringar yn yr **ysgol** neu'r coleg a hybu dulliau cyfathrebu agored rhwng staff a disgyblion ynghylch materion yn ymwneud â diogelu.

**2.13** **Rhaid iddynt** sicrhau bod pob aelod o staff (gan gynnwys athrawon cyflenwi a gwirfoddolwyr):

- yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu neu'r perchennog ar waith yn llawn ac yn eu dilyn
- yn cael gafael ar adnoddau digonol ac yn cael digon o amser i'w defnyddio i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, gan gynnwys cymryd rhan mewn

trafodaethau strategaeth a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill, yn ogystal â chyfrannu at y broses o asesu plant

- yn deall y gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant, yn teimlo ei fod yn gallu codi pryderon am ymarfer gwael neu anniogel, a bod yn hyderus yr eir i'r afael â phryderon o'r fath mewn modd sensitif ac effeithiol yn unol â *Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol* Llywodraeth Cymru
- fel rhan o'i broses sefydlu, yn cael datganiad ysgrifenedig am bolisi a gweithdrefnau'r ysgol neu'r coleg ac enw a manylion cyswllt y person diogelu dynodedig.

**2.14** **Rhaid** i'r pennaeth/prifathro benodi'r nifer priodol o bersonau diogelu dynodedig a dirprwy bersonau diogelu dynodedig ar gyfer ei leoliad addysg a **dylai** sicrhau bod y person diogelu dynodedig:

- yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol, a dylai hyn gael ei ddiffinio'n glir yn nisgrifiad swydd deiliad y swydd
- yn gallu cael y lefelau gofynnol o hyfforddiant a chymorth i gyflawni'r rôl, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch ar-lein
- yn cael amser i fynd i gynadleddau achos a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill, a chyflwyno adroddiadau a rhoi cyngor iddynt, fel y bo angen
- yn meddu ar y cyfarpar TG priodol i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

### Rôl a chyfrifoldebau'r person diogelu dynodedig

**2.15** **Rhaid** i bob lleoliad addysg nodi person diogelu dynodedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol am reoli **pob** pryder sy'n ymwneud â diogelu. Rhaid i'r person diogelu dynodedig fod ar gael i drafod pryderon sy'n ymwneud â diogelu; dylid ymgynghori â'r person hwnnw, lle y bo'n bosibl, i drafod a ddylid codi pryder sy'n ymwneud â diogelu â'r awdurdod lleol; a bydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr unigolyn sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag cael ei gam-drin. Dylai pob ymarferydd wybod â phwy y dylid cysylltu yn ei leoliad addysg i gael cyngor a dylai fwrw ati i drafod ei bryderon hyd yn oed os bydd y pryderon hynny'n ymddangos yn gymharol ddibwys.

**2.16** Nid oes angen i'r person diogelu dynodedig fod yn athro, ond **rhaid** iddo fod yn uwch aelod o dîm arwain yr ysgol neu'r coleg, gyda'r statws a'r awdurdod digonol o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, gan gynnwys neilltuo adnoddau ar gyfer materion diogelu a chyfarwyddo aelodau eraill o'r staff. Gallai'r person diogelu dynodedig hefyd fod yn benodiad unigol yn yr uwch-dîm heb fod angen iddo gyflawni dyletswyddau eraill.

**2.17** **Dylai** fod gan bob person diogelu dynodedig o leiaf un dirprwy â statws cyfwerth a chyfleoedd i ymgymryd â'r un hyfforddiant. Bydd nifer y dirprwyon yn dibynnu ar y lleoliad addysg, a dylai adlewyrchu faint o waith sydd i'w gyflawni a maint y lleoliad addysg. Dylai fod gan leoliadau mwy dîm o staff sy'n cydweithio â'i gilydd a dylai lleoliadau addysg â gwahanol safleoedd sicrhau bod person diogelu dynodedig ar gael ar bob safle.

**2.18** Dylai'r person diogelu dynodedig feddu ar y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer y rôl, a fydd yn cynnwys ffocws cryf ar gyfathrebu â dysgwyr a gweithwyr **proffesiynol**. Gall y rôl hon fod yn un heriol a bydd angen lefel benodol o arbenigedd, gwybodaeth, adnoddau a chymorth.

**2.19** Gall y cyfrifoldeb am ddelio ag achosion unigol gael ei ddirprwyo i aelodau eraill o staff, ond mae'n bwysig bod uwch-aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y maes gwaith hwn. Dylai'r person diogelu dynodedig gael gwybod yn rheolaidd am hynt a chanlyniad pob achos. Dylid sicrhau bod pob aelod o staff sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn wedi cael hyfforddiant llawn a'i fod yn meddu ar y sgiliau priodol.

**2.20** Mewn lleoliadau addysg lle ceir nifer uchel o bryderon diogelu, dylid ystyried penodi person diogelu dynodedig llawn amser sydd â sgiliau a phrofiad perthnasol. Gallai trefniant amgen olygu bod cyfrifoldebau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo ond mai'r person diogelu dynodedig sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, fel y disgrifir uchod.

**2.21** **Dylai'r** person diogelu dynodedig gael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol i ymgymryd â'i rôl yn effeithiol. Dylai'r trefniadau goruchwylio helpu'r person diogelu dynodedig i ymdrin ag effaith emosiynol ei rôl a chynnig cyfleoedd iddo fyfyrio ar ei ymarfer. Gellid gwneud hyn ar sail unigol neu fel grŵp, ond dylid cynnig cyfle i'r person diogelu dynodedig gael cymorth unigol lle bo angen.

**2.22** **Rhaid** i'r person diogelu dynodedig wybod sut i adnabod i arwyddion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed, boed hynny ar-lein neu all-lein, a gwybod pryd mae'n briodol hysbysu'r awdurdod lleol (neu'r heddlu os yw'r plentyn/plant mewn perygl uniongyrchol).

**2.23** Mae rôl y person diogelu dynodedig yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i aelodau eraill o staff, cadw cofnodion, gweithio gydag aelodau o'r teulu a gofalwyr, atgyfeirio achosion at y gwasanaethau plant a mynd i gyfarfodydd statudol, yn ogystal â chydgysylltu â'r Bwrdd Diogelu Plant a gweithio gydag asiantaethau eraill fel y bo angen. Nid rôl y person diogelu dynodedig yw ymchwilio i honiadau, ond **rhaid** iddo roi gwybod i'r pennaeth/prifathro am bob pryder ynglŷn â diogelu a godir yn yr ysgol neu'r coleg.

**2.24** **Dylai'r** person diogelu dynodedig hefyd ystyried sut y gellir ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelu yn ehangach a sicrhau y caiff mesurau ataliol eu mabwysiadu yn y lleoliad addysg. Bydd y rhan hon o'r rôl yn cynnwys meithrin cydberthnasau ag asiantaethau eraill, yn ogystal â sicrhau bod staff a dysgwyr yn ymwybodol o risgiau a sut i gael gafael ar gymorth. Bydd hyn yn rhan o ddull gweithredu'r ysgol gyfan (lleoliad cyfan) a'r trefniadau dysgu drwy'r cwricwlwm cyfan.

**2.25** Bydd y person diogelu dynodedig yn gyfrifol am arfer, polisi, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol y lleoliad addysg mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant, gan weithio gydag asiantaethau eraill fel y bo angen. **Dylai'r** person diogelu dynodedig sicrhau bod polisi diogelu'r lleoliad addysg yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu bob blwyddyn, a chydweithio â'r corff llywodraethu neu'r

perchennog mewn perthynas â hyn.

**2.26** Y person diogelu dynodedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gweld copïau o'r polisi diogelu plant. Gall hyn helpu i osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro yn nes ymlaen drwy dynnu eu sylw at rôl y lleoliad addysg a'r ffaith y gellir hysbysu'r awdurdod lleol o bryderon ynglŷn â diogelu. Bydd llawer o leoliadau addysg yn cynnwys gwybodaeth am hyn mewn cyfarfodydd sefydlu i rieni/gofalwyr newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.

**2.27** Yn ogystal â pholisi diogelu'r lleoliad addysg, mae polisïau eraill yn berthnasol i ddiogelu ac mae'n bosibl y bydd y person diogelu dynodedig yn rhan o'r broses o fonitro effeithiolrwydd y polisïau eraill hyn er mwyn sicrhau cysondeb a chydlyniad o ran y ffordd y mae'r ysgol yn diogelu ei phlant yn effeithiol. Mae'r enghreifftiau o bolisïau perthnasol eraill yn cynnwys y canlynol.

| | | |
|---|---|---|
| Presenoldeb | Gofal personol | Recriwtio a dethol |
| Gwrth-fwlio | Ymyriad corfforol | Cyfrinachedd |
| Diogelwch ar-lein | Atal radicaleiddio | Cytundebau Partneriaethau AGA |
| Ymddygiad | Cod ymddygiad staff Cyngor y Gweithlu Addysg | |

**2.28** **Dylai'r** person diogelu dynodedig sicrhau bod y lleoliad addysg yn cwblhau'r Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu, yn Atodiad 3, i gefnogi dull diogelu ar gyfer y lleoliad addysg cyfan yn ogystal â chynnig meincnod ar gyfer gwella dulliau a strwythurau diogelu yn barhaus. Dylai'r adnodd archwilio gael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod myfyrio, dysgu a diweddaru prosesau yn digwydd yn gyson yn y lleoliad addysg.

**2.29** Dylid mabwysiadu'r egwyddorion a amlinellir ym mharagraffau 2.15–2.29 fel **arfer effeithiol** ym mhob lleoliad addysg.

**Cyfrifoldebau partneriaethau AGA**

**2.30** Ar ôl cael eu derbyn i raglenni AGA achrededig, **rhaid** i Bartneriaethau AGA wneud y canlynol:

- bodloni eu hunain fod darpar athrawon dan hyfforddiant wedi'u dilysu er mwyn sicrhau nad oes ganddynt gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bobl ifanc sy'n agored i niwed, neu fel ymarferydd addysg
- sicrhau nad yw athrawon dan hyfforddiant wedi cael eu gwahardd na'u heithrio rhag addysgu neu weithio gyda dysgwyr yn y gorffennol.

**2.31** **Rhaid** i raglenni AGA wneud y canlynol:

- darparu eglurder i athrawon dan hyfforddiant ynghylch diogelu a chwythu'r chwiban

- cynnwys astudiaethau craidd o fewn rhaglenni AGA sy'n cynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol athrawon a diogelu.

**2.32** **Dylai** partneriaethau AGA wneud y canlynol:

- sicrhau bod llesiant eu darpar athrawon yn cael ei gefnogi drwy ddatblygu dulliau diogelu effeithiol
- sicrhau bod eu hathrawon dan hyfforddiant yn gyfarwydd â Deddf Cydraddoldeb 2010 yn enwedig yr agweddau arni fel cyflwyno'r cwricwlwm.

## Hyfforddiant diogelu

**2.33** Rhaid i'r person diogelu dynodedig ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu er mwyn bodloni gofynion y rôl. Bydd angen lefel uwch o hyfforddiant arno nag aelodau eraill o staff mewn lleoliadau addysg, a bydd yr hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant mwy arbenigol ar wahanol fathau o gam-drin yn ogystal â'r sgiliau sydd eu hangen i ymateb er mwyn sicrhau ei fod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o faterion cyfredol a sgiliau cadarn.

**2.34** Rôl y person diogelu dynodedig yw sicrhau, drwy gydweithio â'r pennaeth/prifathro, bod yr holl staff a gwirfoddolwyr:

- yn gallu gweld ac yn deall polisi diogelu'r lleoliad addysg, yn enwedig staff newydd neu staff rhan amser sydd o bosibl yn gweithio gyda gwahanol leoliadau addysg
- yn ymgymryd â sesiwn sefydlu a hyfforddiant gloywi sy'n ymdrin â diogelu
- yn deall achosion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed
- yn deall y gwahanol fathau o gam-drin
- yn gallu adnabod arwyddion a dangosyddion camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed
- yn gwybod sut i ymateb yn effeithiol os bydd ganddynt bryderon
- yn gwybod sut i ymateb yn briodol i ddatgeliad
- yn gwybod sut i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys sgiliau fel empathi
- yn gwybod eu bod yn gyfrifol am roi gwybod am unrhyw bryderon ar unwaith pan fyddant yn codi.

**2.35** **Rhaid** i'r person diogelu dynodedig gadw cofnod o'r holl hyfforddiant staff, gan gynnwys y dyddiadau, manylion y darparwr a chofnod o bresenoldeb staff.

**2.36** **Dylai** pob aelod o staff ymgymryd â hyfforddiant gloywi yn ddelfrydol o fewn dwy flynedd, ond ni ddylid gadael cyfnod o fwy na thair blynedd rhwng hyfforddiant. Oherwydd natur newidiol diogelwch ar-lein, argymhellir y dylid adnewyddu'r hyfforddiant yn rheolaidd.

**2.37** Mae'r *Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* yn helpu pob aelod o staff mewn lleoliadau addysg i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y'u nodir yn y canllawiau

hyn. Mae pum modiwl ar wahân ar gael ar Hwb[14], ac mae dau ohonynt yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein. Gall y person diogelu dynodedig neu bennaeth/prifathro neilltuo'r modiwlau i aelodau eraill o staff i'w helpu i fonitro cynnydd y staff. Mae'r ddogfen ganllawiau *Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* yn rhoi cyngor i bersonau diogelu dynodedig a phenaethiaid/prifathrawon ar sut i ddefnyddio a neilltuo'r modiwlau hyn.

**2.38** **Dylai** pob llywodraethwr, gan gynnwys cadeirydd y llywodraethwyr, allu cael hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant er mwyn sicrhau lefel sylfaenol a chyson o ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys y *Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*, ond nid yw wedi'i gyfyngu iddynt. Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad addysg yn bodloni gofynion statudol a dylai pob llywodraethwr wybod beth i'w wneud os bydd ganddo bryderon ynglŷn â phlentyn.

**2.39** Mae'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i raglenni AGA ei wneud o ran diogelu plant mewn addysg. **Dylai** athrawon gael hyfforddiant ar ddiogelu fel rhan o'r rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon sy'n arwain at ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC), ond gall fod angen hyfforddiant pellach, neu hyfforddiant gloywi, i atgyfnerthu hyn pan gânt eu penodi gyntaf. Mae Safonau SAC yn gyfres o ddatganiadau deilliannau y mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant eu bodloni sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau a gofynion statudol eraill fel sy'n briodol.

**2.40** Mae'n ofynnol bod hyfforddeion yr hyfforddiant gloywi hefyd yn dangos proffesiynoldeb i sicrhau bod cydberthnasau â dysgwyr yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch rhwng y naill ochr a'r llall, ac i gydnabod y bydd hyn yn helpu i wneud y gorau o'u potensial i ddysgu. Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant ddangos tystiolaeth o'r safon hon drwy allu dangos gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau a hawliadau pob dysgwr, fel y'u nodir yn CCUHP a pholisïau allweddol gan Lywodraeth Cymru.

### Hyfforddiant amlasiantaethol

**2.41** Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn gymwys ac yn hyderus wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu a hybu llesiant plant. Bydd y Bwrdd Diogelu Plant yn gallu cynnig cyngor ar y lefelau hyfforddiant sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol.

**2.42** Pwrpas hyfforddiant amlasiantaethol yw sicrhau gwell canlyniadau i blant gan gynnwys:

- dealltwriaeth a rennir o'r tasgau, prosesau, egwyddorion a rolau a chyfrifoldebau a amlinellir mewn canllawiau cenedlaethol a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hybu eu llesiant

[14] Caiff y modiwlau hyn eu diweddaru ar ôl i'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel diwygiedig gael eu cyhoeddi.

- gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar y lefel strategol ac ar lefel achosion unigol
- gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol gan gynnwys dealltwriaeth gyffredin o dermau allweddol, diffiniadau a throthwyon ar gyfer gweithredu
- cydberthnasau gwaith effeithiol, gan gynnwys y gallu i weithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaethol
- prosesau gwneud penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesu trylwyr, dadansoddi beirniadol a barn broffesiynol.

**2.43** **Dylai**'r person diogelu dynodedig gael hyfforddiant prydlon ar weithdrefnau rhyngasiantaethol, gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan a fydd yn ei alluogi i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac yn rhoi iddo'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ei gyfrifoldebau. Dylai hefyd gael hyfforddiant gloywi i gadw ei wybodaeth a'i sgiliau'n gyfredol.

# 3. Ymateb i bryderon bod plentyn yn wynebu risg

**3.1** Dylai pawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg ddiogelu llesiant plant a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd fel rhan o'u dyletswyddau proffesiynol. Mae pob aelod o staff yn rhan annatod o lwyddiant y system gymorth sydd ar gael i'n plant a'n teuluoedd mwyaf agored i niwed. Bydd hyn yn arwain at well cyfleoedd mewn bywyd, gwell ansawdd bywyd a dyfodol disglair i blant a phobl ifanc.

**3.2** Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddarparu amgylchedd diogel ac i nodi plant sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio, neu sy'n wynebu risg o hynny, ni waeth ble mae'n digwydd (boed ar-lein neu all-lein, ar safle'r lleoliad addysg neu'r tu allan iddo). Mae cyfrifoldeb wedyn ar bob aelod o staff i gymryd camau priodol, gan weithio gyda gwasanaethau eraill fel y bo angen. Yn ogystal â gweithio gyda'r person diogelu dynodedig, dylai aelodau o staff fod yn ymwybodol y gellir gofyn iddynt helpu gweithwyr cymdeithasol i wneud penderfyniadau ynghylch plant unigol.

**3.3** Mae nodi ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol er mwyn diwallu anghenion plant drwy atal neu oedi amgylchiadau a allai arwain at ymyriad gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys nodi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chamau gweithredu i'w hatal neu eu lliniaru, neu helpu'r plentyn i feithrin gwydnwch. Mae meithrin gwydnwch mewn plant a phobl ifanc yn greiddiol i ddull gweithredu'r ysgol gyfan (lleoliad cyfan) mewn perthynas â llesiant emosiynol a meddyliol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r problemau y mae plant a phobl ifanc yn dod ar eu traws yn deillio o salwch meddwl, ac nid ydynt yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Gall ymdrin â phroblemau llesiant lefel isel yn gynnar atal problemau rhag gwaethygu. Felly, mae atal, nodi ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol, ac mae sicrhau bod athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol yn meddu ar y wybodaeth angenrheidiol i nodi problemau, ynghyd â chymorth ar ffurf ymgynghori, trefniadau cyswllt a chyngor gan wasanaethau mwy arbenigol, yn allweddol i ddull gweithredu ysgol gyfan (lleoliad cyfan).

**3.4** Mae gan bawb yn y system addysg sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd ran i'w chwarae o ran diogelu plant, gan eu bod mewn sefyllfa i nodi pryderon yn gynnar a rhoi cymorth i blant er mwyn atal problemau rhag gwaethygu. Mae staff yn rhan o'r system diogelu ehangach i blant[15]. Dylai lleoliadau addysg weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i hybu llesiant plant a'u diogelu rhag niwed.

**3.5** Dylai lleoliadau addysg ystyried sut y gallent feithrin cydberthnasau â gwasanaethau eraill er mwyn sicrhau y caiff atgyfeiriadau cynnar eu gwneud ac y caiff plant a theuluoedd gynnig cymorth ar gam cynnar cyn i'w hanghenion waethygu. **Dylid** datblygu llwybrau atgyfeirio ac ymateb clir a chytuno arnynt ar sail amlasiantaethol ag asiantaethau lleol. Gallai cymorth gynnwys sicrhau bod gwybodaeth ar gael i blant a theuluoedd er mwyn iddynt allu cysylltu'n

[15] Crynodeb o ganllawiau statudol a gyhoeddwyd yn unol â Rhan 7 o Ddeddf 2014 yw Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (gweler llyw.cymru/canllawiau-diogelu).

uniongyrchol â gwasanaethau eraill; o dan rai amgylchiadau, bydd yn fuddiol cynnal sgyrsiau â nhw yn y lleoliad addysg ac i'r lleoliad addysg gysylltu ar eu rhan. Dylai pob asiantaeth ymarfer dull gweithredu 'dim drws anghywir' er mwyn sicrhau y gall plant a theuluoedd y mae angen help arnynt gael gafael arno'n hawdd. Dylai'r person diogelu dynodedig roi cymorth i aelodau o staff er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau diogelu, a chydgysylltu'n agos â gwasanaethau eraill fel gofal cymdeithasol i blant a gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

**3.6** Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (fel y nodir yn adran 1) yn cynnwys safonau cyffredin i arwain ymarfer ym maes diogelu ac amddiffyn plant a fframwaith ar gyfer hysbysu am blant unigol sy'n wynebu risg, cymryd camau gweithredu, gwneud penderfyniadau a llunio cynlluniau. Maent yn rhan annatod o'r fframwaith ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant. Dylai'r person diogelu dynodedig sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y lleoliad addysg yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru ac yn gwybod sut i gael gafael ar gopi o'r gweithdrefnau.

**3.7** Mae gan wasanaethau cwnsela'r awdurdod lleol hefyd rôl i'w chyflawni o ran diogelu plant. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gynnig darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela i bob plentyn rhwng 11 a 18 oed yn eu hardal a disgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd. Mae cwnselwyr mewn sefyllfa i benderfynu a oes pryderon amddiffyn plant y mae angen eu huwchgyfeirio. Mae gwasanaethau cwnsela yn bartneriaid allweddol yn null gweithredu'r ysgol gyfan (lleoliad cyfan). Maent yn gweld tua 11,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, y mae llawer ohonynt yn cwblhau eu sesiynau cwnsela heb fod angen eu hatgyfeirio at wasanaethau mwy arbenigol. Pan fydd angen atgyfeirio achos, gall gwasanaethau cwnsela hwyluso'r atgyfeiriad mewn modd amserol.

## Gwybodaeth ofynnol i staff mewn lleoliadau addysg

**3.8** **Dylai** pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth nodi plant sy'n wynebu risg a chyfrannu at ddiwylliant diogelu'r lleoliad addysg y maent yn gweithio ynddo. **Rhaid** rhannu ac esbonio pob polisi a gweithdrefn fel rhan o'r broses o sefydlu staff. Mae hyn yn cynnwys y polisi diogelu a'r polisi ymddygiad staff. Yn ystod y broses sefydlu, **rhaid** i staff hefyd gael gwybod am rôl y person diogelu dynodedig a sut i godi pryderon â'r person diogelu dynodedig. **Rhaid** i bob aelod o staff hefyd gael hyfforddiant diogelu priodol a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd. **Rhaid** i leoliadau addysg sicrhau bod gan staff a dysgwyr wybodaeth glir am eu person diogelu dynodedig a sut y gellir cysylltu â'r person hwnnw. Gellid gwneud hyn drwy bosteri a gaiff eu gosod mewn mannau amlwg drwy'r lleoliad addysg.

## Arwyddion y dylai staff lleoliad addysg fod yn wyliadwrus ohonynt

**3.9** **Dylai** pob aelod o staff fod yn ymwybodol o arwyddion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed. Gall arwyddion fod yn gorfforol ond yn aml, maent yn fwy cynnil fel newid mewn ymddygiad neu pan fydd unigolyn yn mynd i'w gragen. Gall arwyddion bach fod yn rhan o batrwm felly mae'n bwysig na fydd staff yn

diystyru unrhyw beth fel rhywbeth nad yw'n berthnasol neu'n ddigon mawr. Os bydd pob aelod o staff yn sôn wrth y person diogelu dynodedig am newidiadau neu arsylwadau, gall greu darlun o'r hyn na fyddai o bosibl yn cael unrhyw sylw fel arall.

**3.10** Dylai staff fod yn ymwybodol y gall cam-drin, esgeulustod neu niwed effeithio ar unrhyw un ac mae bod yn ymwybodol o'r arwyddion yn hanfodol er mwyn gallu nodi achosion yn gynnar. Dylai staff **bob amser** siarad â'r person diogelu dynodedig yn y lle cyntaf i drafod eu pryderon, ond mae'n bwysig cofio y gall unrhyw un gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol i godi pryder unrhyw bryd. Lle y nodir pryder ynglŷn â llesiant plentyn, dylai aelodau o staff bob amser weithredu er budd pennaf y plentyn.

## Ymateb priodol gan staff lleoliad addysg sydd â phryderon ynglŷn â diogelu

**3.11** Ni ddylid byth gofyn i blentyn, rhiant/gofalwr, perthynas nac aelod o'r cyhoedd sy'n mynegi pryderon ynglŷn â llesiant plentyn i unrhyw un sy'n gweithio yn y lleoliad addysg roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu yn uniongyrchol, heb gymryd unrhyw gamau eraill. Dylid rhannu'r pryderon hyn â'r person diogelu dynodedig. Os yw'r unigolyn yn dymuno hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ei hun, ni ddylai hyn newid gweithredoedd y person diogelu dynodedig; rhaid i'r person diogelu dynodedig hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu o hyd os credir bod y plentyn yn wynebu risg.

## Ceisio cyngor ar bryderon

**3.12** Gall amheuon bod plentyn yn wynebu risg fod ar ffurf pryderon yn hytrach na ffeithiau hysbys. Gall pryderon ynghylch plentyn godi mewn llawer o gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys pan fydd y gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn ymwybodol o blentyn. Mae'n bwysig bod y pryderon hyn yn cael eu cofnodi a'u monitro'n briodol gan yr aelod o staff a/neu'r person diogelu dynodedig. Mae hyn yn sicrhau bod darlun cydlynol yn bodoli o'r tebygolrwydd o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed ac yn rhoi cymorth ar gyfer hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol a chymryd unrhyw gamau dilynol.

**3.13** **Rhaid** bod gan bob lleoliad addysg system addas ar waith er mwyn helpu i fynd ati'n effeithiol i gasglu data ar blant yr amheuir eu bod yn wynebu risg. Ceir nifer o becynnau meddalwedd er mwyn helpu ysgolion i gasglu data'n fewnol ar bryderon ynghylch diogelu mewn perthynas â phlant. Gall y pecynnau hyn helpu staff i gofnodi pryderon a helpu'r person diogelu dynodedig i nodi patrymau o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

**3.14** Lle bo gan aelod o staff bryderon ond yr hoffai gael rhagor o gyngor ar y pryderon hyn, **dylai** gael trafodaeth â'r person diogelu dynodedig.

**3.15** **Rhaid** rhannu pryderon â'r gwasanaethau cymdeithasol drwy eu hysbysu, gyda chymorth gan y person diogelu dynodedig. Gall y person diogelu dynodedig roi cyngor ar y broses a'i rheoli. Bydd p'un ai'r person diogelu dynodedig neu'r

aelod o staff sy'n hysbysu yn dibynnu ar y trefniadau sydd ar waith yn y lleoliad addysg unigol. Er na fydd pryderon o reidrwydd yn arwain at ymchwiliad, byddant yn helpu i lunio darlun a gellir eu hystyried ochr yn ochr â phryderon o ffynonellau eraill. Mewn achosion lle na all y gwasanaethau cymdeithasol plant ymchwilio i'r achos neu le nad ydynt yn ystyried y byddai'n briodol cynnal ymchwiliad dan yr amgylchiadau, dylent, serch hynny, ystyried rhoi cymorth arall i'r plentyn a/neu deulu'r plentyn, megis atgyfeirio at wasanaethau ymyrryd yn gynnar.

**3.16** Mae cadw cofnodion cywir, cryno a chlir mewn iaith syml yn rhan hanfodol o atebolrwydd cyflogai neu weithiwr proffesiynol unigol, ac yn sail i arfer da ar gyfer amddiffyn plant. Rhaid bod gan bob asiantaeth sy’n ymwneud â diogelu a hybu llesiant plant bolisïau a gweithdrefnau sy’n pennu trefniadau ar gyfer cadw, storio a dinistrio cofnodion achos electronig a phapur. Dylai'r polisïau sicrhau bod cofnodion achos yn cael eu storio’n ddiogel a bod modd eu hadalw yn ôl yr angen.

## Ymchwiliadau

**3.17** **Rhaid** i leoliadau addysg **beidio â** chynnal eu hymholiadau amddiffyn plant mewnol eu hunain, ond rhaid iddynt hysbysu'r awdurdod lleol neu'r heddlu am eu pryderon. Os yw’r pryder yn ymwneud ag aelod o staff, ni chaiff asiantaethau wneud eu penderfyniadau mewnol eu hunain o ran p'un ai mater disgyblu neu fater amddiffyn plant ydyw. **Dylai** asiantaethau fod yn ymwybodol bod gan yr heddlu bwerau a chyfrifoldeb statudol i benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad troseddol.

## Gwrando ar y plentyn

**3.18** Bydd plant yn siarad am eu pryderon a'u problemau â phobl y maent yn teimlo y gallant ymddiried ynddynt a'u bod yn gyfforddus yn siarad â nhw. Nid athro/athrawes neu'r person diogelu dynodedig fydd yr unigolyn hwn o reidrwydd; gallai fod yn unrhyw aelod o staff y lleoliad addysg. Felly mae’n bwysig bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn gwybod sut i ymateb yn sensitif i bryderon plant, at bwy i droi am gyngor, a pha mor bwysig yw peidio â gwarantu cyfrinachedd llwyr.

**3.19** **Dylai** pawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg sicrhau bod egwyddor y cynnig rhagweithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn cael ei hymgorffori mewn ymarfer. Dylid gofyn i'r plentyn pa iaith fyddai orau ganddo ar ddechrau'r broses. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn gallu mynegi ei bryderon yn effeithiol ac yn gallu cael gwasanaethau yn ei iaith ei hun drwy gydol y broses.

**3.20** Dylid ystyried anghenion ieithyddol a diwylliannol eraill oherwydd gall trafod pynciau sensitif mewn ail iaith wneud y profiad yn fwy trawmatig. Bydd meddu ar ddealltwriaeth o wahaniaethau diwylliannol hefyd yn helpu'r sefyllfa. Gall pob awdurdod lleol roi cyngor i leoliadau addysg ar gymorth iaith i blant nad Cymraeg na Saesneg yw iaith eu cartref.

**3.21** Gallai'r ffordd y bydd aelod o staff yn siarad â phlentyn sy’n datgelu camdriniaeth effeithio ar y dystiolaeth a gyflwynir. Os bydd plentyn yn gwneud datgeliad i aelod o staff, **rhaid** i'r aelod o staff ysgrifennu cofnod o'r sgwrs cyn gynted â phosibl, yn gwahaniaethu’n glir rhwng ffeithiau, arsylwadau, honiadau a barn, gan nodi unrhyw gamau a gymerwyd mewn achosion o gam-drin neu esgeulustod posibl a llofnodi a rhoi dyddiad ar y nodyn.

**3.22** Mae plant am wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac yn cymryd eu pryderon o ddifrif. **Rhaid** i bob lleoliad addysg roi tawelwch meddwl i blant a rhoi gwybod iddynt fod amgylchedd diogel ar gael iddynt drafod materion sy'n effeithio arnynt. Gall hyn fod yn y lleoliad addysg neu gydag asiantaeth briodol arall. Gall arddangos gwybodaeth am linellau cymorth cenedlaethol i blant (e.e. Comisiynydd Plant Cymru, ChildLine, Meic, NSPCC) a chynlluniau cefnogaeth gan gymheiriad, mewn mannau gweladwy a hygyrch, megis blwyddiaduron disgyblion, eu hannog i rannu pryderon a chael cymorth. Mae'r posteri hyn yn helpu plant i godi eu llais pan fydd ganddynt bryder: Cyngor i blant ysgol gynradd a chyngor i blant ysgol uwchradd. Fel **arfer effeithiol**, dylai pob lleoliad addysg arddangos y posteri hyn ar y safle mewn man lle y gall y plant eu gweld yn glir.

**3.23** Mae'r NSPCC wedi llunio adnodd diogelu, *Gadewch i blant wybod eich bod yn gwrando: pwysigrwydd sgiliau rhyngbersonol oedolion o ran helpu i wella profiadau datgelu gwybodaeth plant*, sy’n rhoi cymorth i bobl sy'n gweithio gyda phlant ynghylch:

- dangos eich bod yn gwrando ar blentyn sy’n datgelu gwybodaeth
- rhoi sicrwydd i blentyn a dangos empathi;
- rhoi pobl ifanc mewn sefyllfa lle maent yn rheoli’r sgwrs.

**3.24** **Dylai** pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg ddeall y gall plant ag anghenion dysgu ychwanegol wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso a'u niweidio, o gymharu â'u cyfoedion. **Dylent** ddeall y rhwystrau y gallant eu hwynebu (yn enwedig mewn perthynas â chyfathrebu), a gallu darparu unrhyw fesurau diogelu ychwanegol sydd eu hangen i'w hamddiffyn.

**3.25** **Dylai** pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg ymgyfarwyddo â diwylliant a chredoau teuluoedd yn eu cymuned. Ni ddylid byth diystyru arferion a allai fod yn niweidiol ar sail sensitifrwydd diwylliannol a dylai staff ymgyfarwyddo ag arferion fel anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodasau dan orfod.

**3.26** **Dylai** pawb sy'n gweithio ym maes gwasanaethau addysg fod yn ymwybodol o amgylchiadau ehangach y plentyn. Bydd gan blant sydd wedi'u lleoli neu eu mabwysiadu gydberthnasau a all gynnwys gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, rhieni biolegol, brodyr a chwiorydd neu berthnasau biolegol eraill. Gall y cydberthnasau hyn fod yn gadarnhaol ac i'w croesawu, neu'n annymunol ac yn gallu peri risg. Gall profiadau blaenorol plant o gam-drin ac esgeulustod hefyd olygu eu bod yn fwy tebygol o wynebu anawsterau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl, a all barhau i beri risg iddynt. Dylai staff fod yn ymwybodol o effeithiau trawma yn ystod plentyndod a'r risgiau cysylltiedig.

### Cynnwys rhieni neu ofalwyr

**3.27** Mae angen i bob rhiant a gofalwr ddeall bod gan leoliadau addysg ddyletswydd i ddiogelu a hybu llesiant plant. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau addysg rannu gwybodaeth lle bo angen ac i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill lle ceir pryderon ynghylch llesiant plentyn. Ystyrir ei bod yn **arfer effeithiol** cyfeirio at hyn ym mhrosbectws y lleoliad addysg, ar ei wefan ac mewn gwybodaeth arall a roddir i rieni a gofalwyr, yn ogystal ag i blant.

**3.28** **Dylai** pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg drafod unrhyw bryderon ynglŷn â llesiant plentyn gyda'r teulu a, lle bo modd, geisio eu cydsyniad ynghylch hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, dim ond os na berir rhagor o risg i'r plentyn y dylid gwneud hyn. Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, dylid hefyd ystyried barn y plentyn wrth benderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r teulu. Dylai staff hefyd ystyried a yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i lunio barn ddeallus ar y materion dan sylw.

**3.29** Os bydd unrhyw amheuaeth neu ansicrwydd ynghylch cynnwys teulu'r plentyn, dylai'r person diogelu dynodedig gael eglurhad gan yr asiantaethau statudol ynghylch a ddylid dweud wrth y rhieni neu'r gofalwyr am yr hysbysu ac, os felly, pwy ddylai wneud hynny a phryd. Gall hyn fod yn bwysig hefyd mewn achosion lle y gall fod angen i'r heddlu gynnal ymchwiliad troseddol.

**3.30** Lle y bo'n briodol, dylai'r person diogelu dynodedig helpu rhieni/gofalwyr i ddeall mai er budd y plentyn y rhoddir gwybod i'r awdurdodau am yr achos, ac esbonio beth yw'r canlyniadau posibl.

### Hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg

**3.31** Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswydd i hysbysu[16] ar awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol os oes sail resymol dros amau bod plentyn yn wynebu risg. **Rhaid** i bartneriaid hysbysu'r awdurdod lleol os oes sail resymol dros gredu bod plentyn yn wynebu risg. Mae adran 130(4) o Ddeddf 2014 yn diffinio plentyn sy'n wynebu risg fel plentyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; ac
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod [lleol] yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

**3.32** Gosodir y ddyletswydd ar bartneriaid perthnasol lle y gall plentyn wynebu risg. Mae'n ofynnol i bartneriaid ym meysydd addysg, iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a thimau troseddwyr ifanc hysbysu'r awdurdod lleol os ydynt yn credu bod plentyn yn wynebu risg.

---

[16] Adran 130, o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/130/enacted/welsh)

**3.33** **Rhaid** i unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliad addysg ac a gyflogir gan awdurdod lleol, bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd lleol, yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf hysbysu'r awdurdod lleol os oes sail resymol dros gredu bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Gwneir hyn fel arfer drwy'r person diogelu dynodedig ond rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y plentyn, felly weithiau mae'n bosibl y bydd angen i staff gysylltu'n uniongyrchol pan fydd pryder uniongyrchol.

**3.34** Dylai pob aelod arall o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg, nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol, neu unrhyw rai o'r sefydliadau eraill a nodir uchod, ystyried Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n nodi y dylid ystyried bod y ddyletswydd i hysbysu yn **arfer effeithiol**.

**3.35** Pan fydd yr awdurdod lleol wedi cael gwybod am blentyn yn unol ag adran 130 o Ddeddf 2014, **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried a oes rheswm dros gynnal ymchwiliad yn unol ag adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

**3.36** **Dylai'r** person diogelu dynodedig fod yn bwynt cyswllt a chynnig cymorth, cyngor ac arbenigedd i ysgolion a cholegau wrth benderfynu a ddylid hysbysu'r awdurdod lleol. **Dylai'r** person diogelu dynodedig hefyd arwain y gwaith o gydgysylltu ag asiantaethau perthnasol, oni bai bod pryderon uniongyrchol ac y dylai staff gysylltu'n uniongyrchol.

**3.37** Lle bo gan berson diogelu dynodedig sail resymol dros amau bod plentyn sy'n mynychu'r lleoliad addysg yn wynebu risg, **rhaid** hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted â phosibl. Mae *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg* yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am hysbysu'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, os oes pryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch plentyn neu bryderon y gallai trosedd yn erbyn plentyn fod wedi cael ei chyflawni, **rhaid** i'r person diogelu dynodedig gysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed er mwyn amddiffyn y plentyn/plant rhag y risg o niwed difrifol.

**3.38** Lle bo'r pryderon yn ymwneud ag amheuon o gam-drin neu honiadau o gam-drin yn erbyn staff, mae canllawiau ar gael yn Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill; a'r broses a nodir yn y *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu*, cylchlythyr 002/2020.

**Camau penodol i'w cymryd os bydd gan leoliad addysg bryderon am blentyn**

**3.39** Os bydd gan aelodau o staff bryderon bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, **rhaid** iddynt eu codi gyda'r person diogelu dynodedig. **Rhaid** i'r person diogelu dynodedig wedyn benderfynu a yw'n briodol hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu. Mae'n bwysig nodi y gall unrhyw aelod o staff hefyd roi gwybod am bryderon yn uniongyrchol i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol neu'r heddlu; fodd bynnag, byddai'n ddoeth cydgysylltu â'r person diogelu dynodedig ym mhob achos lle y bo modd.

**3.40** **Dylai** pryderon bob amser arwain at gymorth a chefnogaeth, naill ai drwy hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol, neu gefnogaeth uniongyrchol drwy'r lleoliad addysg neu wasanaeth arall fel gwasanaethau cymorth i deuluoedd. **Dylai'r** person diogelu dynodedig rannu'r wybodaeth ganlynol â'r aelod o staff sy'n hysbysu, a'r pennaeth neu'r prifathro:

- camau cychwynnol arfaethedig, gan gynnwys cyfeirio, neu'r ffaith na chaiff unrhyw gamau pellach eu cymryd
- pwy fydd yn cymryd y camau.

**3.41** Os oes pryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch plentyn neu os amheuir trosedd yn erbyn plentyn, **rhaid** cysylltu â'r gwasanaethau brys yn ddi-oed er mwyn amddiffyn y plentyn/plant rhag y risg o niwed difrifol.

**3.42** **Rhaid** i aelodau o staff hefyd fod yn ymwybodol o bryderon diogelu ehangach a hysbysu'r person diogelu dynodedig amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys amgylchiadau fel yr amlinellir yn adrannau 5, 6, 7 ac 8 o'r canllawiau hyn.

### Hysbysu

**3.43** Fel yr amlinellir uchod, **rhaid** hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol bod plentyn o bosibl yn wynebu risg ar-lein neu all-lein cyn gynted ag y caiff pryder ei nodi; rhaid i hyn fod o fewn 24 awr. Y tu allan i oriau swyddfa, **rhaid** hysbysu gwasanaeth dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu.

**3.44** Lle bo'r hysbysu'n digwydd yn bersonol neu dros y ffôn, **rhaid** ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 24 awr.

**3.45** **Dylid** defnyddio ffurflen safonol sydd ar waith ar gyfer yr awdurdod lleol neu'r rhanbarth perthnasol i hysbysu, os oes ffurflen o'r fath ar gael. **Rhaid** i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth sylfaenol/gwybodaeth graidd, yr achos dros y pryder ac unrhyw wybodaeth berthnasol a ddelir gan yr asiantaeth.

**3.46** Dylai unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliad addysg fod yn ymwybodol na all aros yn ddienw os bydd yn hysbysu.

### Cymryd rhan yn y broses amddiffyn plant

**3.47** Os bydd unrhyw aelod o staff yn hysbysu am blentyn, gellir gofyn iddo gyflawni rhai o'r tasgau canlynol neu bob un ohonynt. **Dylai'r** lleoliad addysg sicrhau bod gan staff ddigon o amser ac adnoddau angenrheidiol eraill i gyflawni'r tasgau hyn yn effeithiol a dylai staff fod yn barod ac yn fodlon eu gwneud:

- helpu mewn ymholiadau amddiffyn plant yn unol ag adran 47 o Ddeddf Plant 1989
- mynd i'r gynhadledd amddiffyn plant
- cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y gynhadledd amddiffyn plant
- cyfrannu at yr asesiadau cychwynnol a'r asesiadau craidd
- mynychu cyfarfodydd grŵp craidd

Mae rhagor o wybodaeth am y broses amddiffyn plant a disgwyliadau cysylltiedig y staff wedi'u cynnwys yn Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**3.48** Os bydd plentyn yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth, dylid cynnwys y person diogelu dynodedig yn y broses o baratoi'r cynllun. Rhaid nodi'n glir beth yw rôl a chyfrifoldebau'r lleoliad addysg wrth gyfrannu at gamau gweithredu i ddiogelu'r plentyn a hybu ei lesiant.

**Rhannu gwybodaeth**

**3.49** Dylai'r person diogelu dynodedig arfer synnwyr cyffredin wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu, a dylai ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad. Yr ystyriaeth bwysicaf yw p'un a yw rhannu gwybodaeth yn debygol o helpu i ddiogelu ac amddiffyn plentyn. Ceir nifer o egwyddorion a all helpu ymarferwyr i wneud penderfyniadau ynglŷn â rhannu gwybodaeth. Nodir yr egwyddorion hyn yn *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl* a'r adnoddau cysylltiedig, sy'n rhoi cyngor anstatudol ar rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant. Mae'r adnodd a'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor cam wrth gam i ymarferwyr mewn gwahanol asiantaethau er mwyn i wybodaeth gael ei rhannu'n gymesur i gefnogi arfer da o ran diogelu. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi cyngor ar fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a dyletswyddau yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

**3.50** Er mwyn diogelu a hybu llesiant plant, dylai'r Bwrdd Diogelu Plant sicrhau bod ei asiantaethau partner wedi gwneud trefniadau i sicrhau:

- bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth os yw'n credu y gall fod angen gwasanaethau ychwanegol ar blentyn neu deulu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl iddynt
- bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a phryd i rannu gwybodaeth os yw'n credu bod plentyn yn cael ei gam-drin, yn cael ei esgeuluso neu'n dioddef mathau eraill o niwed o bosibl, neu ei fod yn wynebu risg o hynny
- bod canllawiau priodol ar gyfer sefydliadau penodol yn cael eu llunio i ategu canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a bod canllawiau o'r fath a hyfforddiant priodol ar gael i'r staff presennol ac i staff newydd fel rhan o'u proses sefydlu
- bod canllawiau a hyfforddiant yn ymdrin yn benodol â rhannu gwybodaeth rhwng proffesiynau, sefydliadau ac asiantaethau, yn ogystal ag ynddynt
- bod trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn ystyried gwerth hyfforddiant amlasiantaethol yn ogystal â hyfforddiant i asiantaethau unigol
- bod rheolwyr yn y gwasanaethau plant yn gyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol a'r canllawiau arfer da a roddir i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant.

**Dyletswydd i gadw cyfrinachedd**

**3.51** Nid yw'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd yn absoliwt a gellir ei thorri os yw hynny er budd pennaf y plentyn ac er budd y cyhoedd yn gyffredinol. Os bydd

gweithwyr proffesiynol yn penderfynu bod angen datgelu gwybodaeth er mwyn amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag risg o gael niwed difrifol, gellir torri'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd.

**3.52** Lle y bydd pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg o'r farn bod angen rhannu gwybodaeth gyfrinachol â'r gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu:

- dylent geisio cefnogi'r plentyn, os mai'r plentyn yw ffynhonnell yr wybodaeth, i gytuno i'r wybodaeth gael ei datgelu o fewn cyfnod rhesymol
- i ddechrau, gallant drafod yr achos yn ddienw ag eraill, megis y person diogelu dynodedig, cydweithiwr arall â chymhwysedd addas ym maes diogelu, neu'r gwasanaethau cymdeithasol plant
- dylid rhoi gwybod i'r plentyn bod angen i'r gweithiwr proffesiynol rannu gwybodaeth gyfrinachol, oni bai y byddai gwneud hynny'n peri rhagor o risg iddo
- dylid gwneud cofnod priodol o unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth ai peidio.

**3.53** Mae'n bosibl y bydd angen i benderfyniadau yn y maes hwn gael eu gwneud gan bobl sydd â chymhwysedd addas ym maes diogelu, fel gweithwyr proffesiynol enwebedig neu ddynodedig, neu ar ôl cael cyngor gan bobl o'r fath.

### Cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth

**3.54** Mae rhannu gwybodaeth yn rhan allweddol o arfer da ym maes diogelu. Rhaid i wybodaeth gael ei rhannu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, y cyfeirir atynt fel deddfwriaeth diogelu data'r DU. Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau eithriadol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw atal cam-drin, esgeulustod neu niwed.

**3.55** Mewn lleoliadau addysg, cyfrifoldeb y person diogelu dynodedig yw cadw cofnodion ysgrifenedig manwl, cywir a diogel am blant sy'n destun pryderon ynghylch eu diogelwch. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion eraill am ddysgwyr. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, achosion o hysbysu, cyfarfodydd, galwadau ffôn a negeseuon e-bost. Ceir nifer o becynnau meddalwedd er mwyn helpu lleoliadau addysg i gasglu data ar bryderon ynghylch diogelu mewn perthynas â phlant sy'n wynebu risg.

**3.56** Lle bo plentyn yn gadael lleoliad addysg, **rhaid** i'r person diogelu dynodedig sicrhau bod copi o unrhyw gofnodion amddiffyn plant yn cael eu rhoi i'r lleoliad addysg newydd cyn gynted â phosibl, ond gan eu trosglwyddo ar wahân i brif ffeil y dysgwr. Bydd hyn yn sicrhau bod y lleoliad addysg newydd yn ymwybodol o unrhyw risgiau i'r plentyn fel y gall ei helpu fel y bo'n briodol. Bydd cyfathrebu effeithiol rhwng y personau diogelu dynodedig yn y ddau leoliad addysg yn bwysig er mwyn sicrhau nad yw'r plentyn yn wynebu risg yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

**3.57** Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cyngor anstatudol i ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau mewn perthynas â'u cyfrifoldebau i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant. Mae'r canllawiau yn cynnig eglurder ynghylch yr amodau ar gyfer rhannu gwybodaeth.

**3.58** **Dylai** pawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth diogelu data'r DU. Mae'n ofynnol i bob ysgol a choleg a gynhelir yn y DU benodi swyddog diogelu data.

**3.59** Mae cyfres o bum canllaw i'r cyfreithiau diogelu data ar gyfer uwch-arweinwyr a swyddogion diogelu data mewn ysgolion a cholegau ar gael ar Hwb. Maent yn anelu at ddarparu gwybodaeth glir a chywir am rwymedigaethau a gofynion ysgolion a cholegau mewn perthynas â'r newidiadau o ran GDPR. Datblygwyd yr adnoddau hyn gan South West Grid for Learning (SWGfL) ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel rhan o'r rhaglen addysg ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar-lein a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

**3.60** Mae’n **arfer effeithiol** i’r person diogelu dynodedig ddarparu adroddiad briffio blynyddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff i roi gwybod am unrhyw faterion sy’n ymwneud â diogelu a/neu amddiffyn plant neu newidiadau i'r gweithdrefnau lleol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a’u bod yn cael eu hatgoffa’n gyson am eu cyfrifoldebau, ac am bolisïau a gweithdrefnau’r ysgol. Mae llawer o ysgolion yn ei gweld hi'n fuddiol trafod diogelu yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth.

**3.61** **Dylai'r** person diogelu dynodedig gydgysylltu â’r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, er mwyn i'r llywodraethwr dynodedig allu adrodd ar faterion sy’n ymwneud â diogelu i'r corff llywodraethu, ni waeth a yw'r mater yn digwydd ar-lein neu all-lein. Ni ddylid trafod achosion amddiffyn plant penodol mewn adroddiadau i’r corff llywodraethu, ond dylid adolygu’r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu. Mae’n arfer da i’r llywodraethwr a enwebwyd a’r person diogelu dynodedig gyflwyno’r adroddiad gyda’i gilydd.

# 4. Cyfrifoldebau penodol gwahanol leoliadau addysg

## Cyfrifoldebau colegau

**4.1** Mae'r cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yr ymdrinnir â nhw yn y canllawiau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant o dan 18 oed. Fodd bynnag, dylai colegau a dosbarthiadau'r chweched mewn ysgolion hefyd fod yn ymwybodol bod Deddf 2014 yn ymestyn y ddyletswydd i hysbysu[17] sydd ar awdurdodau lleol i bartneriaid perthnasol os oes sail resymol dros amau bod oedolyn yn wynebu risg. Mae'n ofynnol i bartneriaid ym meysydd addysg, iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a thimau troseddwyr ifanc hysbysu'r awdurdod lleol os ydynt yn credu bod oedolyn yn wynebu risg.

**4.2** Gan eu bod yn gyrff ymreolaethol, ni all colegau ddibynnu'n awtomatig ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor, cymorth, mynediad at hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau ac ati. Mae awdurdodau lleol yn rhydd i ddarparu'r gwasanaethau hynny i golegau, ond nid oes rhwymedigaeth arnynt i wneud hynny. Gellir darparu gwasanaethau am ddim. Gall colegau nad ydynt yn prynu gwasanaethau gan awdurdod lleol gysylltu â'r Bwrdd Diogelu Plant i ofyn am gyngor, neu'r Bwrdd Diogelu Oedolion yn achos pobl dros 18 oed.

**4.3** Yn achos coleg sy'n darparu addysg a/neu hyfforddiant i blant a phobl ifanc o dan 16 oed sydd ar gofrestr ysgolion uwchradd, **dylai'r** person diogelu dynodedig gydgysylltu â'r colegau dan sylw i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r dysgwr.

**4.4** Yn y sector ôl-16, mae'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir, y safonau a gyrhaeddir gan y rheini sy'n cael addysg a hyfforddiant ac a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rheini sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio i sicrhau gwerth am arian. Fel rhan o'r arolygiad, bydd arolygwyr yn gwerthuso trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu dysgwyr ac yn adrodd ar hynny. Lle bo lleoliad addysg yn cynnwys darpariaeth breswyl neu'n gysylltiedig â lleoliad preswyl, bydd arolygwyr Estyn yn cydgysylltu ag AGC i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion lletywyr neu breswylwyr mewn perthynas â'u diogelwch.

## Cyfrifoldebau ysgolion annibynnol

**4.5** Gweinidogion Cymru sy'n cofrestru ysgolion annibynnol yng Nghymru. Rhaid i unrhyw sefydliad sydd am weithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru i gofrestru yn unol ag adran 160 o Ddeddf 2002. Mae'n drosedd o dan adran 159 i unrhyw un gynnal ysgol annibynnol nad yw wedi'i chofrestru.

---

[17] Adran 126, o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (gweler www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/126/enacted/welsh)

**4.6** Mae Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn nodi'r safonau ar gyfer arolygu ysgol annibynnol yn unol ag adrannau 160(4) ac 163(2) o Ddeddf 2002. Mae Safon 3 yn ymwneud yn benodol â diogelu a hybu llesiant, iechyd a diogelwch plant sy'n mynychu'r ysgol. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cael cais i gofrestru, byddant yn hysbysu Estyn a fydd wedyn yn cynnal arolygiad o'r ysgol ac yn adrodd i Weinidogion Cymru ar y graddau y mae'r Safonau Ysgol Annibynnol wedi'u bodloni. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried adroddiad Estyn, ac unrhyw dystiolaeth arall sy'n berthnasol i'r Safonau Ysgol Annibynnol, er mwyn penderfynu a yw'r safonau wedi'u bodloni ac wrth hysbysu'r perchennog am ei benderfyniad.

**4.7** Mae gan berchnogion ysgolion annibynnol gyfrifoldebau tebyg i'r rhai sydd gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ond ni allant ddibynnu ar awdurdodau lleol i roi cyngor a chymorth yn yr un modd ag a wnânt ar gyfer ysgolion a gynhelir. Mae awdurdodau'n gallu darparu'r gwasanaethau hynny i ysgolion annibynnol, ac mae llawer ohonynt yn gwneud hynny, gan godi ffioedd priodol am y gwaith. Fodd bynnag, nid oes rhwymedigaeth arnynt i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Yn yr un modd â cholegau, gall ysgolion annibynnol nad ydynt yn prynu gwasanaethau gan awdurdod lleol gysylltu â'r bwrdd diogelu plant i gael cyngor.

**4.8** Mae'n bwysig bod sianeli cyfathrebu rhwng ysgolion annibynnol, adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a byrddau diogelu plant yn cael eu cynnal a'u datblygu, fel bod plant y mae angen cymorth arnynt yn cael sylw prydlon ac y gellir ymchwilio'n briodol i unrhyw honiadau o gam-drin. Mewn achosion lle nad y perchennog yw'r pennaeth, dylai'r perchennog gydgysylltu ag asiantaethau eraill os gwneir honiadau sy'n ymwneud â'r pennaeth. Lle mai'r pennaeth yw'r perchennog hefyd, dylid cytuno ar drefniadau penodol gyda'r bwrdd diogelu plant.

**4.9** Dylai ysgolion annibynnol sy'n darparu gofal meddygol a/neu nyrsio sicrhau bod eu staff meddygol a nyrsio yn cael cyngor priodol a hyfforddiant amlasiantaethol ar amddiffyn plant.

## Cyfrifoldebau ysgolion annibynnol sy'n cynnig darpariaeth breswyl

**4.10** Bydd perchnogion ysgolion annibynnol sy'n darparu llety i blant yn ymwybodol ei bod yn ofynnol i sefydliadau o'r fath gofrestru â Llywodraeth Cymru ac AGC. Wedyn, bydd ysgolion annibynnol o'r fath yn cael eu harolygu gan Estyn ac AGC. Mae AGC wedi cyhoeddi canllawiau ar y *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl* a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl y Brif Ffrwd sydd i'w bodloni wrth gofrestru'r ysgol annibynnol yn gyntaf a thrwy gydol y cofrestriad.

**4.11** Fel yn achos ysgolion annibynnol eraill, mae Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn pennu safonau ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant y darperir llety ar eu cyfer gan ysgol breswyl. Defnyddir y safonau hyn i asesu a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd arni i ddiogelu a hybu llesiant y plant y darperir llety ar eu cyfer.

## Cyfrifoldebau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion am addysg a ddarperir y tu allan i leoliad ysgol a gynhelir

**4.12** Mae adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgolion neu heblaw mewn ysgolion i blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt am ba reswm bynnag – boed oherwydd salwch, cael eu gwahardd o'r ysgol neu fel arall – yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod o bosibl, oni wneir trefniadau addas ar eu cyfer.

**4.13** Wrth wneud trefniadau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys darpariaeth a gomisiynir gan ddarparwyr allanol, **rhaid** i'r awdurdod lleol sicrhau y gwneir hyn gan anelu at ddiogelu a hybu llesiant y plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol.

**4.14** Mae Deddf 2002 a Mesur Addysg a Sgiliau 2009 yn rhoi'r pŵer i gyrff llywodraethu gomisiynu gwasanaethau allanol, gan gynnwys gwasanaethau addysgol.

**4.15** Er mwyn sicrhau eu hunain eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau, **rhaid** i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gael sicrwydd bod y ddarpariaeth a gomisiynir, neu fel arall, yn diogelu'r plant a leolir ynddi ac yn hybu eu llesiant. **Rhaid** cael y cyfryw sicrwydd cyn lleoli'r plentyn a thrwy gydol cyfnod y lleoliad.

**4.16** Cyn lleoli plentyn â darparwyr allanol, **dylai** awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sicrhau eu hunain drwy wneud y canlynol:

- cynnal ymweliadau â safle'r lleoliad
- sicrhau bod y darparwr wedi'i gofrestru â Llywodraeth Cymru (lle y bo'n ofynnol cofrestru fel ysgol annibynnol neu le y byddai'n ofynnol gwneud hynny petai'r awdurdod lleol yn lleoli plentyn/plant yno)
- ystyried canfyddiadau arolygiadau Estyn
- gofyn am dystiolaeth o'r ffordd y bydd y darparwr yn diogelu'r plentyn ac yn hybu ei lesiant, er enghraifft drwy ystyried polisïau'r darparwr gan gynnwys polisïau iechyd a diogelwch, gwrth-fwlio a diogelu
- gofyn am dystiolaeth o drefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr (gan gynnwys sicrhau bod staff wedi cael gwiriadau priodol a chyfredol megis gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS))
- gofyn am dystiolaeth o'r gallu i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**4.17** Yn ystod lleoliad y plentyn neu'r person ifanc, **dylai** ysgolion ac awdurdodau lleol fonitro a yw'r trefniadau a roddwyd ar waith yn effeithiol ai peidio. **Dylai** hyn gynnwys ymweld â'r lleoliad dan sylw.

**4.18** Mae rhagor o wybodaeth am addysg heblaw yn yr ysgol ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol*.

## Cyfrifoldebau darparwyr dysgu seiliedig ar waith

**4.19** Yn y sector ôl-16, mae'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir
- y safonau a gyrhaeddir gan y rheini sy'n cael addysg a hyfforddiant
- ansawdd arwain a rheoli, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rheini sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio i sicrhau gwerth am arian.

**4.20** **Dylai** trefniadau diogelu darparwr dysgu seiliedig ar waith geisio sicrhau bod pob dysgwr mewn amgylchedd diogel, gan gynnwys dysgwyr sy'n dysgu gydag isgontractwyr a/neu aelodau o gonsortiwm. Dylai trefniadau o'r fath gynnwys:

- nodi dysgwyr o dan 18 oed sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio
- arferion recriwtio sy'n adlewyrchu'r rhwymedigaeth i ddiogelu pobl ifanc
- sicrhau bod y cyfleoedd profiad gwaith a ddarperir yn ystyried canllawiau priodol ar ddiogelu
- swyddog arweiniol dynodedig ar gyfer diogelu
- hyfforddiant a chymorth i bob aelod o staff ar faterion yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant
- sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer amddiffyn plant yn cael eu cofnodi'n glir a'u hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

## Cyfrifoldebau ysgolion bro, darparwyr gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a darparwyr dysgu y tu allan i oriau ysgol

**4.21** Corff llywodraethu ysgol sy'n gyfrifol am reoli'r defnydd o safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol a'r tu allan i'r oriau hynny, ac eithrio pan naill ai fydd gweithred ymddiriedolaeth yn caniatáu i berson ac eithrio'r corff llywodraethu reoli'r defnydd o'r safle, neu le y lluniwyd cytundeb trosglwyddo rheolaeth. Gall cyrff llywodraethu ymrwymo i gytundebau trosglwyddo rheolaeth er mwyn rhannu rheolaeth dros safle'r ysgol â chorff arall, neu drosglwyddo rheolaeth i'r corff hwnnw. Bydd y corff arall, sef y "corff rheoli", yn rheoli meddiannaeth y safle a'r defnydd ohono yn ystod yr adegau a ddynodir yn y cytundeb. Gall trosglwyddo rheolaeth dros y safle i grwpiau cymunedol, cymdeithasau chwaraeon a darparwyr gwasanaethau lleol olygu y gellir defnyddio cyfleusterau'r ysgol heb fod angen amser rheoli neu weinyddu parhaus gan staff yr ysgol. Mae hyn yn digwydd yn aml mewn ysgolion bro.

**4.22** Lle bo'r corff llywodraethu yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau'n uniongyrchol o dan oruchwyliaeth neu reolaeth staff yr ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn berthnasol. Lle y caiff gwasanaethau neu weithgareddau eu darparu ar wahân gan gorff arall, rhaid i'r corff llywodraethu gadarnhau bod gan y corff dan sylw bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu plant ac amddiffyn plant, a bod trefniadau ar gyfer cydgysylltu â'r ysgol ar y materion hyn lle y bo'n briodol.

## Cyfrifoldebau lleoliadau nas cynhelir a ariennir

**4.23** Mae'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed* yn nodi'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant i leoliadau gofal dydd a reoleiddir. Nod y safonau hyn yw rhoi cymorth a chyngor i'r lleoliadau hynny a ariennir i ddarparu addysg er mwyn sicrhau arfer effeithiol wrth roi trefniadau diogelu ar waith. Mae Safon 20: Amddiffyn plant yn nodi y dylai person cofrestredig y lleoliad sicrhau'r canlynol:

- bod polisi amddiffyn plant ar waith sy'n cael ei rannu â'r holl rieni/gofalwyr a staff
- bod hyfforddiant amddiffyn plant yn cael ei gwblhau
- bod pawb sy'n gweithio yn y lleoliad yn gwybod sut i nodi pryderon sy'n ymwneud ag amddiffyn plant
- bod pob aelod o staff yn gwybod sut i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg.

## Cyfrifoldebau lleoliadau gwaith ieuenctid

**4.24** Gellir cynnal gwaith ieuenctid, wedi'i anelu at bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, mewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys lleoliadau â dyletswyddau statudol a drafodir mewn rhannau eraill o'r canllawiau hyn ac amrywiaeth eang o sefydliadau gwirfoddol. Yn ogystal, gallai gwasanaethau'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol gynnwys gweithwyr sy'n darparu cymorth allgymorth a chymorth gwasgaredig er mwyn cyrraedd rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed.

**4.25** Ym mhob achos, mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn berthnasol, ynghyd ag unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau sefydliadol penodol sydd ar waith.

# 5. Cyfrifoldebau diogelu dan amgylchiadau penodol

**5.1** Dylai pawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg fod yn gyfarwydd â'r arwyddion bod plentyn yn wynebu risg o niwed, esgeulustod a cham-drin er mwyn iddynt allu codi eu pryderon a diogelu plant. Byddant yn dod yn gyfarwydd â'r arwyddion hyn drwy hyfforddiant diogelu a phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

**5.2** Mae'r adran hon yn rhoi cyngor a gwybodaeth gyfeirio i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg er mwyn rheoli amgylchiadau penodol. Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr a bydd yn newid wrth i risgiau ac amgylchiadau ddatblygu yn sgil newidiadau cymdeithasol. Gall fod amgylchiadau penodol eraill y bydd angen i'r rheini mewn lleoliadau addysg eu hystyried. Gall y bwrdd diogelu plant gynnig cyngor a chymorth mewn perthynas ag adnoddau er mwyn helpu ymarferwyr i nodi arwyddion esgeulustod, cam-drin a mathau eraill o niwed. Bydd gan y Bwrdd hefyd ddealltwriaeth o risgiau a phryderon mwy lleol yn y rhanbarth.

**5.3** Mae nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn ategu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r Gweithdrefnau yn helpu ymarferwyr i gymhwyso'r ddeddfwriaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau diogelu statudol Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

## Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan

**5.4** 'Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB)' - gan gynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin sy'n ymwneud â llinellau cyffuriau a mathau eraill o gam-fanteisio troseddol.

**5.5** 'Diogelu plant rhag eu hesgeuluso' – gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol fathau o esgeulustod a sut y byddant o bosibl yn cael eu cuddio.

**5.6** 'Diogelu plant rhag Camfanteisio Rhywiol' - gan gynnwys gwybodaeth am nodi'r arwyddion bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol drwy gam-fanteisio.

**5.7** 'Diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt' – gan gynnwys gwybodaeth am niwed i blant, yr angen i helpu rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, trais a cham-drin gan blant/glasoed tuag at rieni/gofalwyr a cham-drin fel rhan o gydberthnasau rhwng cyfoedion.

**5.8** 'Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelion' – gan gynnwys cam-drin ar sail anrhydedd fel anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodasau dan orfod i blant (hyd at 18 oed), yn ogystal â cham-drin plant sy'n gysylltiedig â ffydd neu gred.

**5.9** 'Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol' – gan gynnwys gwybodaeth am sut i ddeall beth yw ymddygiad rhywiol niweidiol mewn plant, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein.

**5.10** '[Diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal]' – gan gynnwys gwybodaeth am sut i benderfynu a ddylid rhoi gwybod bod plentyn ar goll, a sut i ymateb.

**5.11** '[Diogelu plant rhag cam-drin ar-lein]' – gan gynnwys gwybodaeth am feithrin cydberthnasau amhriodol ar-lein, cam-drin rhywiol ar-lein, ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein a radicaleiddio ar-lein.

**5.12** '[Diogelu plant a all fod wedi'u masnachu]' – gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol resymau pam y caiff plant eu masnachu, yn ogystal â dyletswyddau adrodd penodol a chymorth mewn perthynas â'r math hwn o gam-drin.

**5.13** '[Diogelu plant mewn perthynas â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020]' – mae'r canllaw ymarfer hwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am ymatebion diogelu lle effeithir ar blentyn gan gosb gorfforol.

**5.14** Statws Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches – mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i ymarferwyr ar helpu Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, ac maent ar gael [yma].

**5.15** Y Gwasanaeth Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol – yn cynnig llinell gymorth 24/7 lle y gall ymarferwyr gael cyngor, arweiniad ac adnoddau ar gyfer pob math o gamfanteisio a ddiffinnir yn y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (troseddol, rhywiol, llafur, caethwasanaeth domestig a chynaeafu organau). Ffôn: 0800 043 4303

**5.16** Mae canllawiau ar gyfer y sector addysg bellach ar arferion sy'n wybodus ynghylch trawma ac Asesu Cyflawniad ac Effeithiolrwydd (ACE) ar gael ar [Hwb].

## Achosion o gam-drin ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion

**5.17** Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg ddeall ac adnabod risgiau cam-drin ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i'r NSPCC a Barnardo's lunio canllawiau i ysgolion ar ymddygiad rhywiol niweidiol, cam-fanteisio rhywiol ac achosion o gam-drin rhwng cyfoedion, a fydd ar gael ar Hwb.

**5.18** Dylai fod gan y person diogelu dynodedig ddealltwriaeth dda o ymddygiad rhywiol niweidiol a dylai hyn fod yn rhan o'i hyfforddiant diogelu. Mae gwybodaeth am ddiogelu plant lle y gall fod pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol ar gael mewn [Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan], a gyhoeddwyd ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am achosion o gam-drin rhwng cyfoedion.

**5.19** Bydd hyn o gymorth wrth gynllunio addysg ataliol, rhoi mesurau ataliol ar waith, drafftio polisi diogelu effeithiol a'i roi ar waith, ac ymgorffori dull gweithredu

mewn perthynas â thrais rhywiol ac aflonyddu rhywiol yn null diogelu'r lleoliad cyfan.

**5.20** Dylai lleoliadau addysg gyfeirio at 'Ganllaw Ymarfer Cymru ar 'ddiogelu plant rhag cam-fanteisio rhywiol' a 'Chanllaw Ymarfer Cymru ar ddiogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol'.

### Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)

**5.21** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 7.

**5.22** Mae'r canllawiau'n nodi cyngor ar rôl lleoliadau addysg mewn perthynas ag atal camdriniaeth drwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, y gofyniad i staff addysg ddeall sut i nodi ac adrodd am risg camfanteisio'n rhywiol ar blant, a rôl lleoliadau addysg o ran ymateb i blant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol neu o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio rhywiol.

## Delweddau o gam-drin plant a'r rhyngrwyd

**5.23** Mae rhagor o arweiniad, hyfforddiant a chymorth ar gael gan Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (CEOP). Mae'r Ganolfan yn gweithio i amddiffyn plant, teuluoedd a chymdeithas rhag pedoffiliaid a throseddwyr rhyw, yn benodol, y rhai sy'n ceisio cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Dylai lleoliadau addysg gyfeirio at Ganllaw Ymarfer Cymru ar 'ddiogelu plant rhag cam-drin ar-lein'.

## Plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal

**5.24** Dylai lleoliadau addysg ddefnyddio eu polisi a'u hymarfer presenoldeb i sicrhau eu bod yn cysylltu'n rheolaidd â rhieni neu ofalwyr os bydd plentyn yn absennol o'r ysgol heb awdurdod neu os bydd patrymau o absenoldeb. Gallai cofnod presenoldeb plentyn yn yr ysgol fod yn arwydd o bryderon diogelu ac yn gyfle i atal achos o gam-drin, fel cam-fanteisio ar blentyn.

**5.25** Os bydd plentyn yn absennol heb hysbysiad, gallai hynny hefyd fod heb yn wybod i'w riant neu ei ofalwr a gallai fod yn arwydd cynnar bod y plentyn ar goll o'r cartref neu o ofal. Dylai'r lleoliad addysg sicrhau yr eir ar drywydd unrhyw absenoldeb yn gyflym er mwyn sicrhau bod y plentyn yn ddiogel ac nad yw ar goll o'r cartref neu o ofal.

**5.26** Os bydd y lleoliad addysg yn nodi bod plentyn ar goll o'r cartref neu o ofal, dylai gyfeirio at Canllaw Ymarfer Cymru ar 'ddiogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal'.

## Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

**5.27** Mae pryderon canolog ac amlwg y mae angen ymdrin â nhw wrth gynllunio ar gyfer diwallu anghenion gofal a chymorth plant â statws Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches. Mae canllawiau ar gael gan Lywodraeth Cymru Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches: Canllawiau i Weithwyr Proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod yn rhaid i ymarferwyr ystyried mesurau diogelu penodol o hyd fel rhan o'u gwaith o gynllunio gyda'r plentyn ac ar gyfer y plentyn.

## Bwlio

**5.28** Mae cyfres canllawiau Llywodraeth Cymru 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' yn darparu canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i ymdrin â bwlio ac atal achosion o fwlio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru y bydd ysgolion yn gwneud y canlynol:

- cymryd camau gweithredu rhagweithiol a chyfannol er mwyn atal bwlio
- llunio polisi gwrth-fwlio sy'n gysylltiedig â pholisïau'r ysgol, gan gynnwys ymddygiad a diogelu
- cofnodi a monitro digwyddiadau o fwlio er mwyn helpu i gymryd camau rhagweithiol i herio achosion o fwlio
- adolygu polisïau a strategaethau gwrth-fwlio yn rheolaidd ar y cyd â dysgwyr, o leiaf bob tair blynedd.

**5.29** Mae'r gyfres hefyd yn cynnwys canllawiau cynghori i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr er mwyn helpu'r rheini yr effeithir arnynt gan fwlio, ac amlinellu hawliau a chyfrifoldebau.

**5.30** Er mwyn helpu i roi'r canllawiau ar waith, rydym wedi llunio rhestr chwarae pecyn cymorth ar-lein o adnoddau. Mae'r pecynnau cymorth, a gyhoeddwyd ar Hwb, sef platfform addysgol digidol Llywodraeth Cymru, yn cynnwys taflenni ffeithiau, canllawiau ategol, ffurflenni templed ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac enghreifftiau achos o arferion gorau er mwyn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i herio achosion o fwlio.

- Pecyn cymorth gwrth-fwlio i ysgolion
- Pecyn cymorth gwrth-fwlio i awdurdodau lleol
- Pecyn cymorth gwrth-fwlio i rieni a gofalwyr
- Pecyn cymorth gwrth-fwlio i blant
- Pecyn cymorth gwrth-fwlio i bobl ifanc

## Troseddau casineb

**5.31** Lansiwyd Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu llinell gymorth i blant a phobl ifanc drwy Meic Cymru a Chanolfan Genedlaethol ar gyfer Digwyddiadau a Throseddau Casineb drwy Cymorth i Ddioddefwyr Cymru.

## Cynnwys a chynorthwyo disgyblion

**5.32** Mae'r Canllawiau cynnwys a chynorthwyo disgyblion (2016) yn ymdrin â chynnwys a chynorthwyo disgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae'n rhoi cyngor ac yn nodi cyfrifoldebau ar gyfer cynnal lefelau uchel o bresenoldeb, ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion a chymorth i'r disgyblion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i sicrhau eu bod yn cael addysg addas ac yn osgoi cael eu hymddieithrio o addysg. Mae hefyd yn trafod addysg a ddarperir y tu allan i'r ysgol.

## Plant sy'n colli addysg

**5.33** Mae plant sy'n colli addysg yn wynebu mwy o risg o amrywiaeth o ganlyniadau negyddol a allai gael effaith ddinistriol hirdymor ar eu lles a'u cyfleoedd bywyd.

**5.34** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg. Maent yn cynnig pecyn cymorth ymarferol er mwyn nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg.

## Plant sy'n derbyn gofal

**5.35** Mae cyrff llywodraethu yn dynodi aelod o staff mewn ysgolion[18] i fod â chyfrifoldeb arweiniol am hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Lle bo pryder bod plentyn sy'n derbyn gofal yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, rhaid i'r aelod dynodedig o staff siarad â'r person diogelu dynodedig i drafod y pryderon a dylid hefyd hysbysu arweinydd y lleoliad addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal os yw'n briodol. Gall yr arweinydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal benderfynu y dylid cynnwys cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol.

**5.36** Ceir rhagor o wybodaeth am rolau'r aelod dynodedig o staff a'r cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn *Gwneud gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion* (2017).

## Ymweliadau cyfnewid tramor

**5.37** Mae'n bwysig bod lleoliadau addysg yn glir ynghylch sut y byddant yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddiogelu plant a phobl ifanc wrth wneud trefniadau ar gyfer ymweliadau cyfnewid tramor. Mae'r British Council yn darparu canllawiau gan y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau ar sut i gynllunio ymweliadau cyfnewid tramor sy'n cynnwys elfen o aros mewn cartrefi.

---

[18] Mae *Gwneud gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion* (gweler llyw.cymru/person-dynodedig-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-mewn-ysgolion-canllawiau) yn nodi'r ddyletswydd ar wahanol leoliadau addysg yn fanylach.

## Dysgu yn yr awyr agored a gwibdeithiau

**5.38** Mae'n bwysig bod lleoliadau addysg yn glir ynghylch sut y byddant yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddiogelu plant a phobl ifanc wrth wneud trefniadau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a gwibdeithiau. Gellir cael rhagor o gyngor ac arferion da gan y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored.

## Cyswllt corfforol â disgyblion, gan gynnwys ataliaeth

**5.39** Yn unol ag adran 93 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, gall pob aelod o staff ysgol[19] ddefnyddio'r cyfryw rym ag sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau er mwyn atal plentyn neu berson ifanc rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni trosedd (neu, yn achos dysgwr sydd o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, rhywbeth a fyddai'n drosedd petai dysgwr hŷn yn ei gyflawni)
- achosi anaf personol i unrhyw berson (gan gynnwys hunan-niwed i'r dysgwr), neu achosi difrod i eiddo unrhyw berson
- amharu ar y gallu i gynnal trefn a disgyblaeth yn yr ysgol neu ymysg unrhyw ddysgwyr sy'n cael addysg yn yr ysgol, boed hynny yn ystod sesiwn addysgu neu ar adeg arall.

**5.40** Nid yw'r gyfraith yn diffinio pryd mae'n rhesymol defnyddio grym. Bydd hynny'n dibynnu bob amser ar yr union amgylchiadau mewn achos penodol. Er mwyn ei ystyried yn gyfreithlon, byddai'n rhaid i'r grym fod yn gymesur â'r canlyniadau y bwriedir iddo eu hatal. Maint y grym a ddefnyddir fydd y lleiaf sydd ei angen i sicrhau'r canlyniad a fwriedir. Ni ellid cyfiawnhau defnyddio grym er mwyn atal camymddwyn dibwys.

**5.41** Mae bob amser yn anghyfreithlon defnyddio grym fel cosb. Y rheswm am hyn yw y byddai'n gyson â'r diffiniad o gosb gorfforol, a ddiddymwyd gan adran 548 o Ddeddf Addysg 1996.

**5.42** Mae Fframwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer ataliaeth yn cynnig adnodd ar gyfer defnyddio ataliaeth sy'n nodi'r fframweithiau cyfreithiol penodol sy'n rheoli'r defnydd o ataliaeth mewn lleoliadau gwahanol. Mae'r fframwaith yn berthnasol i sectorau yng Nghymru a Lloegr lle y defnyddir ataliaeth, gan gynnwys cyfiawnder troseddol, iechyd, gofal i oedolion a gofal cymdeithasol, ac addysg.

**5.43** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol 2021. Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau, lle caiff arferion cyfyngol eu defnyddio fel dewis olaf i atal niwed i'r unigolyn neu i eraill, fod hynny'n seiliedig

[19] Yn unol ag adran 95 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (gweler www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/40/section/95) ystyr "aelod o staff", mewn perthynas ag ysgol, yw—
(a) unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol,
(b) unrhyw berson arall sydd â rheolaeth neu gyfrifoldeb cyfreithlon dros y disgyblion sy'n cael addysg yn yr ysgol, a hynny ag awdurdod y pennaeth.

ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fewn cyd-destun y lleoliad gwasanaeth ac mewn ffordd sy'n diogelu'r unigolyn, y rhai y maent yn rhyngweithio â nhw, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith yn statudol; mae'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi ac ymarfer o ran lleihau arferion cyfyngol ar draws lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Felly bydd yr Arolygiaethau: Estyn; Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried cydymffurfio â'r dull a nodir yn y Fframwaith pan fyddant yn cynnal arolygiadau. Er mwyn cyflawni nodau'r fframwaith hwn, dylai sefydliadau ganolbwyntio ar dair elfen:

- Atal yr angen am arferion cyfyngol trwy ddatblygu strategaethau i'w lleihau a thrwy hyrwyddo dull o weithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol.
- Gweithio gydag unigolion trwy gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu anghenion unigol mewn ffordd sy'n ei gwneud yn llai tebygol y bydd sefyllfaoedd yn codi lle defnyddir arferion cyfyngol fel dewis olaf.
- Mewn sefyllfaoedd lle defnyddir arferion cyfyngol fel dewis olaf i atal niwed i'r unigolyn neu i eraill, rhoi mesurau cynllunio a hyfforddi ar waith ymlaen llaw er mwyn sicrhau diogelwch pawb dan sylw.

Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi y dylai unrhyw arwydd bod arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio'n amhriodol gael ei gofnodi a'i adrodd fel pryder diogelu. Mae fersiynau Cyfeillgar i Bobl Ifanc a Hawdd eu Deall o'r Fframwaith ar gael hefyd, drwy Fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol 2021 2021 a dylid sicrhau bod dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn cael gwybod am y fersiynau hynny.

**5.44** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Ymyriad diogel ac effeithiol: Defnyddio grym rhesymol* (2013) yn rhoi cymorth i ysgolion mewn perthynas â darparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc.

**5.45** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar hybu ymddygiad cadarnhaol a pholisïau ymddygiad i'w gweld yn y canllawiau *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* (2016). Dylai hefyd fod yn gyson â pholisïau ar ddiogelu ac iechyd a diogelwch.

**5.46** Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cyhoeddi *Canllaw arfer da o ran 'cyffwrdd priodol', trin ac atal* (EWC, 2018) sydd â'r nod o helpu i godi ymwybyddiaeth o drin ac atal mewn ymarfer proffesiynol. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â Chod ymddygiad ac ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC, 2019).

## Camddefnyddio sylweddau

**5.47** Mae gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned yn cynnig cymorth personol i blant a phobl ifanc sydd am drafod eu problemau, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, gyda chynghorydd annibynnol.

**5.48** Ceir Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan hefyd sy'n gweithredu ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd. Mae'r Rhaglen yn darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion ehangach sy'n ymwneud â'r gymuned a diogelwch personol, yn ogystal ag amrywiaeth o wersi eraill.

**5.49** Mae pecyn cymorth ar gyfer adnabod arwyddion camddefnyddio sylweddau yn y sector addysg bellach, ac ymateb i'r arwyddion hynny, ar gael ar Hwb.

**5.50** Llinell gymorth ddwyieithog am ddim mewn perthynas â chyffuriau yw Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru, DAN 24/7, sy'n cynnig un pwynt cyswllt i unrhyw un yng Nghymru sydd am gael rhagor o wybodaeth neu help sy'n gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol. Bydd y llinell gymorth hon yn helpu unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr, a gweithwyr cymorth ym maes cyffuriau ac alcohol i gael gafael ar wasanaethau lleol a rhanbarthol.

## Hunanladdiad a hunan-niwed

**5.51** Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau *'Ymateb i faterion hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc'* (2019). Mae'r canllawiau yn darparu gwybodaeth i oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc am sut i ymateb i faterion sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio. Maent yn ymdrin â sut y dylid gofyn cwestiynau i blant a phobl ifanc sydd o bosibl yn profi teimladau hunanladdol neu'n hunan-niweidio, a sut i ymateb i ddatgeliad ynghylch y teimladau hyn a'r mathau hyn o ymddygiad. Maent yn darparu canllawiau ar gyfrinachedd, diogelu a llwybrau uwchgyfeirio.

**5.52** Dylai pob lleoliad addysg ystyried y canllawiau hyn wrth ystyried ei bolisïau iechyd a llesiant, a dylai sicrhau eu bod yn hygyrch i bob aelod o staff.

**5.53** Mae canllaw hunangymorth *Cymorth wrth Law* (GIG Cymru, 2016) er budd pobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad. Mae wedi'i anelu at amrywiaeth eang o bobl y mae hunanladdiad neu farwolaeth heb esboniad wedi effeithio arnynt, nid dim ond perthnasau neu ffrindiau, ond gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill a ddaw i gysylltiad â phobl mewn profedigaeth hefyd. Ei nod yw rhoi cymorth ac awgrymiadau ynghylch sut i ddod o hyd i gymorth.

## 6. Cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd, trais rhywiol ac arferion diwylliannol niweidiol

**6.1** Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant fod yn wyliadwrus o'r gydberthynas gyson rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Lle ceir tystiolaeth o gam-drin domestig, dylid ystyried y goblygiadau i unrhyw blant yn y cartref, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai'r plant eu hunain fod yn dioddef trais neu fath arall o niwed.

**6.2** Mae dogfennau Llywodraeth Cymru *Strategaeth genedlaethol ar Drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol – 2016–2021*, a *Strategaeth genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Fframwaith cyflawni traws-lywodraethol 2018–2021* yn nodi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**6.3** Mae'r *Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru (2015)* yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysg fel amgylcheddau lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach a pharchus drwy ddull gweithredu seiliedig ar hawliau. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel adnodd defnyddiol er mwyn helpu i integreiddio'r materion a'r dulliau gweithredu hyn mewn arferion addysgu a rheoli sydd eisoes yn bodoli.

**6.4** Mae'r canllaw, a luniwyd ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru, yn seiliedig ar naw elfen allweddol y dull addysg gyfan, gyda phob adran yn ystyried y mathau o weithgarwch y gellid ymgymryd â nhw o dan bob elfen. Mae'r canllaw yn awgrymu nifer o syniadau ymarferol a rhoddir astudiaethau achos drwy'r canllaw i gyd.

**6.5** Mae *Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Canllawiau i Lywodraethwyr* (2016) yn cynnwys nifer o gamau gweithredu y gall llywodraethwyr eu cymryd i wneud eu hysgol yn fwy diogel. Mae'r canllawiau'n rhoi gwybod i lywodraethwyr ysgolion am y materion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r angen i roi polisi priodol ar waith er mwyn helpu staff i adnabod arwyddion camdriniaeth a gwybod sut i gael cymorth iddynt eu hunain, i gynorthwyo eu cydweithwyr a'r plant yn eu hysgol.

### Dulliau rhagweithiol

**6.6** Dylai gwaith atal gael ei integreiddio, lle y bo'n ymarferol, i bob agwedd ar fywyd lleoliad addysg a dylid mynd i'r afael ag ef ar bob adeg briodol yn y cwricwlwm. Bydd hyn yn helpu i greu ethos cadarnhaol lle y bydd gan ddysgwyr amgylchedd diogel i ddysgu a lle y bydd ganddynt y cyfle a'r hyder i rannu pryderon ag eraill. Gall trafod y materion a gwrando ar safbwyntiau a barn cyfoedion helpu i newid agweddau a darparu cymorth. Wrth drafod materion sensitif, mae angen cyflwyno'r rhain mewn ffordd gytbwys a thrafod materion moesegol mewn ffordd wrthrychol. Fodd bynnag, mae yr un mor bwysig grymuso dysgwyr i allu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu cydberthnasau personol ac adnabod ymddygiad amhriodol.

## Operation Encompass

**6.7** Sefydlwyd yr ymgyrch Operation Encompass i helpu plant sy'n profi Cam-drin Domestig drwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol rhwng yr heddlu ac ysgolion. Caiff yr ymgyrch bellach ei chyflwyno ledled Cymru. Diben Operation Encompass yw gallu rhoi cymorth i blant sy'n dioddef Cam-drin Domestig. Caiff oedolion allweddol, y person diogelu dynodedig yn aml, eu nodi ym mhob ysgol sy'n cymryd rhan yn Operation Encompass er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth am Gam-drin Domestig a'i effaith ar blant ac y gallant ledaenu'r wybodaeth honno i bob aelod o staff. Drwy Operation Encompass, gall ysgolion helpu plant i ddeall beth sy'n digwydd gartref a sut i amddiffyn eu hunain yn y ffordd orau yn gorfforol ac yn emosiynol. Mae'r wybodaeth a roddir i ysgolion hefyd yn eu galluogi i baratoi ar gyfer y plentyn yn yr ysgol ac i sicrhau y caiff y cymorth sydd ei angen arno.

## Ymateb i bryderon

**6.8** Os oes gan staff ysgol reswm i gredu bod plentyn yn wynebu risg o drais neu gamdriniaeth, bod hynny eisoes yn digwydd iddo, neu ei fod yn byw mewn tŷ lle mae hynny'n digwydd, dylai'r person diogelu dynodedig gael gwybod ar unwaith a dylid cymryd camau yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru.

**6.9** Os yw'r cam-drin yn digwydd rhwng oedolion yn y cartref, gellir rhoi cymorth i'r plentyn o ran pwy a all helpu, gan gynnwys yr heddlu, yr awdurdod lleol, gwasanaethau eirioli lleol ar gyfer cam-drin domestig (dylid cyfeirio at wybodaeth a gynhyrchir yn lleol).

**6.10** Gall ymarferwyr gael cyngor ac arweiniad gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn (0808 8010 800), gwefan Byw Heb Ofn neu drwy e-bost Byw Heb Ofn.

**6.11** Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth gyfrinachol sydd am ddim i'w defnyddio ac yn weithredol 24 awr y dydd. Mae'n cynnig cymorth a chyngor i **bob un** sy'n dioddef cam-drin a thrais, ni waeth beth fo'u rhywedd na'u cyfeiriadedd rhywiol, ac i ‘unigolion eraill sy'n pryderu’ fel ymarferwyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

**6.12** Mae *Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol* yn nodi'r lefel o hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer staff addysg. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol perthnasol allu ‘gofyn a gweithredu’ mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd pob gweithiwr proffesiynol sy'n debygol o ddod i gysylltiad ag unigolion a all fod yn cael eu cam-drin yn gallu adnabod arwyddion y profiad hwn ac ymateb yn briodol i'r person hwnnw.

**6.13** Gellir cael gafael ar adnoddau e-ddysgu mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yma.

## Anffurfio organau cenhedlu benywod

**6.14** Mae'n hollbwysig bod unrhyw un sy'n gweithio mewn lleoliad addysg yn wyliadwrus o arwyddion anffurfio organau cenhedlu benywod ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd os bydd ganddo bryderon. Dylai staff fod yn ymwybodol y gellid mynd â merched dramor yn ystod gwyliau'r haf er mwyn anffurfio organau cenhedlu benywod, gan y gall y triniaethau gymryd hyd at bedair wythnos i wella. Felly, mae'n bosibl y caiff y weithdrefn ei chyflawni cyn i ferch ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau tymor yr hydref. Dylai staff fod yn wyliadwrus drwy chwilio am arwyddion anffurfio organau cenhedlu benywod ar ôl gwyliau ysgol a rhoi gwybod i'r person diogelu dynodedig yn y lle cyntaf am unrhyw beth a all ymddangos yn amheus .

**6.15** Mae adran 5B o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 yn cyflwyno dyletswydd orfodol i hysbysu sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i'r heddlu am achosion hysbys o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched o dan 18 oed a ganfyddir ganddynt yn ystod eu gwaith proffesiynol.

**6.16** Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref, *Multi-agency statutory guidance on female genital mutilation* (2020), yn nodi'n glir bod y ddyletswydd yn gymwys i athrawon cymwysedig neu bersonau a gyflogir i wneud gwaith addysgu mewn ysgolion a cholegau, ac ymarferwyr addysg a reoleiddir gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

**6.17** Os oes amheuaeth bod plentyn yn wynebu risg o anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod, dylid dilyn gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Gellir defnyddio Gorchmynion Amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod hefyd. Gellir gofyn i'r llys ystyried cais ar unwaith, a gall wneud gorchymyn amddiffyn heb i'r ymatebwyr fod yn bresennol. Mae'r ddogfen Mandatory Reporting of Female Genital Mutilation – procedural information yn argymell y dylid rhoi gwybod i'r heddlu ar lafar drwy **ffonio 101.**

## Priodas dan orfod

**6.18** Mae canllawiau Llywodraeth y DU Multi-agency practice guidelines: Handling cases of Forced Marriage (2014) yn cynnig cyngor cam wrth gam i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon, ar briodas dan orfod. Mae'r canllawiau'n cynnwys amlinelliad o'r arwyddion y gall pobl sy'n gweithio mewn lleoliad addysg eu hadnabod pan fydd plentyn neu berson ifanc yn wynebu risg o briodas dan orfod. Gall Uned Priodasau dan Orfod [*Forced Marriage Unit*] y Llywodraeth roi cyngor a chymorth i unigolion sydd mewn perygl o briodas dan orfod neu sydd wedi profi priodas dan orfod, ac i'r gweithwyr proffesiynol sy'n ceisio eu diogelu.

**6.19** Mae canllawiau Llywodraeth y DU The Right to Choose: government guidance on forced marriage yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer penaethiaid sefydliadau diogelu, a chanllawiau anstatudol ar gyfer gweithwyr proffesiynol rheng flaen, ar briodasau dan orfod.

**6.20** Gellir defnyddio gorchmynion amddiffyn rhag priodas dan orfod hefyd. Gall y llys wneud gorchymyn mewn argyfwng fel y gellir rhoi mesurau amddiffyn ar waith ar unwaith. Mae mwy o wybodaeth ar sut i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod wedi'i chyhoeddi gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi.

# 7. Cadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein

**7.1** Gan ein bod bellach yn treulio cymaint o'n bywydau ar-lein, mae hybu defnydd diogel a chadarnhaol o dechnoleg ymhlith plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae 'Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein' yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru i wella ymarfer a darpariaeth mewn perthynas â diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r ddogfen allweddol hon yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r maes hollbwysig hwn, gan dynnu sylw at y cyflawniadau hyd yn hyn, a chydnabod yr angen am ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb parhaus.

## Cadw'n ddiogel ar-lein ar Hwb

**7.2** Cafodd yr adran 'Cadw'n ddiogel ar-lein' ar Hwb ei dylunio a'i datblygu i wella cadernid digidol mewn addysg ledled Cymru. Ceir cyfres helaeth o adnoddau dwyieithog cyfredol, canllawiau gan Lywodraeth Cymru a dolenni i ffynonellau cymorth pellach ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, seibergadernid a diogelu data i'r canlynol:

- plant a phobl ifanc
- ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol
- rhieni, gofalwyr a theuluoedd
- llywodraethwyr a phwyllgorau rheoli.

**7.3** Mae'r adran 'Cadw'n ddiogel ar-lein' hefyd yn cynnwys adnoddau dwyieithog a luniwyd neu a ddatblygwyd ar y cyd â phartneriaid allweddol, fel yr NSPCC, Common Sense Media a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Yn ogystal â chanllawiau ac adnoddau, mae'r adran 'Cadw'n ddiogel ar-lein' yn cyhoeddi newyddion am gadernid digidol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn cystadlaethau, gweminarau a hyfforddiant. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys cyfeiriadau i sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt, adnoddau ar gyfer rhoi gwybod am achosion o niwed ar-lein a ffynonellau cymorth arbenigol pellach.

**7.4** Adnodd hunanasesu diogelwch ar-lein dwyieithog i ysgolion yw '360 degree safe' Cymru. Dyluniwyd yr adnodd i helpu ysgolion i adolygu eu polisïau a'u hymarfer o ran diogelwch ar-lein yn rheolaidd drwy weithio drwy gyfres o agweddau hunanasesu a'u graddio. Mae'r adnodd hefyd yn darparu cyfres o dempledi ar gyfer polisïau diogelwch ar-lein i ysgolion eu defnyddio a'u haddasu.

## Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel

**7.5** Mae Llywodraeth Cymru yn un o gefnogwyr swyddogol Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel. Fe'i cynhelir ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Chwefror bob blwyddyn, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chanolfan y DU ar gyfer Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel i annog unigolion i gymryd rhan yn y Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel drwy gystadlaethau, cynlluniau gwersi a gweithgareddau. Mae Canolfan y DU ar gyfer Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn bartneriaeth rhwng tair

elusen flaenllaw – Childnet International, Internet Watch Foundation ac SWGfL – sy'n rhannu cenhadaeth i wneud y rhyngrwyd yn lle gwell i blant a phobl ifanc. Gellir cael rhagor o fanylion am [Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel] yn yr adran 'Cadw'n ddiogel ar-lein' ar Hwb.

## Gwersi ffrydio byw

**7.6** Mae'n bosibl y bydd lleoliadau addysg o'r farn bod dulliau fideo-gynadledda a ffrydio byw â dysgwyr yn ddulliau gweithredu ymarferol a phriodol o dan rai amgylchiadau, yn enwedig o ran sicrhau llesiant y dysgwr a'i annog i ymgysylltu. Mae diogelu yn un o egwyddorion annatod dysgu digidol ac mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a lles dysgwyr dros bob ystyriaeth arall. Rhaid i ddiogelu fod yn rhan annatod o'r trefniadau ar gyfer cyflwyno gwersi ffrydio byw er mwyn sicrhau bod dysgwyr wedi'u hamddiffyn yn briodol. Os bydd lleoliad addysg yn dewis defnyddio dulliau fideogynadledda neu ffrydio byw, rhaid i gyrff llywodraethu, penaethiaid a staff roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau - *Ffrydio byw a fideogynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu* sy'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer sicrhau ymarfer diogel wrth ddefnyddio dulliau ffrydio byw. Mae rhagor o wybodaeth am fideogynadledda a ffrydio byw ar gael ar Hwb.

## Safonau a argymhellir ar gyfer hidlo’r we

**7.7** Mae'n hanfodol bod safonau hidlo'r we yn addas i'r diben ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain, gan ganiatáu'r mynediad sydd ei angen ar ysgolion a diogelu plant a phobl ifanc ar yr un pryd. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod hidlyddion priodol a systemau monitro priodol ar waith a chyfeirio at safonau hidlo’r we fel rhan o Safonau Digidol Addysg i ysgolion yng Nghymru. Nod y safonau yw helpu ysgolion i ddarparu amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol i ddysgu ynddo, ac atal mynediad at gynnwys amhriodol neu niweidiol.

## Ymateb i achosion o rannu delweddau noeth neu hanner noeth

**7.8** Mae rhannu delweddau wedi dod yn beth cyffredin gan fod technoleg fodern yn golygu ei bod mor hawdd gwneud hynny. Mae'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd â dyfeisiau symudol a chyflymder a rhwyddineb rhannu delweddau wedi arwain at bryderon ynghylch rhannu delweddau noeth (y cyfeirir atynt weithiau fel 'secstio'). Gall y mathau hyn o ymddygiad olygu bod pobl ifanc yn wynebu risgiau, gan gynnwys rhannu delweddau heb ganiatâd, cywilydd, bwlio a bod yn fwy agored i achosion o flacmel a gorfodaeth neu gamfanteisio rhywiol. Mae creu a rhannu delweddau rhywiol o bobl o dan 18 oed yn anghyfreithlon hefyd. Fodd bynnag, ar wahân i achosion eithriadol, nid yw trin plant a phobl ifanc sy’n creu ac yn rhannu delweddau noeth a hanner noeth ohonyn nhw eu hunain fel troseddwyr o fudd i’r cyhoedd na’r unigolion dan sylw.

**7.9** Mae *Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc* yn helpu ysgolion yng Nghymru i reoli materion yn ymwneud â rhannu delweddau noeth yn briodol. Lluniwyd y canllawiau er mwyn

helpu ysgolion, colegau a lleoliadau addysg eraill i ddatblygu gweithdrefnau i ymateb i ddigwyddiadau lle y cafodd delweddau noeth eu rhannu. Mae'n cynnwys gwybodaeth am addysg ataliol ac yn cyfeirio at ffynonellau o adnoddau a chymorth pellach, yn ogystal â sut a phryd i gynnwys asiantaethau eraill. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi sut i ymdrin â digwyddiad, gan gynnwys cyngor ar ddiffinio'r digwyddiad ac asesu ymddygiad unrhyw blentyn neu berson ifanc cysylltiedig er mwyn nodi unrhyw risgiau uniongyrchol. Ceir canllawiau hefyd ar edrych ar ddelweddau, eu dileu a rhoi gwybod amdanynt.

**7.10** Gall ymateb i achosion sy'n ymwneud â chyfoedion fod yn gymhleth gan y gall fod llawer o wahanol gymhellion neu resymau y tu ôl i'r ymddygiad, rhai'n fwy niweidiol nag eraill. I gydnabod y cymhlethdodau, mae modiwl hyfforddi ar-lein 'Ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth', sydd wedi'i anelu at bersonau diogelu dynodedig ac uwch reolwyr, ar gael i ategu'r canllaw *Rhannu delweddau noeth a hanner noeth*. Gall yr hyfforddiant gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion er mwyn sicrhau ymateb priodol a chymesur a datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o:

- rannu delweddau noeth a'r gyfraith
- cymhellion ac ymddygiadau
- sut i ddiffinio achosion
- ymdrin ag achosion
- cefnogi plant a phobl ifanc a'u teuluoedd
- sut i gefnogi o ran rhoi gwybod am achosion a thynnu delweddau o'r rhyngrwyd
- addysgu plant a phobl ifanc am y mater hwn.

## Heriau niweidiol feirol ar-lein a storïau celwyddog

**7.11** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai heriau feirol ar-lein a storïau celwyddog ar y cyfryngau cymdeithasol wedi achosi pryder eang am y potensial i achosi niwed difrifol. Mae'r 'Cyngor i ysgolion ar baratoi ar gyfer heriau niweidiol feirol ar-lein a storïau celwydd', ac ymateb iddynt yn rhoi cymorth i ysgolion wrth ddatblygu dull ysgol gyfan o sicrhau ymateb effeithiol sy'n cyfyngu ar ledaeniad cynnwys niweidiol ac yn lleihau'r effaith ar ddysgwyr.

**7.12** I gydnabod yr her o ran gwybod beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf am ddiogelwch gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, mae adnodd newydd – 'Bydd wybodus' – wedi'i ddatblygu ac mae ar gael ar ardal 'Cadw'n ddiogel ar-lein' Hwb. Mae'r gyfres 'Bydd wybodus' yn cynnwys gwybodaeth allweddol am yr apiau, y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'r gemau diweddaraf, gan gynnwys rhai o'r pryderon cysylltiedig o ran diogelwch a phreifatrwydd. Mae'r adnodd wedi'i ddylunio a'i greu â rhieni a gofalwyr mewn golwg yn arbennig. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, yn enwedig yng nghyd-destun ymateb i her niweidiol feirol ar-lein neu stori gelwyddog.

## Cymorth i lywodraethwyr

**7.13** Mae canllaw *Diogelwch ar-lein: Pum cwestiwn allweddol ar gyfer cyrff llywodraethu er mwyn helpu i herio ysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr*

*yn effeithiol* yn anelu at helpu cyrff llywodraethu i ymgymryd â'u dyletswyddau diogelu fel bwrdd llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys helpu ysgolion i ddarparu amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol ar gyfer dysgu, ac atal mynediad at gynnwys amhriodol neu niweidiol. Mae'r canllaw yn cynnwys pum cwestiwn allweddol, yn ogystal ag enghreifftiau o dystiolaeth i chwilio amdani, yn ôl y categorïau canlynol:

- beth i chwilio amdano
- beth yw arfer da
- pryd y dylech fod yn bryderus.

**7.14** Nod canllawiau ‘Seiberddiogelwch mewn ysgolion: cwestiynau ar gyfer cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli’ a luniwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru yw cefnogi cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli i ddeall risgiau seiberddiogelwch eu lleoliadau addysg. Mae'r canllawiau yn cynnwys wyth cwestiwn i hwyluso'r sgwrs seiberddiogelwch rhwng y corff llywodraethu ac arweinwyr ysgolion, dan arweiniad y corff llywodraethu.

## Cymorth a chefnogaeth

**7.15** Mae'r ganolfan genedlaethol ar gyfer rhoi gwybod am achosion Riportio Cynnwys Niweidiol yn cynnig ffordd o roi gwybod am gynnwys niweidiol, sef unrhyw beth ar-lein sy'n achosi gofid neu niwed i berson. Ffocws y gwasanaeth, sydd bellach ar gael yn ddwyieithog, yw rhoi cyngor am bob math o niwed ar-lein a chyfeirio defnyddwyr at y gwasanaethau cywir, gan nodi'r llwybr ar gyfer rhoi gwybod am gynnwys nad yw'n droseddol.

**7.16** Dylai arolygiadau gan Estyn a’r awdurdod lleol ddilysu gallu sefydliadau addysgol i nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, ymateb iddynt a'u datrys.

**7.17** Mae'r Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein i Weithwyr Proffesiynol yn cynnig cyngor a chymorth i unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn perthynas ag amrywiaeth o bryderon yn ymwneud â diogelwch ar-lein. Fel rhan o Ganolfan y DU ar gyfer Defnyddio’r Fewnrwyd yn Fwy Diogel, mae'r llinell gymorth yn rhoi cymorth i unrhyw aelod o'r gweithlu plant mewn perthynas â materion yn ymwneud â diogelwch ar-lein y gallant eu hwynebu eu hunain, neu y gall person ifanc yn eu gofal ddod ar eu traws. Mae hefyd yn cynnig cymorth mewn perthynas ag amrywiaeth eang o faterion ar-lein, gan gynnwys:

- enw da ar-lein
- gemau
- meithrin perthynas amhriodol
- bwlio ar-lein
- secstio
- ymddygiad amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol
- cynnwys anghyfreithlon aflonyddu ar-lein

- radicaleiddio.

**7.18** Mae Childline wedi datblygu adnodd hysbysu a dileu sy'n golygu y gall pobl ifanc roi gwybod am ddelwedd a gofyn iddi gael ei dileu o'r rhyngrwyd.

## Canllawiau pellach

**7.19** Dylai lleoliadau addysg ddilyn Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar *Ddiogelu Plant rhag cam-drin ar-lein* os bydd ganddynt bryderon yn ymwneud â cham-drin ar-lein.

**7.20** Mae canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ar gael gan Jisc. Gall rheolwyr cyfrifon Jisc hefyd ddarparu cyngor a chymorth uniongyrchol i ddarparwyr dysgu unigol os bydd angen.

# 8. Cydlyniant cymunedol

## Atal radicaleiddio

**8.1** Dylai pob lleoliad addysg greu amgylchedd diogel lle y gall plant ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol, a dysgu sut i herio'r syniadau hyn. Rydym yn disgwyl i gyfleoedd yn y cwricwlwm gael eu defnyddio i archwilio a herio'r pynciau hyn a hybu gwerthoedd democratiaeth, parchu ein gilydd, a bod yn oddefgar tuag at grefyddau a chredoau gwahanol.

**8.2** Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar amrywiaeth o awdurdodau penodedig (gan gynnwys perchnogion ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig nas cynhelir a ariennir, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion) i roi sylw dyledus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Prevent Duty Guidance: for England and Wales for specified public bodies, including education providers a Prevent duty guidance: for further education institutions in England and Wales. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff ysgolion a cholegau yn deall strategaeth Prevent a'u rôl o ran glynu wrth ddyletswydd Prevent.

**8.3** Mae canllawiau *Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol* yn nodi'r rôl sydd gan y rheini sy'n gweithio ym maes addysg wrth ddatblygu a chefnogi dulliau strategol o hybu a chynnal cydlyniant cymunedol a dileu eithafiaeth dreisgar. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys adnodd hunanasesu er mwyn helpu ysgolion i asesu eu lefelau o gydymffurfiaeth â'r arfer gorau wrth greu cymuned ddysgu ddiogel, a helpu i gadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth.

**8.4** I golegau, mae *Creating safer learning communities* yn darparu canllawiau a phecyn cymorth hunanasesu ar Prevent. Mae'r ddogfennaeth, a ddatblygwyd gan ColegauCymru ar y cyd â'r sector, yn darparu fframwaith ymarferol ar gyfer asesu cydymffurfiaeth â Prevent a chynllunio camau gweithredu.

**8.5** Ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer diogelu a Prevent ym mis Medi 2019, ac mae rhestr chwarae ar Hwb yn crynhoi'r wybodaeth allweddol am ddiogelu a gofynion Prevent.

**8.6** **Rhaid** i ysgolion a cholegau sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer nodi risgiau mewn perthynas â radicaleiddio ac eithafiaeth, a mynd i'r afael â'r risgiau hynny. Dylai'r person diogelu dynodedig ddatblygu sianeli cyfathrebu cadarn ag asiantaethau allanol priodol. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg ddeall pryd mae'n briodol codi pryder gyda pherson diogelu dynodedig, ac i'r person diogelu dynodedig wybod pryd mae'n briodol atgyfeirio achos i'r awdurdod lleol drwy'r pwynt cyswllt unigol i'r heddlu.

**8.7** Lle bo pryder am blentyn mewn perthynas ag eithafiaeth ac nad yw'r opsiynau cymorth ar gael yn lleol, bydd cynrychiolydd yr heddlu ar y bwrdd diogelu plant yn gallu trafod opsiynau cymorth.

**8.8** Mae Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru wedi cyhoeddi Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Prevent Cymru Gyfan i greu un system atgyfeirio glir ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru, er mwyn magu hyder pob awdurdod, lliniaru yn erbyn bygythiadau a lleihau risg drwy ddiogelu pobl y mae angen cymorth arnynt. Os bydd y person diogelu dynodedig yn nodi rhywun a all arddel barn eithafol neu wynebu risg o gael ei radicaleiddio, dylai ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio hon.

**8.9** Gellir rhoi gwybod am gynnwys terfysgol ar-lein a amheuir, gan gynnwys erthyglau, delweddau, areithiau neu fideos sy'n hybu terfysgaeth neu'n annog trais, neu sy'n annog pobl i gyflawni gweithredoedd terfysgol, gwefannau a grëwyd gan sefydliadau terfysgol neu eithafol a fideos o ymosodiadau gan derfysgwyr drwy'r ddolen hon.

**8.10** Wedi'i chyd-ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd, sefydlwyd The Professionals Online Safety Helpline (POSH) yn 2011 er mwyn helpu pob aelod o'r gymuned sy'n gweithio gyda phlant neu ar ran plant yn y DU, ag unrhyw faterion diogelwch ar-lein y maent yn eu hwynebu, neu y mae'r plant a'r bobl ifanc o dan eu gofal yn eu hwynebu. Felly os ydych chi'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rydym yma i'ch helpu. Gallwch hefyd gyfeirio cynnwys sy'n peri pryder yn uniongyrchol at blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol – gallwch gael gwybod sut yma.

**8.11** Dylai pob aelod o staff gael ei hyfforddi drwy raglen Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Prevent (WRAP) y Swyddfa Gartref. I gael rhagor o wybodaeth am WRAP, gallwch gysylltu â'r canlynol:

- **Ymholiadau yn ymwneud â WRAP**
- **Ymholiadau yn ymwneud ag e-ddysgu**

**8.12** Mae Estyn yn disgwyl i arolygwyr ystyried sut mae lleoliadau addysg yn cadw plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r lleoliad addysg yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 wedi cael ei hychwanegu at restr o ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodiad 6 o'r Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn ysgolion ac UCDau a'r Arweiniad atodol: arolygu diogelu mewn darpariaeth ôl-16.Mae hyn yn rhoi cefndir i ystyriaethau arolygwyr Estyn mewn perthynas ag atal radicaleiddio mewn ysgolion.

**8.13** Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnwys opsiwn drwy'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang i alluogi ysgolion yng Nghymru i fynd i'r afael â mater eithafiaeth drwy raglen a achredir gan CBAC. Diben y modiwl hwn yw meithrin sgiliau dysgwyr, gan gynnig cyfleoedd iddynt ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt ar yr un pryd (gan hwyluso sgiliau meddwl yn feirniadol, datrys problemau, creadigrwydd, ac arloesedd).

## 9. Arferion mwy diogel wrth recriwtio staff

**9.1** Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau y dylid eu dilyn i sicrhau arferion mwy diogel wrth recriwtio staff. Ei nod yw helpu pob lleoliad addysg – gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion nas cynhelir a ariennir ac ysgolion annibynnol, colegau, awdurdodau lleol ac asiantaethau cyflenwi – i adolygu a, lle y bo'n briodol, addasu eu harferion a'u gweithdrefnau mewn ffyrdd a fydd yn atgyfnerthu trefniadau diogelu drwy helpu i atal achosion o gam-drin.

**9.2** Rhaid i bob aelod o staff addysgu a staff cymorth, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ysgolion annibynnol, fod wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg. Ceir saith categori cofrestru:

- **athro ysgol** – athro sy'n meddu ar SAC ac yn gweithio mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir a ariennir. Gall fod angen cwblhau cyfnod Sefydlu statudol er mwyn cofrestru yn y categori hwn. Dysgwch fwy ar dudalennau Sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg
- **gweithiwr cymorth mewn ysgol** – yn cefnogi'r dysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir a ariennir. Yn ogystal, rhaid i athrawon dan hyfforddiant ar un o Gynlluniau Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth Llywodraeth Cymru fel y'u dynodir o dan Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012[20] gael eu cofrestru o dan y categori hwn hyd nes y dyfernir SAC iddynt
- **athro addysg bellach** – yn gweithio fel athro neu ddarlithydd mewn coleg
- **gweithiwr cymorth addysg bellach** – yn cefnogi'r dysgu mewn coleg addysg bellach
- **gweithiwr ieuenctid** – yn darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid i neu ar ran awdurdod lleol, ysgol, coleg neu sefydliad gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r categori cofrestru hwn yn amodol ar ofynion cymwysterau gorfodol
- **gweithiwr cymorth ieuenctid** – yn darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid i neu ar ran awdurdod lleol, ysgol, coleg neu sefydliad gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r categori cofrestru hwn yn amodol ar ofynion cymhwyso gorfodol
- **ymarferydd dysgu seiliedig ar waith** – yn gweithio fel hyfforddwr, asesydd, tiwtor neu fentor i neu ar ran darparwr dysgu seiliedig ar waith. Mae angen i bobl mewn rolau rheoli/arwain a staff sicrhau ansawdd gofrestru hefyd.

**9.3** Yn unol â'r fframwaith rheoli ysgolion yn lleol fel y'i hamlinellir yn Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006[21], ysgolion sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y ffordd y maent yn trefnu, recriwtio, defnyddio a rheoli eu gweithlu. Mae'r penderfyniadau hyn yn adlewyrchu amgylchiadau,

[20] www.legislation.gov.uk/wsi/2012/724/contents/made/welsh
[21] Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (gweler www.legislation.gov.uk/wsi/2006/873/contents/made/welsh)

adnoddau a blaenoriaethau unigol yr ysgol fel y nodir yn ei chynllun datblygu ysgol[22].

**9.4** Fel rhan o wiriadau cyn cyflogi, gall ysgolion, colegau ac asiantaethau cyflenwi masnachol edrych ar Gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cadarnhau bod unrhyw un sy'n perthyn i'r saith categori cofrestru wedi'i gofrestru. Os bydd person wedi'i gynnwys ar restr waharddedig gan y DBS, nid yw'n gymwys i weithio yn unrhyw un o'r saith proffesiwn cofrestredig ac ni all gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg.

**9.5** Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar y cyflogwr, yn ogystal â'r ymarferydd ei hun, i sicrhau mai dim ond ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru'n briodol a gaiff eu cyflogi yn y swydd briodol. Lle y defnyddir asiantaeth cyflenwi masnachol, mae cyfrifoldeb ar y cyflogwr e.e. ysgol, sefydliad addysg bellach a'r asiantaethau cyflenwi masnachol i gynnal y gwiriadau angenrheidiol ac ni ddylid cymryd yn ganiataol bod y llall wedi eu cynnal.

**9.6** Mae'n **arfer effeithiol** i bob cyflogwr yn y system addysg gynnal gwiriadau blynyddol ar bawb sy'n gweithio mewn ysgol neu goleg yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw newid i'w statws.

**9.7** Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi cyhoeddi canllawiau ar gofrestru athrawon ysgol a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a chanllawiau ar gofrestru athrawon addysg bellach a gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach sy'n nodi ystyriaethau allweddol i gyflogwyr wrth benderfynu a yw cofrestru yn ofynnol yn y rôl.

**9.8** Mae rheoliadau yn amodi y dylai colegau ac asiantaethau cyflenwi sicrhau bod pob athro addysg bellach sy'n darparu addysg mewn coleg neu ar ei ran wedi'i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg cyn dechrau gweithio.

## Asiantaethau cyflenwi

**9.9** Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i benaethiaid a chyrff llywodraethu ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi. Gallant eu penodi'n uniongyrchol, defnyddio rhestrau cyflenwi'r awdurdod lleol os oes rhai i'w cael, neu ddefnyddio gwasanaethau asiantaethau cyflenwi masnachol.

**9.10** Os bydd y pennaeth/corff llywodraethu mewn ysgolion a gynhelir yn defnyddio asiantaethau cyflenwi masnachol i wneud trefniadau cyflenwi, dylai fod yn ymwybodol o Gytundeb Fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol[23] ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yng Nghymru a gomisiynir ar ran awdurdodau lleol. Bydd defnyddio asiantaethau cyflenwi masnachol ar y fframwaith yn rhoi'r tawelwch meddwl i ysgolion bod safonau ansawdd gofynnol a

---

[22] Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 (gweler www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2677/contents/made)
[23] Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Darparu Fframwaith Gweithwyr Asiantaeth yn llyw.cymru/y-gwasanaethau-caffael-cymru)

rhwymedigaethau diogelu statudol wedi'u cyflawni a bod tryloywder o ran y ffioedd sy'n daladwy gan ysgolion, gan sicrhau ar yr un pryd bod athrawon cyflenwi wedi'u diogelu gan bob asiantaeth a dderbynnir i'r fframwaith. Dylai awdurdodau lleol argymell bod ysgolion yn defnyddio gwasanaethau darparwr y fframwaith, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol arnynt i wneud hynny.

**9.11** Mae'n bosibl y bydd rhai asiantaethau recriwtio yn defnyddio gwasanaeth ap a ddefnyddir i gyflogi athro cyflenwi pan fydd angen athro o'r fath mewn ysgol. Mae'r gwasanaeth ap hwn yn cysylltu athrawon cyflenwi a phenaethiaid â'i gilydd heb ddangos unrhyw duedd. Wrth ddefnyddio'r ap, dylai'r pennaeth fod yn ymwybodol ei bod yn debygol iawn mai'r ysgol fydd y cyflogwr. Felly, yr ysgol fydd yn gyfrifol am **holl** swyddogaethau'r cyflogwr a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y swyddogaethau hynny'n cael eu cyflawni'n gywir.

## Yr hyn y dylai staff ysgol neu goleg ei wneud os bydd ganddynt bryderon am arferion diogelu yn yr ysgol neu'r coleg

**9.12** **Dylai** fod gan gyrff llywodraethu weithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban. Dylai pob aelod o staff allu codi pryderon ynglŷn ag ymddygiad neu ymarfer yn yr ysgol a allai fod yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn anniogel neu'n anfoesol, neu sy'n gyfystyr â chamymddwyn. Dylai allu gwneud hynny heb fod ag ofn erledigaeth a chyda hyder y caiff ei bryderon eu cymryd o ddifrif ac yr ymdrinnir yn briodol â nhw – gweler y Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol.

**9.13** Dylai pob aelod o staff a gwirfoddolwr deimlo y gall godi pryderon ynglŷn ag ymarfer gwael neu anniogel a methiannau posibl yn system ddiogelu'r ysgol neu'r coleg, a gwybod y bydd yr uwch dîm arwain yn cymryd pryderon o'r fath o ddifrif.

**9.14** Dylid rhoi gweithdrefnau priodol ar gyfer chwythu'r chwiban ar waith er mwyn codi pryderon o'r fath gyda'r uwch dîm arwain. Os bydd aelod o staff yn teimlo'n anniogel yn codi mater gyda'i gyflogwr, neu'n teimlo nad yw ei gyflogwr yn mynd i'r afael â'i bryderon dilys, gall sianeli eraill ar gyfer chwythu'r chwiban fod ar gael iddo, gan gynnwys y canlynol.

**9.15** Mae llinell gymorth chwythu'r chwiban yr NSPCC ar gael fel llwybr amgen i staff nad ydynt yn teimlo y gallant godi pryderon ynglŷn â methiannau o ran amddiffyn plant yn fewnol, neu sydd â phryderon ynglŷn â'r ffordd y mae eu hysgol neu goleg yn ymdrin â phryder. Gall staff ffonio 0800 028 0285 neu e-bostio.

## Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

**9.16** Mae'r DBS yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau mwy diogel wrth recriwtio ac yn helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant, drwy wirio cofnodion troseddol a thrwy ei swyddogaethau gwahardd.

**9.17** Mae'r adran hon yn grynodeb o'r materion allweddol yr eir i'r afael â nhw drwy'r DBS yn unol â Deddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae canllawiau manwl, cynhwysfawr a chyfredol ar weithrediad y DBS i'w cael ar wefan y DBS.

**9.18** Mae cynnal gwiriadau cyn cyflogi yn gam ataliol allweddol i leihau’r posibilrwydd y bydd plant yn dioddef niwed gan bobl sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth. Fodd bynnag, nid yw ond yn un o’r elfennau pwysig yn y broses recriwtio a rhaid ei ystyried ochr yn ochr ag agweddau allweddol eraill.

**9.19** Dylai ysgolion a cholegau sicrhau bod unrhyw gontractwr, neu unrhyw un o gyflogeion y contractwr, a fydd yn gweithio yn yr ysgol neu'r coleg, wedi cael ei wirio gan y DBS ar y lefel briodol.

**9.20** Cyn eu derbyn i raglenni AGA, rhaid i Bartneriaethau AGA ddilysu ymgeiswyr AGA er mwyn sicrhau nad oes cefndir troseddol ganddynt a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu bobl ifanc agored i niwed, neu fel ymarferydd addysg; a sicrhau nad yw athrawon dan hyfforddiant wedi cael eu gwahardd na'u heithrio rhag addysgu neu weithio gyda dysgwyr yn y gorffennol.

**9.21** Ni ddylai contractwr, nad oes gwiriadau wedi cael eu cynnal ar ei gyfer, gael gweithio heb oruchwyliaeth, na chymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir, ar unrhyw gyfrif[24]. Lleoliadau addysg sy'n gyfrifol am bennu'r lefel briodol o oruchwyliaeth gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Dylai ysgolion a cholegau bob amser gadarnhau pwy yw'r contractwyr a'u staff pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol neu'r coleg.

**9.22** Mae adnodd cymhwysedd y DBS, sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, yn rhoi cyngor ar bennu'r math o wiriad DBS sy'n berthnasol i gyflogeion. Gellir defnyddio'r adnodd i gael gwybod pa rolau neu weithgareddau a allai fod yn gymwys ar gyfer gwiriad sylfaenol, safonol neu fanylach gan y DBS.

[24]Ceir canllawiau ar weithgarwch a reoleiddir yn www.gov.uk/government/publications/supervision-of-activity-with-children

# Atodiad 1: Polisi diogelu enghreifftiol

## Polisi diogelu ar gyfer (enw'r ysgol/coleg/lleoliad addysg)

### 1. Cyflwyniad

Mae *[enw’r Ysgol/Coleg/lleoliad addysg]* yn cydnabod yn llawn ei chyfraniad/ei gyfraniad at ddiogelu.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- atal drwy'r diwylliant, yr addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i'r dysgwyr
- gweithdrefnau ar gyfer nodi achosion, neu achosion a amheuir, o gam-drin a rhoi gwybod amdanynt – oherwydd ein cyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae ein staff mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth
- cymorth i ddysgwyr sydd o bosibl wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi yn gymwys i **bob** aelod o staff a gwirfoddolwr sy’n gweithio yn y lleoliad addysg ac i'r llywodraethwyr. Gall plant wneud datgeliadau yn gyntaf i gynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon.

### 2. Atal

Rydym yn cydnabod bod lefelau uchel o hunan-barch, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu dysgwyr.

Felly bydd yr ysgol yn gwneud y canlynol:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, ac yn cael eu clywed
- sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn y lleoliad addysg y gallant siarad â nhw os ydynt yn pryderu neu'n wynebu anawsterau
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb sy'n sicrhau bod plant yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel rhag cael eu cam-drin a'u bod yn gwybod at bwy y gallant droi am gymorth
- cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i feithrin agweddau realistig at gyfrifoldebau oedolion, yn enwedig yng nghyswllt sgiliau gofal plant a rhianta
- meithrin cydberthnasau ag asiantaethau eraill a sicrhau y gwneir atgyfeiriadau cynnar a phriodol ar gyfer cymorth ac ymyriadau cyn i'r risgiau waethygu
- defnyddio dull gweithredu ysgol gyfan (lleoliad cyfan) mewn perthynas â llesiant a fydd yn cynnwys mesurau diogelu a mesurau ataliol i gefnogi plant a theuluoedd.

## 3. Gweithdrefnau

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi cael eu cymeradwyo gan fyrddau diogelu plant. Bydd yr ysgol/coleg yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod ganddi/ganddo berson diogelu dynodedig ar gyfer diogelu sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol
- cydnabod rôl y person diogelu dynodedig a threfnu cymorth a hyfforddiant [mae'n bosibl y bydd lleoliadau addysg am sôn am yr hyfforddiant ychwanegol a wnaed gan y person diogelu dynodedig]
- sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
    - enw a rôl y person diogelu dynodedig, person cyswllt yr awdurdod lleol, a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu
    - bod ganddo gyfrifoldeb unigol am roi gwybod am blant sy'n wynebu risg a phryderon ynglŷn ag amddiffyn i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
    - sut i weithredu ar y pryderon hynny os nad yw'r person diogelu dynodedig ar gael

- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus o arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod, ac yn gwybod sut i ymateb i ddysgwr sy'n datgelu ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso o bosibl

- sicrhau bod aelodau o staff sydd wedi'u cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn ymwybodol o'r *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg* a'r disgwyliad yn y Cod bod y sawl sydd wedi'i gofrestru yn rhoi sylw i ddiogelwch a llesiant dysgwyr yn ei ofal, a chynnwys cysylltiedig

- sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall y cyfrifoldeb a roddir ar yr ysgol/coleg/lleoliad addysg a'r staff am ddiogelu ac amddiffyn plant drwy nodi ei rhwymedigaethau/ei rwymedigaethau yn llyfryn yr ysgol

- darparu hyfforddiant i'r holl staff er mwyn sicrhau eu bod yn:
    - deall eu cyfrifoldeb personol
    - ymwybodol o'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb
    - ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeuluso
    - gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu achos o gam-drin neu esgeulustod
    - deall y rhan y gall ymddygiad ar-lein ei chwarae yn yr holl agweddau uchod

- hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol:
    - os bydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd o'r ysgol am gyfnod penodol neu'n barhaol
    - os bydd dysgwr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am gyfnod o fwy na deuddydd (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos)

- gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithredu fel y bo angen â'u hymholiadau mewn perthynas â materion yn ymwneud ag amddiffyn plant, gan gynnwys bod yn bresennol yn yr adolygiad cychwynnol yn ogystal â mewn cynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau

- cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed os nad oes angen atgyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol ar unwaith

- sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo

- glynu wrth y gweithdrefnau a nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru, *Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethu*

- sicrhau y caiff gweithdrefnau recriwtio a dethol eu gwneud yn unol â chanllawiau *Cadw dysgwyr yn ddiogel* Llywodraeth Cymru

- enwi llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwylio polisi ac ymarfer yr ysgol/coleg mewn perthynas ag amddiffyn plant.

## 4. Cefnogi'r rheini sy'n wynebu risg

Rydym yn cydnabod y gall plant/pobl ifanc sy'n wynebu risg, sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dioddef trais deimlo effaith ddwys o ganlyniad i hyn.

Mae'n bosibl mai'r ysgol hon/coleg hwn/lleoliad addysg hwn fydd yr unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywyd plant sy'n wynebu risg. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol/coleg/lleoliad addysg, mae'n bosibl y bydd eu hymddygiad yn heriol ac yn herfeiddiol neu y byddant yn mynd i'w cragen.

Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r dysgwr drwy'r canlynol:

- deunydd a gaiff ei gynnwys yn y cwricwlwm i hybu hunan-barch a hunangymhelliant
- ethos yr ysgol/coleg a fydd:
  - yn hybu amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
  - yn ennyn ymdeimlad ymhlith dysgwyr eu bod yn cael eu gwerthfawrogi (gweler adran 2 ar Atal)

- polisi ymddygiad yr ysgol/coleg/lleoliad addysg, sydd â'r nod o gefnogi disgyblion agored i niwed yn yr ysgol/coleg. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson o weithredu sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn ond nad yw'n amharu ar ymdeimlad yr unigolyn o hunanwerth. Bydd yr ysgol/coleg/lleoliad addysg yn ceisio sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac na fydd yn cael ei feio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd

- cydgysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr, fel swyddogion yr awdurdod lleol – er enghraifft, y gwasanaeth seicoleg addysg, y gwasanaethau cymorth ymddygiad neu'r Gwasanaeth Lles Addysg – gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a gwasanaethau eirioli

- cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto.

Pan fydd dysgwr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ymadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol.

## 5. Gwrth-fwlio

Mae ein polisi gwrth-fwlio wedi'i nodi [*mewn dogfen ar wahân/ym mholisi'r ysgol/coleg/lleoliad addysg ar ymddygiad]* ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn gan y corff llywodraethu.

## 6. Ymyriad corfforol

Mae ein polisi ar ymyriad corfforol wedi'i nodi [*mewn dogfen ar wahân]* ac mae'n cael ei adolygu bob blwyddyn gan y corff llywodraethu. Mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar *Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau*.

## 7. Plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Rydym yn cydnabod, yn ystadegol, mai plant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu cam-drin. Mae angen i staff sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, fel anabledd dwys a lluosog, nam ar y synhwyrau neu broblem emosiynol ac ymddygiadol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

## Atodiad 2: Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Addysg heblaw yn yr ysgol** | Darpariaeth addysg i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant fynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig am ba reswm bynnag yw addysg heblaw yn yr ysgol. Yn ôl y gyfraith, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn. |
| **Amddiffyn plant** | Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hybu llesiant. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgarwch a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sy'n wynebu risg o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod. |
| **Coleg** | Colegau addysg bellach a cholegau chweched dosbarth fel y'u sefydlwyd yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a sefydliadau y dynodwyd eu bod yn y sector addysg bellach. |
| **Cosb gorfforol** | Nid yw’n bosibl rhoi rhestr benodol o’r hyn sy’n cyfrif fel cosb gorfforol oherwydd gall fod yn unrhyw beth pan fo plentyn yn cael ei gosbi gan ddefnyddio grym corfforol. Mewn cyfraith, caiff cosbi plentyn yn gorfforol ei ystyried yn ymosodiad cyffredin. Yn Neddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ystyr cosb gorfforol yw unrhyw guro (yn yr ystyr sydd i “battery” yn y gyfraith gyffredin) a wneir fel cosb ac y cyfeirir ato fel “cosb gorfforol”. |
| **Datblygiad** | Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol. |
| **Diogelu** | Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu pobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. |
| **Dysgu seiliedig ar waith** | Mae dysgu seiliedig ar waith yn cynnwys prentisiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.<br><br>At ddibenion y canllawiau hyn, dylai rhaglenni dysgu galwedigaethol a/neu raglenni cymorth a ariennir yn rhannol drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd gael eu trin fel rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. |
| **Esgeulustod** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio esgeulustod fel “methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy’n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn)”. |
| **Hybu llesiant plant** | Mae dyletswydd gyffredinol i geisio hybu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a |

| | |
|---|---|
| | Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio llesiant (well-being) yng nghyd-destun unrhyw o'r canlynol—<br><br>a. iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol<br>b. amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod<br>c. addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden<br>d. perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol<br>e. cyfraniad a wneir at y gymdeithas<br>f. sicrhau hawliau a hawlogaethau<br>g. llesiant cymdeithasol ac economaidd<br>h. addasrwydd llety preswyl.<br><br>O ran plentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys—<br><br>a. datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol<br>"lles" (welfare) fel y dehonglir y gair hwnnw at ddiben Deddf Plant 1989. |
| **Iechyd** | Iechyd corfforol neu iechyd meddwl. |
| **Lleoliad addysg** | Pob ysgol a choleg fel y'u diffinnir yn y rhestr hon, yn ogystal â phob lleoliad addysg arall gan gynnwys lleoliadau blynyddoedd cynnar nas cynhelir a ariennir a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. |
| **Llesiant** | Mae diffiniad adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o lesiant yn cynnwys "lles" fel y diffinnir y term Saesneg cyfatebol "welfare" at ddibenion Deddf Plant 1989. |
| **Plant sy'n wynebu risg** | Yn ôl diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ystyr "plentyn sy'n wynebu risg" yw plentyn:<br><br>a) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed; a<br>b) y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio). |
| **Plentyn** | Yn ôl diffiniad Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ac adran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ystyr plentyn yw person o dan 18 oed. |
| **Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** | Profiadau trawmatig sy'n digwydd cyn 18 oed ac sy'n cael eu cofio gydol oes yw profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Maent yn cynnwys cam-drin plant megis cam-drin corfforol, rhywiol a geiriol ac esgeulustod, a phrofiadau ehangach o gamweithrediad y cartref, megis tyfu i fyny mewn cartref y mae trais domestig, rhieni'n gwahanu, defnyddio alcohol a chyffuriau, salwch meddwl neu rieni/gofalwyr yn y carchar wedi effeithio arno. |
| **Niwed** | Cam-drin neu niweidio iechyd neu ddatblygiad gan gynnwys, er enghraifft, niwed a ddioddefir wrth weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. |

| | |
|---|---|
| **Niwed sylweddol** | Mae Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989 yn datgan “where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child’s health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child”. |
| **Uned cyfeirio disgyblion** | Math o ysgol a sefydlwyd gan awdurdod lleol yw uned cyfeirio disgyblion, ac mae dyletswydd arni i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc na fyddant yn cael addysg o'r fath mewn ysgol brif ffrwd o bosibl, oherwydd salwch, am eu bod wedi'u gwahardd o'r ysgol, neu am reswm arall. |
| **Ysgol** | Pob ysgol gan gynnwys ysgolion a gynhelir, ysgolion nas cynhelir a ariennir ac ysgolion annibynnol, ysgolion meithrin a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion.<br><br>Mae diffiniad Deddf Addysg 2002 o swyddogaethau ysgol mewn perthynas ag awdurdod addysg lleol yn golygu swyddogaethau mewn perthynas â'r canlynol:<br><br>(a) ysgolion a gynhelir,<br>(b) unedau cyfeirio disgyblion, neu<br>(c) ddarparu addysg i blant o oedran ysgol gorfodol heblaw yn yr ysgol. |

# Atodiad 3: Adnodd archwilio trefniadau diogelu

Diben yr adnodd archwilio trefniadau diogelu hwn yw helpu pob lleoliad addysg i adolygu ei drefniadau diogelu. Bwriedir i'r adnodd archwilio helpu lleoliadau addysg i nodi cryfderau a gwendidau yn eu trefniadau diogelu, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â chanllawiau statudol *Cadw dysgwyr yn ddiogel*. Gellir addasu'r adnodd hwn ar gyfer gwahanol fathau o leoliadau addysg fel y bo'n briodol, ac mae'n bosibl y bydd y pecyn cymorth dysgu seiliedig ar waith yn fwy addas ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

## Beth yw diogelu ac amddiffyn plant?

Yng nghyd-destun yr adnodd archwilio hwn, caiff diogelu ei roi ar waith er mwyn hybu llesiant plant. Ystyr diogelu yw:

- amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a dioddef mathau eraill o niwed
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau y caiff plant ofal diogel ac effeithiol
- gweithredu er mwyn galluogi plant i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Mae amddiffyn plant yn rhan o broses ddiogelu. Mae'n canolbwyntio ar amddiffyn plant unigol y nodwyd eu bod yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'n dioddef mathau eraill o niwed, neu blant unigol sy'n debygol o ddioddef profiadau o'r fath.

Mae dyletswyddau statudol ar bob lleoliad addysg i weithredu mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu llesiant dysgwyr. Wrth adolygu trefniadau diogelu, dylai lleoliadau addysg ystyried eu heffeithiolrwydd wrth wneud y canlynol:

- creu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i ddysgwyr
- nodi lle ceir pryderon ynghylch llesiant a chymryd camau i ymdrin â'r pryderon hyn, lle y bo’n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- meithrin dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch dysgwyr drwy'r cwricwlwm.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen systemau penodol ar gyfer bwrw ati'n gadarn i wneud y canlynol:

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda dysgwyr
- hybu ymarfer diogel a herio ymarfer gwael ac anniogel
- nodi achosion sy'n peri pryder am lesiant dysgwr yn deillio o sefyllfa yn y cartref, y gymuned, yr ysgol neu'r coleg, a dechrau neu gymryd camau priodol i'w gadw'n ddiogel
- cyfrannu at waith partneriaeth effeithiol gan bawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i ddysgwyr.

## Sut i ddefnyddio'r adnodd archwilio hwn

**Ni ddylid** defnyddio'r adnodd archwilio fel rhestr wirio, ond yn hytrach i gefnogi dull gweithredu lleoliad addysg cyfan mewn perthynas â diogelu ac i ddarparu meincnod y gellir gweithio yn ei erbyn er mwyn datblygu a gwella'n barhaus. Rhaid i drefniadau diogelu effeithiol ganolbwyntio ar ethos, cymeriad a diwylliant lleoliad addysg, yn hytrach nag unrhyw gyfres gyfyngedig o gamau gweithredu neu bolisïau. Mae'r adnodd archwilio yn annog lleoliadau addysg i wneud mwy na dim ond cadarnhau bod polisi ar waith, er enghraifft, i fynd ati i adolygu effaith y polisi. Dylai'r person diogelu dynodedig ar gyfer amddiffyn plant gefnogi dull diogelu'r lleoliad addysg. Mae gan bawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg a ddaw i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd, rôl i'w chwarae o ran diogelu plant, p'un a gânt eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu fel arall. Maent yn rhan o'r system ddiogelu ehangach ar gyfer plant ac maent mewn sefyllfa i nodi pryderon yn gynnar a rhoi cymorth i blant er mwyn atal materion rhag gwaethygu. Mae'r adnodd archwilio hwn yn ceisio helpu lleoliadau addysg i hybu'r ethos hwn.

Bwriedir i'r adnodd archwilio gael ei ddefnyddio fel enghraifft, y gellir adolygu'r trefniadau diogelu cyfredol mewn lleoliadau addysg yn ei erbyn. Mae'n bosibl bod gan eich lleoliad addysg adnodd asesu eisoes sy'n gwella ac yn cefnogi'r gwaith hwn ac sy'n eich helpu i archwilio dull gweithredu'r lleoliad addysg. Ar hyn o bryd, ni ddisgwylir i chi ddyblygu eich gwaith asesu ac ni ddisgwylir i'r adnodd hwn gael blaenoriaeth dros eich dull gweithredu presennol. Yn syml, mae'n cynnig opsiwn cadarn i chi sydd wedi'i brofi'n helaeth ac sy'n gyson â disgwyliadau Estyn cyn arolygiad.

Datblygwyd yr adnodd gyda mewnbwn gan Estyn, ac mae'n bodloni'r gofynion a ddisgwylir gan Estyn, ond ni fwriedir iddo gael ei gwblhau at ddibenion arolygu yn unig. Dylai'r adnodd ddarparu asesiad parhaus o effeithiolrwydd trefniadau diogelu lleoliad addysg.

Mae'r adnodd archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r lleoliad addysg gasglu tystiolaeth, gan gynnwys sgwrsio â dysgwyr a'u teuluoedd, trafod trefniadau diogelu â staff yn y lleoliad addysg ac adolygu digwyddiadau diogelu er mwyn dysgu beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei ddatblygu. Dylai'r broses fod yn barhaus, er mwyn sicrhau trefniadau cyson ar gyfer myfyrio, dysgu a diweddaru prosesau. Gallwch naill ai ddefnyddio'r adnodd archwilio hwn fel rhan o broses adolygu cymheiriaid neu er mwyn cynnal hunanasesiad. Mae'r adnodd yn annog dull adolygu cymheiriaid, lle mae lleoliadau addysg yn cynnig cymorth 'ffrind beirniadol' i'w gilydd. Mae gofyn i rywun o'r tu allan i'r lleoliad addysg ddod i gynnal yr archwiliad yn cynnig safbwynt annibynnol gwerthfawr a all wella arferion effeithiol a thynnu sylw at fylchau.

Yn ogystal â chadarnhau a oes gennych bolisïau ac arferion diogelu cadarn ar waith, mae'r adnodd yn gofyn i chi lunio barnau proffesiynol o ran pa mor effeithiol a chynhwysfawr yw'r polisïau a'r arferion hynny. Er mwyn llunio'r barnau hynny, bydd angen i chi gasglu tystiolaeth, gan gynnwys sgwrsio â dysgwyr, cydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr.
Nod y daflen grynodeb ar y dechrau yw eich galluogi i roi trosolwg cyflym o gryfderau a gwendidau'r lleoliad addysg mewn perthynas â diogelu i staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr, a bydd y dudalen camau gweithredu yn dangos iddynt pa gamau sydd ar waith i adeiladu ar y cryfderau ac ymdrin â'r gwendidau.

**Ysgrifennwyd y nodiadau canllaw isod yn unol â *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*.**

## 1. Pa mor ddiogel y mae'r dysgwyr yn teimlo?

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi bod gan blant yr hawl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed, a'r hawl i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau. Yn unol â CCUHP, y ffordd orau o ddeall i ba raddau y mae lleoliad addysg yn teimlo'n ddiogel i ddysgwyr yw gofyn iddynt ac arsylwi ar y ffordd y maent yn rhyngweithio â staff. Mae cydberthynas gadarnhaol rhwng dysgwyr a staff yn darparu tystiolaeth bod staff yn gyfeillgar ac yn gadarnhaol am y lleoliad addysg, ac y gall dysgwyr siarad yn hyderus yn y lleoliad addysg, gan deimlo bod y staff yn gwrando arnynt.

Mae awyrgylch cyffredinol y lleoliad addysg hefyd yn arwydd da o ba mor ddiogel y mae pobl yn teimlo. Mae'r math o dystiolaeth a all helpu i lunio eich barn yn cynnwys yr amgylchedd ffisegol a'r protocolau ar gyfer ymwelwyr, ond nid yw'r mesurau hyn ar eu pen eu hunain yn ddigon i gyfiawnhau ymdeimlad o ddiogelwch. Dylai adolygwyr ystyried sut mae ethos ac awyrgylch y lleoliad addysg yn dangos diwylliant diogelu a lefel o ofal tuag at bob dysgwr.

Yn yr un modd, ni ddylai lleoliadau addysg gymryd yn ganiataol y gall eu dysgwyr gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Dylid rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith ar y safle er mwyn sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel a bod rhieni/gofalwyr yn teimlo'n hyderus bod camau priodol wedi'u cymryd.

## 2. Pa mor effeithiol rydych chi’n cyfathrebu materion a pholisïau diogelu?

Mae cyfathrebu effeithiol, yn ei hanfod, yn golygu cyfnewid gwybodaeth sy'n caniatáu i bawb sy'n rhan o'r broses wrando ar ei gilydd a dysgu am ei gilydd. Felly, mae'n golygu mwy na gwybod bod polisïau ar gael i'r staff neu eu bod wedi darllen y polisïau hynny. Mae'n bwysig cadarnhau bod dysgwyr, a'r rheini a ddaw i gysylltiad â nhw, yn deall diben rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu a hybu llesiant dysgwyr. Mae hefyd yn ddefnyddiol asesu i ba raddau y maent yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu gwybodaeth, er enghraifft, drwy adolygu gohebiaeth ddiweddar.

Mae'n bwysig bod yr holl ddysgwyr, rhieni, staff asiantaeth, staff cymorth a Llywodraethwyr yn ymwybodol o bolisi diogelu'r lleoliad addysg, a bod y polisi yn nodi arferion diogel i bawb sy'n ymwneud â'r lleoliad addysg. Os bydd dysgwyr, rhieni, gofalwyr a staff oll yn deall beth yw sefyllfa anniogel ac yn ymwybodol o'r hyn y byddai angen iddynt ei wneud er mwyn cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, a beth i'w wneud os bydd ganddynt bryder, mae hynny'n awgrymu bod trefniadau cyfathrebu effeithiol ar waith. Mae'n bwysig cadarnhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat ac mewn iaith sy'n hygyrch ac yn hawdd i'w deall gan bob un sy'n defnyddio'r lleoliad addysg, a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei hadolygu a’i diweddaru yn rheolaidd.

Gall lleoliadau addysg hefyd alluogi rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i gymryd rhan wrth ddatblygu polisïau, drwy ddulliau ymgynghori yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. Dylai'r gymuned gyfan hefyd fod yn ymwybodol o hawliau dynol plant fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

## 3. Pa mor effeithiol yw eich dull diogelu?

Mae'r adran hon yn gofyn i chi adolygu dull diogelu'r lleoliad addysg a'i allu i reoli pryder diogelu yn effeithiol. Mae'n cynnwys adolygu i ba raddau y mae aelodau o staff yn hyderus wrth nodi arwyddion o gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed, a'u dealltwriaeth o'r camau i'w cymryd mewn ymateb a'r angen i weithredu'n gyflym. Nid mater o ddilyn rhestr wirio o faterion a symptomau mohono, ond yn hytrach, mater o asesu i ba raddau y mae pobl yn hyderus ynghylch diogelu dysgwyr, eu hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd i ddysgwyr unigol ac i ba raddau y mae sianeli cyfathrebu yn agored. Gall adolygu digwyddiadau diweddar helpu, gan edrych faint o amser a gymerodd cyn codi pryder, beth a ddigwyddodd, pa gamau a gymerwyd a pha mor gyflym, a beth oedd y canlyniad.

Dylid casglu digwyddiadau a'u cofnodi'n systemataidd er mwyn sicrhau bod y broses yn hygyrch i bob aelod o staff, gan gynnwys cofnod o'r pryderon (er mwyn i bobl allu nodi pryderon lluosog am unigolyn, er enghraifft), y camau a gymerwyd a'r canlyniadau. Dylid gweithredu mewn ffordd gyson wrth nodi a rheoli digwyddiadau ym mhob rhan o'r lleoliad addysg. Yn arbennig, dylid sicrhau bod cofnodion ar gyfer plant y nodwyd eu bod yn wynebu risg yn gyfredol ac o ansawdd uchel.

Dylid cadarnhau a oes dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws y lleoliad addysg mewn perthynas â chynllunio a darparu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Dylai'r dull mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb fod yn rhagweithiol wrth helpu dysgwyr i fod yn ymwybodol o risgiau i'w llesiant a'u diogelwch. Dylai'r cwricwlwm ategu polisïau presennol yn y lleoliad addysg ar faterion pwysig a darparu digon o wybodaeth am reoli risg, e.e. mewn perthynas ag addysg cydberthynas a rhywioldeb, addysg ar gyffuriau, alcohol a thybaco, atal damweiniau, gwrth-fwlio, diogelwch ar-lein, eithafiaeth a radicaleiddio. Bydd casglu tystiolaeth ar sut y caiff y materion hyn eu hystyried yn helpu i asesu effeithiolrwydd dull diogelu'r lleoliad addysg. Mae hefyd yn bwysig adolygu dull gweithredu'r lleoliad addysg mewn perthynas ag ymyriadau corfforol.

## 4. Pa mor gadarn yw eich arferion diogelu?

Mae arferion diogelu cadarn yn cynnwys dulliau gweithredu lleoliad addysg cyfan sy'n sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu, a'r ffocws penodol sy'n gysylltiedig ag enwi unigolion i fod yn gyfrifol am sicrhau y caiff polisïau ac arferion diogelu eu rhoi ar waith. Dylid penodi person diogelu dynodedig i fod yn gyfrifol am ddiogelu yn y lleoliad addysg, a dylid sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r person hwnnw.

Dylai pob aelod o staff fod yn gymwys a theimlo'n hyderus wrth weithredu'r protocolau ar gyfer rheoli digwyddiadau ac ymdrin â datgeliadau yn ddiogel. Dylai gweithdrefnau diogelu fod yn rhan o brosesau goruchwylio a rheoli. Dylai staff deimlo eu bod yn cael

eu cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am ddiogelu, gan wybod y caiff unrhyw bryderon a godir ganddynt eu cymryd o ddifrif, ac y bydd uwch-reolwyr yn eu cefnogi os bydd angen.

Dylai'r person diogelu dynodedig fod yn ymwybodol o hyfforddiant priodol a chael amser i ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw. Dylai pob aelod o staff sy'n gweithio gyda dysgwyr (gan gynnwys staff dros dro, staff peripatetig a staff asiantaeth) fod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu a bod wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dylid cofnodi a diweddaru unrhyw hyfforddiant ac asesiadau staff yn briodol. Mae hefyd yn bwysig bod llywodraethwyr neu aelodau bwrdd yn gwybod digon am ddiogelu i allu herio arferion diogelu'r lleoliad addysg yn ddigonol a bodloni eu hunain bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn, yn enwedig o ran gweithredu a recriwtio.

## 5. Pa mor effeithiol rydych chi'n gweithio gydag eraill i ddiogelu plant?

Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau wedi'u hanelu at helpu i hybu arweinyddiaeth a chydweithrediad rhyngasiantaeth mwy effeithiol a sicrhau bod pob asiantaeth yn rhoi digon o flaenoriaeth i ddiogelu. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan hefyd yn pwysleisio bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, ac na all un asiantaeth yn gweithio ar ei phen ei hun ddiogelu plant yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau yn egluro sut y dylai unigolion ac asiantaethau gyfathrebu a chydweithio mewn partneriaeth er mwyn nodi achosion a chadw plant yn ddiogel.

Dylai'r lleoliad addysg allu dangos cofnodion clir gydag enwau unrhyw aelod o staff neu asiantaethau allanol y mae'r person diogelu dynodedig wedi rhannu gwybodaeth â nhw, pa wybodaeth a rannwyd a'r rhesymeg dros wneud hynny. Mae angen i'r person diogelu dynodedig sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall bod angen i'r lleoliad addysg rannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill lle ceir pryderon ynghylch llesiant plentyn.

Wrth gomisiynu gwasanaeth gan sefydliad arall, dylid rhoi systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gan y sefydliadau hyn bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac amddiffyn plant.

## Casglu tystiolaeth i lywio eich barnau

Mae'r adran hon yn darparu rhai enghreifftiau o sut y gallech lunio eich barnau a'r dystiolaeth y gallwch ei chasglu i'w hategu. Ni fwriedir iddi gael ei defnyddio fel rhestr wirio; ond yn hytrach i'ch annog i nodi'r hyn rydych chi'n ei wneud, a beth yn rhagor y gallech chi ei wneud.

| **Adran 1** |
|---|
| **I ba raddau y mae'r lleoliad addysg yn teimlo'n ddiogel?**<br>**Mae'r dystiolaeth yn cynnwys:**<br>• holiaduron dysgwyr/rhieni/gofalwyr, trafodaethau, blychau awgrymiadau, sesiynau cyngor yr ysgol/cyngor myfyrwyr, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr<br>• rhestr wirio diogelwch y safle a sut y caiff ei defnyddio (e.e. a ofynnir i bob ymwelydd lofnodi pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael? A ofynnir i ymwelwyr wisgo bathodyn? A ofynnir am brawf adnabod drwy lun?)<br>• gwrando ar oruchwylwyr amser egwyl ac amser cinio<br>• systemau monitro a gwerthuso er mwyn canfod i ba raddau y mae dysgwyr yn cadw'n ddiogel, yn mabwysiadu arferion diogel a chyfrifol ac yn ymdrin yn synhwyrol â risg<br>• sut y caiff risg ei rheoli yn y lleoliad addysg (e.e. drwy drafodaethau, asesiadau risg, chwarae rôl ac ymarferion sgiliau) a pha wahaniaeth y mae hyn yn ei wneud<br>• asesiadau risg o ddarpariaeth allanol<br>• rhaglenni cyfryngu rhwng cyfoedion a/neu gyfeillio a'u heffaith<br>• hapwiriadau â dysgwyr er mwyn gweld a ydynt yn hyderus eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar oedolyn dibynadwy os bydd ganddynt unrhyw bryderon<br>• adroddiadau/cofnodion ar sut mae'r lleoliad addysg yn gweithredu mewn perthynas â phryderon a godir gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr neu bobl eraill (gan gynnwys adborth gan y rheini sydd wedi codi pryderon)<br>• technegau cyfranogol wyneb-yn-wyneb er mwyn cael gwybod am brofiadau plant a phobl ifanc, e.e. hwyluso gweithgaredd mapio yn yr ysgol neu weithgaredd mapio cymunedol â phobl ifanc er mwyn canfod ble maent yn teimlo'n ddiogel a ble y ceir risg, yn eu barn nhw. |

| Adran 2 |
| --- |
| **Pa mor effeithiol rydych chi'n cyfathrebu materion a pholisïau diogelu?**<br>**Mae'r dystiolaeth yn cynnwys:**<br>• arolwg/cwestiynau i staff, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr ar ymwybyddiaeth o bolisïau a dulliau diogelu<br>• cynnwys y cwricwlwm (e.e. mewn ABCh ac addysg cydberthynas a rhywioldeb)<br>• posteri wedi'u harddangos yn ymwneud â themâu diogelu ac amddiffyn plant ac yn dangos rhifau ar gyfer llinellau cymorth (e.e. ar gyfer asiantaethau allanol) a pha mor ddefnyddiol ydynt yn ôl dysgwyr<br>• yr hyfforddiant, y cyngor a'r arweiniad a roddir i ddysgwyr ar gamfanteisio ar-lein (gan gynnwys camfanteisio masnachol a rhywiol) a'u heffaith<br>• gwasanaethau, trafodaethau dosbarth etc., lle yr ymdriniwyd â materion sy'n ymwneud â diogelu, e.e. bwlio, bwlio LGBT, camddefnyddio sylweddau, camfanteisio'n rhywiol ar blant, camfanteisio troseddol ar blant, diogelwch ar-lein, absenoldeb, chwarae triwant, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal radicaleiddio, eithafiaeth etc., a barn dysgwyr amdanynt<br>• cofnodion mentrau a gweithgareddau hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth a'u heffaith, gan gynnwys cynlluniau gwersi, nodiadau gwasanaethau a chofnodion amser cylch<br>• system adrodd a gweithredu glir a hygyrch ar gyfer codi pryderon diogelu a chymryd camau ynghylch y pryderon hynny ac i ba raddau y caiff systemau o'r fath eu defnyddio'n effeithiol<br>• cofnodion o gyfarfodydd staff lle y trafodwyd materion diogelu<br>• cofnodion o gyfarfodydd cynghorau ysgol/myfyrwyr lle y codwyd materion diogelu<br>• copïau o gylchlythyrau/cynnwys ar gyfer y wefan |

- llythyrau/gohebiaeth â rhieni/gofalwyr
- cofnodion cyfarfodydd â rhieni/gofalwyr.

**Adran 3**

**Pa mor effeithiol yw eich dull diogelu?**

**Mae’r dystiolaeth yn cynnwys:**

- cofnodion o bryderon a godwyd a'r camau gweithredu a gymerwyd
- gofyn i ddysgwyr gyda phwy y byddent yn siarad pe byddai ganddynt bryderon a pha bryderon y maent wedi'u codi/y byddent yn eu codi
- gwrando ar ddysgwyr sy'n agored i niwed (e.e. plant a fu mewn gofal, plant â chynllun gofal a chymorth, gofalwyr ifanc, plant ag anghenion dysgu ychwanegol) a dysgwyr sydd wedi dioddef camdriniaeth er mwyn clywed i ba raddau y maent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth
- gwrando ar ddysgwyr am brofiadau o fwlio, aflonyddu, rhagfarn a gwahaniaethu a sut mae'r lleoliad addysg wedi eu cefnogi/sut y gallai'r lleoliad eu cefnogi
- gofyn i'r staff gyda phwy y byddent yn siarad pe byddai ganddynt bryderon (gan gynnwys pryderon am gydweithwyr, y pennaeth/prifathro, perchennog)
- adolygiadau o unrhyw bryderon a godwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sut y cawsant eu cofnodi, sut y gweithredwyd arnynt a'r canlyniad
- strategaethau rheoli ymddygiad a'r trefniadau ar gyfer eu rhoi ar waith.

| Adran 4 |
| --- |
| **Pa mor gadarn yw eich arferion diogelu?**<br><br>**Mae’r dystiolaeth yn cynnwys:**<br>• cofnodion presenoldeb a gadwyd fel tystiolaeth<br>• archwiliadau rheolaidd o gofnodion hyfforddiant er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant diogelu (neu sefydlu yn achos aelodau newydd o staff)<br>• cadarnhad gan asiantaethau allanol fod hyfforddiant priodol wedi'i ddarparu, gan gynnwys hyfforddiant gloywi<br>• cofnodion ar y sesiynau sefydlu y mae staff newydd wedi’u cael mewn perthynas â gweithdrefnau diogelu'r lleoliad addysg<br>• cofnodion ar y sesiynau sefydlu a hyfforddiant y mae staff newydd, staff ar gontract/dros dro wedi'u cael<br>• llwybr archwilio ar gyfer staff a llywodraethwyr a phryd y mae angen ei ddiweddaru<br>• polisi ac ymarfer ar gofnodi a storio pryderon amddiffyn plant a diogelu a chamau gweithredu yn deillio o'r pryderon hynny<br>• polisi ac ymarfer mewn perthynas â throsglwyddo cofnodion pan fydd dysgwr yn symud lleoliad addysg<br>• polisi diogelwch ar gyfer storio papur/ar systemau TG<br>• cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr lle y trafodir diogelu<br>• archwiliad DBS<br>• dadansoddiad o unrhyw gwynion ac ymateb y lleoliad addysg. |

| Adran 5 |
|---|
| **Pa mor effeithiol rydych chi'n gweithio gydag eraill i ddiogelu plant/dysgwyr?**<br><br>**Mae’r dystiolaeth yn cynnwys:**<br>• cofnodion atgyfeirio i asiantaethau allanol<br>• cofnodion cyfarfodydd amlasiantaeth a fynychwyd gan y person diogelu dynodedig neu aelodau eraill o staff<br>• cofnodion rhannu gwybodaeth<br>• ansawdd ffeiliau diogelu/amddiffyn plant a chofnodion ar ddysgwyr sy'n agored i niwed (e.e. cyfredol; hygyrch; cywir)<br>• enghreifftiau o wersi a gyflwynwyd gan Raglen Gyswllt Graidd Ysgolion Cymru Gyfan a'u heffaith<br>• gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod wythnos gwrth-fwlio a'u heffaith. |

## Polisïau

Fwy na thebyg y bydd gan yr ysgol neu'r coleg amrywiaeth o bolisïau sy'n berthnasol i'w dull/ddull diogelu a gall y rhain oll helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer yr adnodd gwerthuso. Gallant gynnwys y canlynol:

- gwrth-fwlio
- diogelwch ar-lein
- ymddygiad
- defnyddio amser tawelu/defnyddio ataliaeth gorfforol
- teithio i'r ysgol ac o'r ysgol
- presenoldeb
- cynhwysiant/AAA/ADY
- diwallu anghenion plant â chyflyrau meddygol
- iechyd a diogelwch
- cynllun cydraddoldeb yr ysgol
- recriwtio mwy diogel
- protocolau ymddygiad proffesiynol/cyfathrebu i staff
- ymdrin â honiadau o gam-drin proffesiynol
- chwythu'r chwiban.

# Archwilio trefniadau diogelu

## Crynodeb

**Dylid cwblhau'r adnodd hwn fel cam olaf y broses asesu**

| **Adran 1** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
|---|---|---|---|
| **I ba raddau y mae'r lleoliad addysg yn teimlo'n ddiogel?** | | | |
| **Adran 2** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
| **Pa mor effeithiol rydych chi’n cyfathrebu materion a pholisïau diogelu?** | | | |
| **Adran 3** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
| **Pa mor effeithiol yw eich dull diogelu?** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran 4** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
| **Pa mor gadarn yw eich arferion diogelu?** | | | |
| **Adran 5** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
| **Pa mor effeithiol rydych chi'n gweithio gydag eraill i ddiogelu plant/dysgwyr?** | | | |
| **Crynodeb o'r camau gweithredu** | **Blaenoriaeth 1** | **Blaenoriaeth 2** | **Blaenoriaeth 3** |
| **Adran 1: sicrhau bod y lleoliad addysg yn ddiogel** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran 2: gwella sut rydyn ni’n cyfathrebu mewn perthynas â diogelu** | | | |
| **Adran 3: datblygu ein dull diogelu** | | | |
| **Adran 4: gweithio'n well i ddiogelu dysgwyr** | | | |
| **Adran 5: gweithio'n well ag eraill** | | | |

| Adran 1 | Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu) | Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu) | Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu) |
|---|---|---|---|
| **I ba raddau y mae'r lleoliad addysg yn teimlo'n ddiogel?** | | | |
| | **Mae angen cymryd camau gweithredu yn y maes hwn** | **Mae angen mwy o dystiolaeth arnom er mwyn ateb y cwestiwn** | **Fel y dangosir gan y dystiolaeth sydd gennym.** |
| A yw dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad addysg? | | | |
| A ydych chi'n effeithiol wrth wrando ar bryderon diogelwch dysgwyr a gweithredu arnynt? | | | |
| A yw rhieni/gofalwyr yn teimlo'n hyderus o ran diogelwch y lleoliad addysg hwn? | | | |
| A oes mesurau diogelwch ar y safle, gan gynnwys pwyntiau mynediad a phwyntiau gadael diogel, sy'n eich helpu i deimlo'n ddiogel? | | | |
| A oes mesurau da ar waith i sicrhau trefniadau diogelu effeithiol mewn perthynas â gweithgareddau allgyrsiol neu ddarpariaeth oddi ar y safle? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A gaiff manylion adnabod pob ymwelydd eu cadarnhau, ac a ofynnir iddynt lofnodi wrth gyrraedd a gadael? | | | |
| A gaiff ymwelwyr eu hysbysu am eich ymrwymiad i ddiogelu? | | | |
| Camau gweithredu: beth sydd angen ei newid? | | | |

| Adran 2 | Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu) | Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu) | Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu) |
|---|---|---|---|
| **Pa mor effeithiol rydych chi'n cyfathrebu materion a pholisïau diogelu?** | | | |
| | **Mae angen cymryd camau gweithredu yn y maes hwn** | **Mae angen mwy o dystiolaeth arnom er mwyn ateb y cwestiwn** | **Fel y dangosir gan y dystiolaeth sydd gennym.** |
| A gaiff eich polisi diogelu ac amddiffyn plant ei ddiweddaru bob blwyddyn? | | | |
| A ydych chi'n adolygu pa mor dda y mae eich polisïau a'ch gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant yn gweithio bob blwyddyn? | | | |
| A yw pawb (dysgwyr, rhieni/gofalwyr, staff asiantaeth, staff cymorth, llywodraethwyr) wedi cael gwybodaeth am gynnwys y polisi? | | | |
| A yw'r polisïau yn nodi sut y gall staff, drwy addysgu a chymorth bugeiliol, helpu i atgyfnerthu trefniadau diogelu ac atal achosion o gam-drin ac esgeulustod? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A roddir blaenoriaeth i ddiogelu gan yr uwch-dîm rheoli? | | | |
| A gaiff diogelu ei gynnwys fel eitem reolaidd mewn cyfarfodydd staff? | | | |
| A gaiff diogelu ei gynnwys fel eitem reolaidd yng nghyfarfodydd y cyngor myfyrwyr? | | | |
| A ymdrinnir yn rheolaidd â diogelu yn eich cylchlythyr? | | | |
| A ydych yn hyderus bod pawb yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau amddiffyn plant a diogelu sydd arnynt yn sgil *Cadw dysgwyr yn ddiogel*? | | | |
| A yw polisïau ac arferion diogelu yn hygyrch ac yn cael eu hesbonio ar eich gwefan mewn ffordd hawdd i'w deall? | | | |
| Camau gweithredu: beth sydd angen ei newid? | | | |

| Adran 3 | Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu) | Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu) | Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu) |
|---|---|---|---|
| **Pa mor effeithiol yw eich dull diogelu?** | | | |
| | **Mae angen cymryd camau gweithredu yn y maes hwn** | **Mae angen mwy o dystiolaeth arnom er mwyn ateb y cwestiwn** | **Fel y dangosir gan y dystiolaeth sydd gennym.** |
| A ydych chi'n hyderus eich bod yn llwyddo i nodi, cofnodi a gweithredu ar bryderon diogelu yn effeithiol? | | | |
| A ydych chi'n fodlon â lefel y cymorth bugeiliol a'r cymorth ychwanegol sydd ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys unrhyw rai sy'n wynebu risg benodol neu sy'n arbennig o agored i niwed? | | | |
| A ydych chi'n hyderus bod digon o gymorth yn cael ei roi i ddysgwyr sydd wedi cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu wedi dioddef mathau eraill o niwed? | | | |
| A yw pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod bod dysgwr sy'n derbyn gofal, dysgwr sydd ar y | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gofrestr amddiffyn plant neu ddysgwr a all fod yn wynebu risg yn absennol neu wedi'i wahardd? | | | |
| A ydych chi'n fodlon bod y cwricwlwm yn rhoi digon o wybodaeth i ddysgwyr am ddiogelu? | | | |
| A oes gennych chi bolisi gwrth-fwlio sy'n unol â'r canllawiau statudol Hawliau, Parch a Chydraddoldeb? | | | |
| A oes gennych chi bolisïau sy'n ymdrin â sut i ddelio â'r amrywiaeth o faterion y gallai dysgwyr eu hwynebu? | | | |
| A oes gennych chi bolisi ar ddefnyddio ffotograffiaeth a recordiadau fideo, a ydych chi'n gofyn am ganiatâd gan rieni/gofalwyr ac yn cydymffurfio â'r drefn honno, ac a gaiff delweddau eu defnyddio a'u storio yn unol â chyngor ar ddiogelu? | | | |
| A gaiff materion diogelu eu cynnwys fel rhan o bolisïau ac arferion sy'n cefnogi presenoldeb ac ymddygiad? | | | |
| A ydych chi'n hyderus o ran eich prosesau ar gyfer ymdrin ag achosion o gam-drin, rhagfarn, gwahaniaethu ac aflonyddu? | | | |
| A ydych chi'n hyderus bod eich dull gweithredu mewn perthynas ag ymyriadau corfforol ac ataliaeth yn briodol? A gaiff hyn ei adlewyrchu yn eich polisi ymddygiad neu mewn polisi ar wahân a luniwyd gan yr ysgol? | | | |
| Camau gweithredu: beth sydd angen ei newid? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Adran 4** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
| **Pa mor gadarn yw eich arferion diogelu?** | | | |
| | **Mae angen cymryd camau gweithredu yn y maes hwn** | **Mae angen mwy o dystiolaeth arnom er mwyn ateb y cwestiwn** | **Fel y dangosir gan y dystiolaeth sydd gennym.** |
| A oes person diogelu dynodedig, a dirprwy, sy'n gyfrifol am ddiogelu? | | | |
| A yw'r staff/dysgwyr/rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol yn gwybod pwy yw'r bobl hyn (e.e. a gânt eu henwi ar eich gwefan?) | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A ydych chi’n hyderus bod lleisiau pob dysgwr yn cael eu clywed? | | | |
| A yw pob aelod o staff yn glir o ran yr hyn y dylid ei wneud os gwneir datgeliad amddiffyn plant a sut y dylid rhoi gwybod amdano, ei gofnodi a'i fonitro? | | | |
| A fyddai pob aelod o staff yn gwybod beth i'w wneud pe codwyd pryder am gydweithiwr, gan gynnwys pryder am y pennaeth/prifathro? | | | |
| A yw pob aelod o staff a gwirfoddolwr wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant a diogelu i'w helpu i nodi arwyddion o gam-drin? A ydynt yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon boed am achos o gam-drin yn y lleoliad dysgu, yn y cartref neu mewn lleoliadau eraill? A gaiff hyn ei adnewyddu'n rheolaidd drwy gynnig hyfforddiant addas, yn unol â'ch polisi? | | | |
| A yw'r person diogelu dynodedig a'r llywodraethwr/llywodraethwyr perthnasol wedi cael hyfforddiant diogelu diweddar sy'n berthnasol i'w rôl? | | | |
| A wneir trefniadau digonol i staff a gwirfoddolwyr sy'n absennol yn ystod hyfforddiant? | | | |
| A gaiff staff dros dro, staff peripatetig a staff asiantaeth eu hysbysu am weithdrefnau diogelu/amddiffyn plant y lleoliad addysg? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A oes cofrestr ganolog sy'n cofnodi'r hyfforddiant diogelu y mae pob aelod o staff wedi ymgymryd ag ef, gan gynnwys asesiad o'i effeithiolrwydd a'i effaith a diweddariadau priodol? | | | |
| A gaiff pryderon diogelu eu rhannu'n ddiogel â'r person diogelu dynodedig? | | | |
| A gaiff cofnodion eu storio'n ddiogel gan roi trefniadau mynediad rheoledig ar waith er mwyn sicrhau cyfrinachedd? | | | |
| I ba raddau y mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth sicrhau bod atgyfeiriadau yn gyfrinachol? | | | |
| A yw pob aelod o staff yn glir sut y dylid trafod pryder neu fater diogelu â dysgwr? | | | |
| A yw pob aelod o staff (gan gynnwys staff dros dro a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth) wedi cael gwiriad DBS? Ac a yw'r gwiriadau yn cael eu diweddaru fel sy'n ofynnol gan eich polisi? | | | |
| A oes cofnod i gadarnhau bod pob aelod o staff a benodwyd ar ôl 2002 wedi cael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol/DBS a bod y gwiriad hwnnw ar y lefel briodol? | | | |
| A ydych chi’n hyderus bod y llywodraethwyr yn meddu ar ddigon o wybodaeth i holi cwestiynau ac i herio'r ddarpariaeth ddiogelu yn yr ysgol? | | | |

| Camau gweithredu: beth sydd angen ei newid? | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran 5** | **Coch (Mae angen cymryd camau gweithredu)** | **Oren (Mae angen cymryd rhai camau gweithredu)** | **Gwyrdd (Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu)** |
| **Pa mor effeithiol rydych chi'n gweithio gydag eraill i ddiogelu plant/dysgwyr?** | | | |
| | **Mae angen cymryd camau gweithredu yn y maes hwn** | **Mae angen mwy o dystiolaeth arnom er mwyn ateb y cwestiwn** | **Fel y dangosir gan y dystiolaeth sydd gennym.** |
| A ydych chin hysbysu rhieni/gofalwyr a dysgwyr am y cymorth sydd ar gael yn eich lleoliad addysg a thrwy wasanaethau eraill neu gysylltiadau cymunedol? | | | |
| A yw rhieni/gofalwyr wedi cael gwybod y bydd angen i'r lleoliad addysg rannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill o bosibl? | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A ydych chi’n gweithio gydag asiantaethau allanol i feithrin ymwybyddiaeth dysgwyr o faterion diogelu? | | | |
| A yw'r staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar weithio gydag asiantaethau eraill yn unol â'ch polisi? | | | |
| A ydych chi’n hyderus bod eich lleoliad addysg yn gweithio'n effeithiol ag asiantaethau eraill mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant? | | | |
| Camau gweithredu: beth sydd angen ei newid? | | | |